Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Welsh European Funding Office
Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
Economy, Treasury and Constitution Group

# RHAGLEN GYDWEITHREDU IWERDDON CYMRU 2014-2020

**Fersiwn 8 – Ionawr 2024**

# Rheolau a chanllawiau cymhwystra rhaglenni

## HANES FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Tachwedd 2015 | Cyhoeddi Fersiwn 1, a oedd yn disodli'r fersiwn ddrafft ymgynghorol 0.2 |

| | | |
|---|---|---|
| 2.0 | Mehefin 2017 | Mae Fersiwn 2 yn disodli Fersiwn 1 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015.<br>Crynodeb o'r Newidiadau Allweddol:<br><br>• Logos diwygiedig ar y clawr blaen<br>• Rhifo'r holl Reolau<br>• Diwygio dyddiad mabwysiadu'r Rhaglen (tudalen 9)<br>• Diwygio termau i sicrhau cysondeb â'r rheolau prif ffrwd<br>• Adran 3 – cyfeiriad ychwanegol at Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020, Rheolau a Chanllawiau Cymhwystra Rhaglenni, yn ogystal â'r rheolau cymhwystra ERDF rhanbarthol<br>• Diweddaru Adran 5.1.4.2 i'r perwyl bod partneriaid Cymru i ddarparu sicrwydd ysgrifenedig o gydymffurfiaeth â Safonau Prydeinig pan geir safon ddiogelwch amgen<br>• Adran 5.1.4.4 – Dileu e-Gydlyniant – daeth y llinell amser ar gyfer ymgorffori i ben<br>• Adran 8.2 – canllawiau ychwanegol ar gymhwystra costau asiantaethau cyflogi<br>• Adran 8.2 – eglurhad ynghylch costau y mae'n rhaid eu diystyru wrth gyfrifo'r gyfradd safonol, e.e. gweithwyr prosiect gwirfoddol nas telir, a thaliadau stipendiwm<br>• Adran 14.2.1 – Diweddaru cyfraddau gwirfoddolwyr<br>• Adran 15.1 – Rheol 53 – testun ychwanegol ar TAW anadenilladwy<br>• Adran 16.4 – canllawiau ar sut i amcangyfrif yr oriau cynhyrchiol blynyddol, ar gyfer cost unedol staff y prosiect, pan na ddefnyddir ffigur y CE, sef 1,720 awr<br>• Adran 25.3 – cyfeiriad at Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-20, Rheolau a Chanllawiau Cymhwystra Rhaglenni, yn ogystal â'r rheolau cymhwystra ERDF rhanbarthol. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.0 | Mai 2019 | Mae Fersiwn 3 yn disodli Fersiwn 2 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Dyma grynodeb o'r Prif Newidiadau:<br>• Datganiad gan CIFAS – rhannu gwybodaeth ag asiantaethau atal twyll<br>• Talebau a Thocynnau – diwygiwyd pan ystyrir eu bod wedi'u talu<br>• Ychwanegu eglurder ar gyfrifiadau tâl salwch<br>• Ychwanegu cyfrifiad graddfa fesul awr a fesul mis<br>• Ychwanegu nodyn am arfer gorau o ran cadw cofnod o'r holl offer a brynir gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol<br>• Refeniw net – ychwanegu llinell i egluro bod yn rhaid datgan unrhyw refeniw a gaiff ei gynhyrchu yn unol â'r Rheolau Parhauster<br>• Ychwanegu nodyn i roi gwybod i fuddiolwyr am ymweliadau Tîm Rheoli a Tîm Dilysu WEFO ar ôl cwblhau'r gwaith<br>• Diweddariadau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Reoliadau'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl mabwysiadu Rheoliad 'Omnibws' 2018 |
| 4.0 | Mai 2021 | Mae Fersiwn 4 yn disodli Fersiwn 3 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019. Dyma grynodeb o'r Prif Newidiadau:<br>• Rhan 2, Adran 5, Rheol 9 – gofyniad i fabwysiadu dull cyson wrth drosi/ cyfrifo cyfraddau cyfnewid<br>• Adran 5.1.4.2 – Defnydd o gadarnhad e-bost i gadarnhau/ datgan cymhwysedd i gymryd rhan mewn prosiectau a gefnogir gan ERDF<br>• Adran 8, Rheol 24 ac Adran 25.4 – newidiadau gan Cyllid a Thollau EM i'r Lwfans Cyflogaeth o 6 Ebrill 2020 ymlaen<br>• Adran 16.5 ac Atodiad D – newidiadau i'r Gyfradd Safonol o 40% ar gyfer Opsiynau Costau Symlach drwy'r 'Rheoliad Omnibws' |

| | | |
|---|---|---|
| 5.0 | Tachwedd 2021 | Mae Fersiwn 5 yn disodli Fersiwn 4 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021. Dyma grynodeb o'r Prif Newidiadau:<br><br>• Adran 8.2.5, Cynlluniau dileu swyddi a diswyddo, hy taliadau ychwanegol/arbennig a gynigir ar ddisgresiwn y cyflogwr<br>• Rhan 4, Adran 18.1, Rheol 80 – eglurhad ynghylch y cymorth sydd ar gael ar gyfer 'cwmnïau mewn trafferthion' am resymau sy'n ymwneud â'r pandemig |
| 6.0 | Mehefin 2022 | Fersiwn 6 yn disodli Fersiwn 5 gyhoeddwyd Tachwedd 2021. Crynodeb o'r newidiadau:<br><br>• Adrannau 8.2, cymhwysedd Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>• Diweddariad yn Adran 16.6 i nodi'r gallu i weithrediadau a gefnogir gan ERDF fabwysiadu cost Uned ar gyfer costau staff uniongyrchol<br>• Diweddariad yn Adran 18.1 'ymgymeriadau mewn trafferthion' – nid yw bellach yn ystyriaeth o ran cymorth de-minimis o 24 Ebrill 2020 ymlaen<br><br>Diweddariad i ychwanegu dogfennau Cwestiynau Cyffredin:<br><br>• Amodau Cymorth COVID-19 a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer ERDF, ESF a Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon Cymru<br>• Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE: prynu yn ystod argyfwng y coronafeirws |

| | | |
|---|---|---|
| 7.0 | Mawrth 2023 | Diweddariadau i:<br><br>• Adran 7.6, Rheol [18] – eglurhad o ba gostau y gellir eu talu, drwy eithriad, y tu allan i oes ariannol y cytunwyd arno ar gyfer gweithrediad<br>• Adran 22.3 – yn darparu eglurhad o ran placiau coffaol a phlaciau parhaol / hysbysfyrddau<br>• Atodiad H – diweddariad C9 – Deddf Rheoli Cymorthdaliadau'r DU<br>• Atodiad I – Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020: Addasiadau i Gontractau Caffael – canllawiau ychwanegol i fuddiolwyr / partneriaid prosiectau WEFO**.** Cyhoeddwyd y canllawiau ar wefan Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ym mis Hydref 2021 a'u diweddaru ddiwethaf ym mis Medi 2022. Wedi'i fewnosod yn Atodiad I er hwylustod i'r buddiolwyr |
| 8.0 | Ionawr 2024 | Diweddariad i:<br><br>• Adran 20.1.3, Rheol B - eglurhad o'r cyfnod monitro diwygiedig sy'n gysylltiedig â gweithrediadau sy'n cynhyrchu refeniw ar ôl cwblhau |

# GEIRFA

| | |
|---|---|
| **Ni, ein** | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sydd yn rhan o Lywodraeth Cymru, yn awdurdod dynodedig ar gyfer rheoli rhaglenni ac yn awdurdod ardystio; a'r<br><br>Cynulliad Rhanbarthol Deheuol, sydd yn un o dri Chynulliad yng Ngweriniaeth Iwerddon, yn bartner rhaglen ar gyfer Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020, ac yn Awdurdod Rheoli ar gyfer y Rhaglen Ranbarthol Ddeheuol a Dwyreiniol yn Iwerddon. |
| **Chi, eich** | Y buddiolwr grant o'r cronfeydd UE, naill ai fel buddiolwr arweiniol neu gyd-fuddiolwr. |
| **CE, y Comisiwn** | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| **ERDF** | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| **UE, yr Undeb** | Yr Undeb Ewropeaidd |

| | |
|---|---|
| **CTE** | Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Un o nodau penodol Cronfeydd strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yr UE |
| **Rhaglen** | Rhaglen Gydweithrediad Iwerddon Cymru, sef y cynnig rhaglen ffurfiol a fabwysiadwyd gan y CE. |
| **Gweithrediad, prosiect** | Y cynigion a nodwyd yn eich dogfennau cais am gyllid ac a gymeradwywyd gennym ni. |
| **Rheoliadau** **Rheoliadau UE** **deddfwriaeth UE** | Cyfraith yr UE, sydd â'i grym cyfreithiol yn rhwymo, yn yr un modd â'r cyfreithiau cenedlaethol ym mhob Aelod-wladwriaeth. Rhestrir isod y pecyn deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r nod CTE[#] |

[#] Mae'r pecyn deddfwriaethol yn agored i'w newid; ond pan gyhoeddwyd y ddogfen hon, roedd yn cynnwys:

- Rheoliad yr UE 1303/2013, 17 Rhagfyr 2013 (Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a Darpariaethau Cyffredinol y Cronfeydd Strwythurol)
- Rheoliad yr UE 1301/2013, 17 Rhagfyr 2013 (Y Rheoliad ERDF)
- Rheoliad yr UE 1299/2013, 17 Rhagfyr 2013 (Y Rheoliad CTE)
- Rheoliad yr UE 288/2014, 25 Chwefror 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 184/2014, 25 Chwefror 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 480/2014, 3 Mawrth 2014 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 481/2014 ar reolau cymhwystra CTE, 4 Mawrth 2014 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 215/2014, 7 Mawrth 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad yr UE 1232/2014, 18 Tachwedd 2014
- Rheoliad yr UE 821/2014, 28 Gorffennaf 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 1011/2014, 22 Medi 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 207/2015, 14 Chwefror 2015 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 1516/2015, 10 Mehefin 2015 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 1970/2015, 8 Gorffennaf 2015 (Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 2018/276, 23 Chwefror 2018 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 2018/ 276, 23 Chwefror 2018 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Rheoliad yr UE 240/ 2015, 7 Ionawr 2014 (Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn)
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/ 190/ EU
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/ 99/ EU
- Penderfyniad y Comisiwn 19.12.2013
- Argymhelliad y Comisiwn 6 Mai 2003
- Y Rheoliad Omnibws 2016/0282
- Rheoliad (yr UE, Euratom) 2018/1046

# Cynnwys


## RHAN 1: CYFLWYNIAD

1 Cefndir
2 Pwrpas
3 Cymwysadwyedd
4 Cwmpas a dimensiynau cymhwystra

## RHAN 2: RHEOLAU AC AMODAU CYFFREDINOL

5 Rheolau
5.1 Canllawiau
5.1.1 Sail y cymorth
5.1.2 Trin gwallau a thwyll
5.1.3 Amnewid gwariant anghymwys
5.1.4 Trywyddau archwilio
5.1.4.1 Cyfnodau cadw dogfennau
5.1.4.2 Fformat dogfennau
5.1.4.3 Dogfennau nas cedwir ar safle'r buddiolwr
5.1.4.4 e-Gydlyniant

## RHAN 3: COSTAU CYMWYS

6 Dulliau o gyfrifo a datgan costau cymwys

7 Costau real
7.1 Diffiniad o gostau real
7.2 Rheolau
7.3 Canllawiau
7.3.1 Diffiniad o gostau 'a dynnwyd'
7.3.2 Diffiniad o gostau 'taledig'
7.3.3 Diffiniad o gostau 'adnabyddadwy a dilysadwy'
7.3.4 Talu am nwyddau neu wasanaethau ymlaen llaw
7.3.5 Dargadwadau, symiau digwyddiadol, cyfrifon ysgrow a bondiau talu
7.4 Rheolau
7.5 Canllawiau
7.5.1 Gwerth am arian
7.5.2 Pryniannau cylchol o eitemau gwerth-isel
7.5.3 Y rheol gyllido dwbl
7.5.4 Defnyddio cyfleusterau, asedau a chyfarpar arall y buddiolwr
7.6 Rheolau
7.7 Canllawiau
7.7.1 Ôl-gymeradwyo gweithrediadau

8 Costau staff (costau uniongyrchol)
8.1 Rheolau
8.2 Canllawiau
8.2.1 Cofnodi amser
8.2.2 Hyfforddi staff
8.2.3 Secondiadau
8.2.4 Absenoldeb taledig eithriadol
8.2.5 Cynlluniau dileu swyddi a diswyddo
8.2.6 Taliadau disgresiynol
8.2.7 Taliadau recriwtio, adleoli ac amharu

9 Gwariant ar swyddfeydd a gweinyddu (costau uniongyrchol)
9.1 Rheolau
9.2 Canllawiau
9.2.1 Costau statudol a gorfodol
9.2.2 Yswiriant
9.2.3 Defnyddio mangre a chyfarpar buddiolwr

10 Costau teithio a lletya (costau uniongyrchol)
10.1 Rheolau
10.2 Canllawiau

11 Arbenigedd a gwasanaethau allanol (costau uniongyrchol)
11.1 Rheolau
11.2 Canllawiau

12 Gwariant ar gyfarpar (costau uniongyrchol)
12.1 Rheolau
12.2 Canllawiau
12.2.1 Dull o gaffael: prynu, rhentu neu brydlesu
12.2.2 Costau dibrisiant
12.2.3 Cyfarpar ail-law
12.2.4 Defnydd cyfyngedig
12.2.5 Asedau a chofrestri asedau

13 Costau anuniongyrchol
13.1 Rheolau
13.2 Canllawiau

14 Cyfraniadau mewn cynnyrch
14.1 Rheolau
14.2 Canllawiau
14.2.1 Gwaith di-dâl (amser gwirfoddolwyr)
14.2.2 Rhoddion o dir ac adeiladau
14.2.3 Cyfrifyddu am gyfraniadau mewn cynnyrch

15 Crynodeb ac eglurhad pellach ynghylch costau anghymwys
15.1 Rheolau

16 Costau symlach
16.1 Cyfradd safonol o 15% ar gyfer costau anuniongyrchol
16.2 Cyfradd safonol o 25% ar gyfer costau anuniongyrchol (rhai prosiectau ymchwil ac arloesi)
16.3 Cyfradd safonol o 20% ar gyfer costau staff uniongyrchol
16.4 Costau unedol ar gyfer costau staff prosiect
16.5 Gwybodaeth a chyngor pellach ynghylch costau symlach

17 Canllawiau pellach: diffiniad o gostau 'uniongyrchol' ac 'anuniongyrchol'

17.1 Diffiniad o gostau uniongyrchol
17.2 Costau uniongyrchol a ddyrennir ar sail *pro rata*
17.3 Diffiniad o gostau anuniongyrchol
17.4 Cwestiynau ac atebion: Gwahaniaethu rhwng cost uniongyrchol ac anuniongyrchol

## RHAN 4: GWEITHGAREDDAU CYMWYS A LLEOLIAD GWEITHGAREDDAU

18 Gweithgareddau cymwys
18.1 Rheolau ynghylch cwmpas yr ERDF
18.2 Rheolau ynghylch gweithgareddau cymwys

19 Cymhwystra daearyddol
19.1 Rheolau
19.2 Canllawiau

## RHAN 5: AMODAU CYLLIDO ERAILL

20 Refeniw
20.1 Diffiniadau
20.1.1 Diffiniad o 'Brosiect Sy'n Cynhyrchu Refeniw' (PCR)
20.1.2 Rheol A
20.1.3 Rheol B
20.1.4 Rheol C
20.1.5 Rheol D

21 Arian cyfatebol

22 Rheolau cyhoeddusrwydd a gwelededd cyllid UE
22.1 Defnyddio'r logo a chyfeirio at y Gronfa
22.2 Gwefannau
22.3 Posteri, hysbysfyrddau a phlaciau

23 Rheolau parhauster

24 Hawliau Eiddo Deallusol (HED)

25 Cydymffurfiaeth â’r holl gyfreithiau a rheoliadau cymwysadwy (yr UE, y DU ac Iwerddon)

- 25.1 Cyfreithiau a rheoliadau yr UE
- 25.2 Cyfreithiau a rheoliadau yr Aelod-wladwriaethau (Iwerddon, y DU)
- 25.3 Rheolau caffael yr UE a’r gwladwriaethau
- 25.4 Rheolau cymorth gwladwriaethol

26 Rheolau ac amodau Cymorth Technegol

27 Canllawiau ar gyfuno cymorth â chyllid UE arall

| | |
|---|---|
| **ATODIAD A** | Swyddogaethau a chyfrifoldebau buddiolwyr arweiniol a chyd-fuddiolwyr |
| **ATODIAD B** | Dilysiadau ac archwiliadau |
| **ATODIAD C** | Trywyddau archwilio |
| **ATODIAD D** | Costau symlach: cerdyn cyfraddau |
| **ATODIAD E** | Costau symlach: nodweddion allweddol a chanllawiau |
| **ATODIAD F** | Amodau Cymorth COVID-19 a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer ERDF, ESF a Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon Cymru |
| **ATODIAD G** | Canllawiau i fuddiolwyr Awdurdodau Contractio i'w hystyried wrth brynu cyflenwadau, gwasanaethau, a gwaith sydd ei angen ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng Covid-19 |
| **ATODIAD H** | Y Cyfnod Pontio a’r Cyfnod Ar ôl Pontio Ymadael â'r UE a Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20: cwestiynau cyffredin |
| **ATODIAD I** | Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020: Addasiadau i Gontractau Caffael – canllawiau ychwanegol i fuddiolwyr/partneriaid prosiectau WEFO |

# RHAN 1: CYFLWYNIAD

- **Cefndir**

Pennir y rheolau ac amodau sy'n llywodraethu'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn rhannol gan ddeddfwriaeth yr UE ac yn rhannol gan reolau sy'n benodol i'r rhaglen. Mae rheolau cymhwystra'r rhaglen Iwerddon Cymru yn gymwys yn absenoldeb unrhyw reol yn neddfwriaeth yr UE, neu pan fo rheolau'r rhaglen yn fwy caeth na gofynion yr UE. Mae rheolau cymhwystra'r rhaglen Iwerddon Cymru yr un mor bwysig â'r rheolau UE, a phe byddent yn cael eu diystyru, yr un fyddai'r canlyniad, sef gwneud y gwariant cysylltiedig yn anghymwys ar gyfer cymorth UE.

- **Pwrpas**

Pwrpas y ddogfen hon yw cynorthwyo buddiolwyr, a darpar fuddiolwyr, i ddeall a chymhwyso'r rheolau sy'n benodol i'r rhaglen a'r rheolau Ewropeaidd gan osgoi, pan fo modd, defnyddio termau technegol, cyfeiriadau cyfreithiol a jargon, a darparu atebion i gwestiynau ymarferol ac enghreifftiau o'r arferion gorau.

- **Cymwysadwyedd**

Mae'r rheolau ac amodau sydd yn y ddogfen hon yn gymwys i Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i gyfrannu at y 'Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd' (Cod CCI y Comisiwn 2014TC16RFCB048, Dyddiad mabwysiadu'r rhaglen: 13 Chwefror 2015*).*

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau cymhwystra a sefydlwyd gan y CE yn ogystal â'r rheolau cymhwystra a sefydlwyd ar y cyd gan Iwerddon a Chymru. Mae'r rheolau cymhwystra rhaglenni yn gymwys i'r holl fuddiolwyr, pa un a ydynt wedi eu lleoli yng Nghymru neu yn Iwerddon.

Ar gyfer unrhyw faterion cymhwystra nas cynhwysir yn y Rheoliadau UE nac yn y rheolau cymhwystra rhaglenni a gytunwyd ar y cyd ac a nodir yn y ddogfen hon, bydd y rheolau canlynol yn gymwys:

- **Partneriaid prosiect a leolir yn Iwerddon:** y rheolau cymwysadwy o blith y canlynol: Rheolau Cymhwystra Rhaglenni a Chanllawiau Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-20; rheolau cymhwystra ERDF Iwerddon (Rhaglenni Rhanbarthol Deheuol a Dwyreiniol ar gyfer yr amcan Buddsoddi mewn Twf a Swyddi); a rheolau Swyddfa Caffael y Llywodraeth www.procurement.ie.
- **Partneriaid prosiect a leolir yng Nghymru** y rheolau cymwysadwy o blith y canlynol: Rheolau Cymhwystra Rhaglenni a Chanllawiau Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-20; rheolau cymhwystra ERDF Cymru (Rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru ar gyfer yr amcan Buddsoddi mewn Twf a Swyddi); a rheolau Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru http://prp.gov.wales.

## 4. Trosolwg: dimensiynau cymhwystra

Telir cymorth ariannol UE mewn perthynas â gwariant cymwys y buddiolwyr. Mae cymhwystra gwariant yn llawer ehangach na chymhwystra costau prosiect yn unig. Mae llawer o ddimensiynau gwariant cymwys:

| | |
|---|---|
| **Cymhwystra daearyddol** | Mae'n bosibl y bydd angen i weithgareddau sy'n cael cymorth yr UE gael eu cynnal mewn ardal ddaearyddol benodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i fusnesau neu bobl sy'n cael cymorth gan brosiect fod wedi'u lleoli mewn ardal benodol. |
| **Cwmpas yr ymyriad** | Cyfyngir ar y mathau o weithgareddau a diwydiannau y caiff ERDF a'r Rhaglen CTE eu cynorthwyo. |
| **Costau** | Mae rhai mathau o gostau bob amser yn anghymwys, ac eraill yn gymwys o dan amodau penodol yn unig. Yn ogystal, gall y gallu i ddangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng cost â phrosiect cymwys effeithio ar gymhwystra'r gost (boed yn gost 'anuniongyrchol' neu'n gost 'uniongyrchol'). |
| **Amseru'r Gwariant** | Mae rheolau ynglŷn â'r cyfnod pan ganiateir i wariant a gweithgaredd ddigwydd, gan gynnwys rheolau arbennig ynghylch gwariant a ddigwyddodd cyn dod i gytundeb ynghylch cyllid grant. |
| **Lefel neu amlder y gwariant** | Nid yw gwariant cymwys yn 'cyfrif' ac eithrio ar y pwyntiau a gytunwyd o fewn y gadwyn daliadau, gan ddibynnu ar bwy sy'n gwneud y taliad a pha bryd y telir yr arian mewn gwirionedd. |
| **Cyfreithiau a rheoliadau UE/gwladol eraill** | Rhaid i bob gweithgaredd a ariennir o Gronfeydd UE gydymffurfio â rheolau UE a pholisïau megis caffael cyhoeddus, cystadleuaeth, yr amgylchedd a chyfleoedd cyfartal yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau'r Aelod-wladwriaethau (Iwerddon, y DU).<br><br>Rhaid i gymorth gydymffurfio â rheolau'r UE ar gymorth gwladwriaethol; ac os yw'r rheolau hynny'n fwy caeth na'r rheolau ERDF, maent yn drech na'r rheolau ERDF |
| **Gofynion gwybodaeth a chyhoeddusrwydd** | Rhaid i fuddiolwyr rhoi cyhoeddusrwydd digonol i'r cymorth a geir o'r Cronfeydd UE |
| **Profi 'costau real'** | Ac eithrio costau dibrisiant ac unrhyw gyfraniadau mewn cynnyrch, costau a ddiwellir mewn gwirionedd gan fuddiolwr, ac a ategir gan anfoneb neu ddogfen gyffelyb, yn unig, sy'n gymwys. |
| **Defnyddio 'costau symlach'** | Rhaid cyfrifo a datgan costau cymwys yn unol â'r amodau a thelerau a nodir yn y cytundeb cyllid grant. Ni cheir defnyddio costau symlach i ddatgan costau cymwys gweithgareddau, prosiectau neu weithrediadau a gaffaelwyd yn llawn. |
| **Trywyddau archwilio** | Rhaid cadw tystiolaeth o'r gwariant, gweithgareddau ac allbynnau ac o gydymffurfiaeth â'r holl amodau cyllido cymwysadwy, hyd nes hysbysir y buddiolwr nad oes angen y dystiolaeth mwyach. |
| **Parhauster prosiectau** | Mewn rhai achosion, mae'n rhaid cynnal y buddsoddiadau/ gweithgareddau/ asedau am gyfnod penodol ar ôl diwedd cyfnod cyflawni'r prosiect, rhag gorfod ad-dalu'r cymorth ERDF. |

# RHAN 2: RHEOLAU AC AMODAU CYFFREDINOL

## 5. RHEOLAU

Mae’n rhaid ichi gydymffurfio â’r rheolau ac amodau a nodir yn y ddogfen hon.

1.Ni fydd costau yn gymwys oni fyddant yn angenrheidiol ar gyfer rheoli, cychwyn neu gyflawni’r gweithgareddau/ gweithredoedd a gymeradwywyd gennym ni.

2. Mae’n rhaid i weithgaredd a gwariant y prosiect fod yn gyfreithlon a chydymffurfio â’r holl gyfreithiau a rheoliadau gwladol ac UE cymwysadwy.

3. Mae’n rhaid i linell gyllideb gostau addas fodoli ar gyfer y mathau o gostau yr ydych yn bwriadu eu datgan fel rhai cymwys (costau staff, cyfarpar, costau anuniongyrchol ac ati). Bydd tystiolaeth o hynny yn y cynllun cyllido/ proffil cyflenwi neu ddogfennau cysylltiedig a gymeradwywyd gennym ni.

4. Mae’n rhaid ichi gydymffurfio â’r amodau cyffredinol a phenodol a nodir yn eich cytundeb cyllid grant ac unrhyw reolau cymorth gwladwriaethol cymwysadwy yr UE, a fydd o bosibl yn mynd y tu hwnt i’r rheolau ac amodau a ddisgrifir yn y ddogfen hon.

5. Mae’n rhaid ichi sicrhau y cedwir yr holl gofnodion cyfrifyddu perthnasol a’r dogfennau ategol, sef yr wybodaeth ariannol ac anariannol, i arddangos cydymffurfiaeth â’r rheolau ac amodau. Rhaid cadw’r rhain hyd nes byddwn ni yn eich hysbysu nad oes eu hangen mwyach.

6. Mae’n rhaid ichi gynnal a diweddaru cofnod cyfoes o leoliad cofnodion gwreiddiol y prosiect.

7. Mae’n rhaid i’r trywydd archwilio gynnwys dogfennau sy’n ddilysadwy, archwiliadwy, ar gael yn hwylus, ac wedi eu cadw mewn fformat derbyniol a fydd yn diogelu eu dilysrwydd a’u cyfanrwydd.

8. Mae’n rhaid i’r cofnodion cyfrifyddu a’r dogfennau ategol fod ar gael yn hwylus ar gyfer archwiliadau, dilysiadau ac unrhyw ymchwiliad perthnasol. Byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd, ond nid oes rhwymedigaeth ar archwilwyr y CE i ddarparu mwy na 12 diwrnod gwaith o rybudd o ymweliad archwilio, a dylech sicrhau y gall eich trefniadau rheoli cofnodion ymdopi â hynny.

9. Pan eir â gwariant mewn punnoedd sterling, gan fuddiolwr arweiniol / cyd-fuddiolwr o Gymru ac y mae rhaid ei drosi'n Ewros i’w gynnwys mewn hawliad tâl i WEFO, rhaid **trosi'r gwariant i Ewro** gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid gyfrifyddu fisol y Comisiwn Ewropeaidd (CE). Oherwydd amseriad y trafodion, mae’n bosibl y tynnir costau am yr eitem / gwasanaeth mewn un mis a’u talu mewn mis arall. Rhaid i’r buddiolwr arweiniol / cyd-fuddiolwr o Gymru benderfynu rhwng defnyddio’r dyddiad pan dynnwyd y costau am yr eitem / gwasanaeth neu’r dyddiad pan dalwyd cost yr eitem / gwasanaeth. Bydd hyn wedyn yn pennu’r gyfradd gyfnewid gyfrifyddu fisol CE gywir i’w defnyddio i drosi o

bunnoedd sterling i Ewros. Unwaith i'r buddiolwr arweiniol / cyd-fuddiolwr o Gymru benderfynu pa ddyddiad i'w ddefnyddio, rhaid wedyn dilyn yr un drefn bob tro wrth drosi gwariant ar gyfer hawliadau tâl y prosiect. Er enghraifft, os penderfynir defnyddio'r dyddiad pan dynnwyd y costau, bob tro wedyn pan fydd angen trosi trafodion punnoedd sterling i Ewros, bydd dyddiad tynnu'r trafodiad yn pennu'r gyfradd gyfnewid gyfrifyddu fisol CE i'w defnyddio.

Sylwer, lle mae buddiolwr yn derbyn anfoneb mewn arian cyfred tramor ac y mae rhaid ei drosi'n arian cyfred cenedlaethol, gall y buddiolwr ddilyn ei bolisi cyfradd gyfnewid mewnol sefydledig ei hun. Rhaid i'r polisi gadw at safonau cyfrifyddu cenedlaethol, darparu manylion ynghylch ble a phryd y ceir y gyfradd gyfnewid a nodi sut y caiff y gyfradd ei chymhwyso - lle dangosir yr holl elfennau hyn bydd y gost yn gymwys i gael cymorth.

10. Mae'n rhaid ichi drefnu mynediad i'r cofnodion prosiect os gofynnir ichi gennym ni, gan y cyrff archwilio a rheoli cenedlaethol dynodedig, neu gan y sefydliadau UE perthnasol (y Comisiwn Ewropeaidd, Llys Archwilwyr Ewrop, Swyddfa Gwrth-dwyll Ewrop).

## 5.1 CANLLAWIAU

### 5.1.1 Sail y cymorth

Grant nad oes angen ei ad-dalu yw'r cymorth ERDF; golyga hynny na fydd yn rhaid ad-dalu'r grant UE i ni, os bodlonir rheolau ac amodau'r cyllid.

### 5.1.2 Camgymeriadau anfwriadol ('gwallau') a thwyll

Er bod gwallau yn digwydd yn gymharol anaml, a thwyll yn brinnach byth, mae'n rhaid inni ddiogelu cyllid yr UE trwy sefydlu mesurau i atal, canfod a chywiro unrhyw wallau ac ymchwilio'n drwyadl i unrhyw amheuon o dwyll.

Mae gwariant nad yw'n cydymffurfio â rheolau'r UE neu reolau'r rhaglen yn afreolaidd (h.y. yn 'afreoleidd-dra') ac felly ni chaniateir ei ddatgan wrth y CE fel gwariant sy'n gymwys am gymorth ERDF. Os yw cymorth ERDF eisoes wedi ei dalu i fuddiolwyr yn amhriodol, bydd y CE yn disgwyl i ni adennill y symiau hynny a dalwyd.

Ystyr twyll yng nghyd-destun y rhaglenni ERDF yw gwneud rhywbeth neu ddatgan rhywbeth yn fwriadol, y gwyddoch ei fod yn ffug ac sy'n peri, neu y gallai fod wedi peri, talu arian yr UE allan ar gam. Mae hefyd yn golygu ymatal yn fwriadol rhag gwneud rhywbeth neu ddatgan rhywbeth y gwyddoch y byddai'n peri, neu y gallai beri, talu arian UE ar gam. Felly mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gorddatgan gwariant cymwys a thanddatgan, neu beidio ag adrodd am, refeniw prosiect, yn ogystal â pheidio â chydymffurfio â rhwymedigaethau adrodd a hysbysu a bennir yn y cytundeb cyllid grant.

Ein dull o ymateb i dwyll yw 'dim goddefgarwch', a byddwn yn ymchwilio i bob amheuaeth o dwyll. Rydym hefyd o dan rwymedigaeth gyfreithiol i roi gwybod i Swyddfa Wrth-dwyll Ewrop (OLAF) am bob amheuaeth o dwyll yn ogystal â phob achos gwirioneddol.

ATAL TWYLL

Nodwch y gallwn rannu'r data rydych yn eu darparu i ni ag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Er mwyn i ni allu cydymffurfio â'r egwyddor prosesu teg o ddiogelu data, mae angen i ni roi gwybod i chi sut y gallai eich data personol gael ei ddefnyddio.

Caiff yr wybodaeth a gasglwn gennych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll ac achosion o wyngalchu arian ac i ddilysu pwy ydych chi. Os caiff twyll ei ganfod, gallai rhai gwasanaethau, cyllid neu waith gael eu gwrthod i chi yn y dyfodol. Gallwch gael rhagor o fanylion am sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, drwy gysylltu â dataprotectionofficer@gov.wales

Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael yn
https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â WEFO.

### 5.1.3 Amnewid gwariant anghymwys

Dylech fod yn ymwybodol, os digwydd i ni datgan gwariant wrth y CE, ac i wiriadau ac archwiliadau diweddarach ganfod bod rhai o'r costau cymwys a ddatganwyd gennych chi yn anghymwys mewn gwirionedd, na chaniateir ichi amnewid y costau hynny trwy roi costau cymwys 'amnewidiol' yn eu lle. Pan ganfyddir gwallau o'r fath, mae'r Rheoliadau UE yn caniatáu i ni ailddefnyddio'r cyfraniad UE a ddiddymir, ar gyfer gweithrediadau eraill o fewn y Rhaglen – ni chaniateir ei ailddefnyddio gennych chi ar gyfer yr un gweithrediad/ prosiect.

### 5.1.4 Trywyddau archwilio

Mae'r trywydd archwilio yn cynnwys dwy elfen: <u>cofnodion cyfrifyddu</u> a <u>dogfennau ategol.</u>

Ystyr **'Dogfen'** yw naill ai cofnodion ar bapur ('copi caled') neu gofnodion mewn cyfrwng electronig/ digidol sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol [EU 1303/2013, Erthygl 2(17)].

'Ystyr '**Cofnodion cyfrifyddu'** yw'r cofnodion cyfrifyddu ar gyfer y gwariant cymwys, arian cyfatebol, refeniw prosiect a derbyniadau eraill sydd wedi eu codio/ codi ar y gweithrediad/ prosiect UE ac sy'n sail i'r symiau a ddatgenir gennych wrthym ni yn eich hawliadau tâl rheolaidd.

Rhaid ichi sicrhau y cynhelir trywydd archwilio digonol, i arddangos effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth eich prosiect a chymhwystra eich gwariant.

Rhaid ichi sicrhau bod yr holl gofnodion perthnasol ar gael pan ofynnir amdanynt, fel y pennir yn y cytundeb cyllid grant, er enghraifft i ategu dilysiadau, archwiliadau neu unrhyw ymchwiliadau cysylltiedig.

Mae derbynioldeb cofnodion digidol, dogfennau a droswyd i ffurf ddigidol a llungopïau o gofnodion papur yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn 5.1.4.2.

Darperir gwybodaeth a chanllawiau ymarferol pellach yn **Atodiad C.**

#### 5.1.4.1 Cyfnodau cadw dogfennau

Yn wahanol i'r cyfnodau rhaglennu blaenorol, ni chysylltir y cyfnodau cadw dogfennau ar gyfer buddiolwyr â dyddiad cau'r Rhaglen; effaith hynny fydd cwtogi'r cyfnodau cadw cyfartalog i rhwng 5 a 10 mlynedd o'r dyddiad y byddwch yn datgan gwariant wrthym ni.

Yn y rhan fwyaf o achosion, y cyfnod cadw fydd oddeutu 3 blynedd ar ôl cwblhau eich gweithrediad. Os na fydd cyfanswm y gwariant cymwys a gymeradwyir ar gyfer eich gweithrediad yn fwy nag €1m, bydd y cyfnod cadw, yn y rhan fwyaf o achosion, yn llawer byrrach – sef tua 4 blynedd ar ôl cyflwyno eich hawliad i ni.

**Byddwn yn rhoi gwybod ichi mewn ysgrifen pa gyfnodau cadw dogfennau a fydd yn gymwys i chi.**

Nodir y rheolau manwl ar gyfer pennu'r union gyfnod cadw isod:

<u>Nodyn ar gyfer staff y Gyd-ysgrifenyddiaeth</u>

Rhaid i WEFO hysbysu buddiolwyr, mewn ysgrifen, o'r **dyddiad cychwn** ar gyfer penderfynu'r cyfnod cadw dogfennau, ac o'r **cyfnod cadw**. Bydd y cyfnod cadw yn un o'r canlynol:

- ar gyfer gweithrediadau pan fo'r cyfanswm gwariant cymwys yn llai nag €1m, **3 blwyddyn galendr** o'r 31 Rhagfyr sy'n dilyn cynnwys y **gwariant cymwys blynyddol** yn y cyfrifon a gyflwynir i'r CE bob mis Mawrth.
- ar gyfer pob gweithrediad arall, **2 flwyddyn galendr** o'r 31 Rhagfyr sy'n dilyn cynnwys y **gwariant cymwys terfynol** sy'n dynodi <u>cwblhau'r gweithrediad.</u>

Er hynny, mae'n bosibl y bydd angen i'r buddiolwr gadw dogfennau am gyfnod hwy os yw'r rheolau Cymorth gwladwriaethol yn gwneud hynny'n ofynnol, neu pan fo archwiliadau neu ymchwiliadau ar droed, ac y cynghorir y buddiolwr yn benodol i gadw'r trywyddau archwilio hyd nes rhoddir hysbysiad pellach.

Gweler EU 1303/2013, Erthygl 140, para 1 a 2.

### 5.1.4.2 Fformat dogfennau

Caniateir cadw dogfennau mewn unrhyw un o'r fformatau canlynol:

- Fersiynau electronig/ digidol o ddogfennau papur gwreiddiol ar gludwyr data a dderbynnir yn gyffredin, megis microffilm, delweddau wedi'u digideiddio/ sganio, delweddau replica ac ati.
- Dogfennau sy'n bodoli yn eu fersiwn electronig/ ddigidol yn unig h.y. cofnodion 'genedigol-ddigidol' sy'n ddigidol o'u dechreuad megis e-byst, cofnodion cronfa ddata, taenlenni, ffeiliau prosesu geiriau ac ati. Mae hyn yn cwmpasu cofnodion strwythuredig a di-strwythur ac yn cynnwys, er enghraifft, systemau rheoli cofnodion electronig; fformatau ffeiliau digidol megis PDF, JPEG a TIF pan gânt eu creu ac wedyn eu trosglwyddo yn ddigidol; cronfeydd data; clipiau fideo, ffotograffiaeth ddigidol ac ati.
- Dogfennau papur gwreiddiol.
- Gwir gopïau ardystiedig o ddogfennau papur gwreiddiol.
  [EU 1303/2013, Erthygl 140].

<u>Amodau ar gyfer derbyn dogfennau sy'n bodoli ar ffurf electronig / digidol yn unig</u>

Er mwyn sicrhau dilysrwydd a chyfanrwydd cofnodion 'electronig /digidol yn unig', fel y gellir dibynnu arnynt at ddibenion cyfreithiol ac archwiliadol, mae'n rhaid ichi fodloni eich hunan bod y systemau TGCh a sefydlwyd yn cyrraedd y safonau diogelwch a dderbynnir yn genedlaethol

Ar gyfer partneriaid prosiect a leolir yng Nghymru, mae'n rhaid i'r system fod wedi ei chynllunio i gydymffurfio â **BSI BIP0008-1:2014** neu **ISO 27001:2013**. Os bwriedir defnyddio safon amgen ar gyfer partneriaid prosiect a leolir yng Nghymru, dylech ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i ni ymlaen llaw, i'r perwyl bod y system yn gymaradwy â'r gofynion BSI / ISO. Bydd WEFO wedyn yn cadarnhau a yw'r system amgen yn darparu safon sicrwydd dderbyniol yn y DU.

Ar gyfer partneriaid prosiect a leolir yn Iwerddon, caniateir defnyddio systemau diogelwch a dderbynnir yn genedlaethol, boed o safon a ddatblygwyd ar gyfer ei defnyddio yn Iwerddon yn unig, neu o Safon Ryngwladol a dderbynnir yn Iwerddon – os ystyrir y safon yn dderbyniol yn gyfreithiol yn Iwerddon ac yn ddibynadwy at ddibenion archwilio. Mae'n rhaid parchu hefyd yr holl gyfreithiau a rheoliadau cymwysadwy sy'n llywodraethu'r modd y defnyddir gwybodaeth electronig, megis Deddf Masnach Electronig 2000, fel yr esbonnir yn Adran 36.

Dylai buddiolwyr, felly, gael sicrwydd perthnasol ynghylch safonau diogelwch eu systemau TG gan eu hadran TG/ Diogelwch Gwybodaeth neu eu tîm rheoli corfforaethol. Dylid defnyddio cofnodion papur os oes unrhyw amheuaeth.

At ddibenion ein dilysiadau a'n harchwiliadau ni, dylech gadw dogfen sy'n disgrifio'r gweithdrefnau a ddilynwyd gennych i gael sicrwydd bod safonau diogelwch TG digonol wedi eu sefydlu, fel y gellir dibynnu ar yr wybodaeth a ddelir yn electronig/ digidol.

Os na allwch gael y sicrwydd angenrheidiol ynglŷn â'r safonau diogelwch TG, ni fydd y cofnodion yn dderbyniol at ein dibenion cydymffurfiaeth ni [EU1303/2013, Erthygl 140(6)].

<u>Amodau ar gyfer derbyn fersiynau wedi'u digideiddio/ sganio a fersiynau replica digidol o ddogfennau papur gwreiddiol</u>

Rhaid i fuddiolwyr sy'n defnyddio systemau sganio, e-archifo neu brosesu delweddau (gan sganio dogfennau papur gwreiddiol ar gyfer eu storio ar ffurf ddigidol) sicrhau bod prosesau ardystio a rheolaethau wedi eu sefydlu sydd o leiaf yn:

- Gwarantu bod pob 'e-ddogfen' (delwedd a sganiwyd) yn unfath â'r ddogfen bapur wreiddiol.

- Gwneud yn amhosibl sganio yr un ddogfen bapur nifer o weithiau i gynhyrchu nifer o wahanol e-ddogfennau allan o'r un ddogfen wreiddiol (hynny yw, fod pob e-ddogfen yn parhau'n unigryw ac na ellir ei hailddefnyddio at unrhyw ddiben ac eithrio'i phwrpas gwreiddiol).

- Pan fo'r ddogfen yn dystiolaeth o drafodiad ariannol, peri bod y broses o gymeradwyo, cyfrifyddu a thalu ar gyfer pob e-ddogfen yn unigryw (hynny yw, nad yw'n bosibl cymeradwyo, cyfrifyddu, na thalu ar gyfer yr un e-ddogfen ddwywaith).

- Sicrhau, pan fydd e-ddogfennau wedi eu sganio, y bydd yn amhosibl eu diwygio neu greu copïau addasedig (neu sicrhau y cedwir fersiynau diwygiedig / addasedig fel fersiynau ar wahân, tra bo'r fersiwn wreiddiol o'r ddelwedd, nas newidiwyd, yn parhau i fod ar gael at ddibenion archwilio).

Yn ystod dilysiadau ac archwiliadau, gellir gofyn am archwilio'r polisïau a'r gweithdrefnau a sefydlwyd i ddarparu sicrwydd ynghylch y prosesau ardystio a'r rheolaethau uchod, a gellir gofyn hefyd am arsylwi ar y pryd, tra bo'r broses o sganio ac ardystio yn digwydd.

Gwir gopïau ardystiedig o ddogfennau papur (llungopïau)

Rhaid i'r llungopi o'r ddogfen gynnwys 'datganiad ardystio'. Mae'n rhaid naill ai annodi'r datganiad ardystio ar y llungopi neu ei atodi ynghlwm wrtho. Nid oes angen marcio'r ddogfen wreiddiol.

Os yw dogfen yn cynnwys nifer o dudalennau dylid ardystio'r dudalen gyntaf, gan nodi nifer y tudalennau a atodir ar y dudalen flaen (neu, fel dewis arall, gellir ardystio pob tudalen).

Rhaid i'r datganiad ardystio gael ei lofnodi a'i ddyddio gan gyflogai a all warantu bod y copi yn replica gwirioneddol o'r gwreiddiol.

Dylid ychwanegu'r datganiad ardystio ar yr adeg y gwneir y copi, neu'n fuan wedyn, pan fo modd i'r llofnodydd ddwyn i gof y gwreiddiol ac felly gadarnhau bod y copi yn foddhaol.

Caiff pob buddiolwr ddewis union eiriad y datganiad ardystio, ond dylai'r datganiad gynnwys y canlynol, o leiaf:

- Llofnod
- Dyddiad
- 'Gwir gopi', 'copi ardystiedig', 'ardystiwyd' [neu ymadrodd cyffelyb i ddynodi arwyddocâd y llofnod a'r dyddiad]

Argymhellir, ond nid yw'n orfodol, y dylai datganiad ardystio gynnwys enw /swydd y llofnodydd mewn priflythrennau neu gyfeirnod unigryw arall (megis rhif cyflogai/ cyflogres) fel y bydd modd i staff y prosiect a/neu'r archwilwyr adnabod y llofnodydd yn hwylus, pe bai angen yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn enghraifft o ddatganiad ardystio sy'n cydymffurfio:

| |
|---|
| Rwyf yn ardystio bod y ddogfen hon yn gopi gwir o'r gwreiddiol |
| LLOFNOD: |
| DYDDIAD: |

ENW PRINTIEDIG/ SWYDD YN Y SEFYDLIAD [opsiynol]:

ENW’R SEFYDLIAD [opsiynol]:

NIFER Y TUDALENNAU ARDYSTIEDIG YN Y DDOGFEN HON [os yw’n gymwys]

Os yw'n fwy effeithlon, gellir defnyddio datganiad ardystio sengl ar gyfer swp o lungopïau. Mae'n rhaid i'r datganiad ardystio gynnwys:

- rhif cyfeirnod/ cod unigryw i adnabod y swp.
- nifer y dogfennau a gynhwysir yn y swp – a niferoedd y tudalennau os oes dogfennau unigol o fwy nag un tudalen yn y swp.
- cyfeirnodau/ rhifau pob un o'r dogfennau a gynhwysir yn y swp. Os nad yw'r dogfennau eisoes wedi eu cyfeirnodi/ rhifo, dylid ychwanegu cyfeirnod/ rhif i bob dogfen cyn ardystio'r swp.

<u>Ystyriaethau eraill</u>

Wrth benderfynu ar y fformat mwyaf addas ar gyfer dogfennau, cofiwch y bydd angen cadw'r cofnodion am gyfnod hwy, efallai, nag sy'n ofynnol o dan bolisi cadw cofnodion arferol eich sefydliad. Bydd angen i chi godio neu labelu cofnodion prosiect UE, i'w diogelu rhag eu dinistrio'n rhy gynnar. Dylech roi sylw hefyd i faterion ymarferol, megis y gofod sydd ar gael i'w storio, y perygl y cânt eu difrodi, neu'r risg o anarferiant technolegol.

Dylai buddiolwyr roi sylw penodol i'r risg o anarferiant technegol yn achos cofnodion digidol, sef y caledwedd TGCh a'r feddalwedd a ddefnyddir i gael mynediad i'r cofnodion. Dylai'r sefydliadau sy'n gofalu am gofnodion sicrhau yr adelwir y cofnodion gwreiddiol o'r holl systemau cofnodi electronig sydd mewn perygl o fynd yn anarferedig neu'n anhygyrch.

I egluro, nid yw WEFO na'r Comisiwn Ewropeaidd yn disgwyl nac yn dweud bod yn rhaid defnyddio dogfennau copi caled neu lofnodion go iawn, na'u bod yn well na chofnodion digidol. Yn wir, mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yn annog buddiolwyr i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i wneud gwaith gweinyddol heb ddefnyddio papur, gan gynnwys wrth gymryd rhan yn y system e-Gydlyniant.

Felly, dylai buddiolwyr nodi'r canllawiau a roddir yn 5.1.4.2 uchod ac ystyried sut y gall technoleg ddarparu systemau addas i nodi a dilysu dogfen er enghraifft, neu i ddangos bod trafodion, gwybodaeth neu benderfyniadau wedi'u hawdurdodi.

**Diweddariad Medi 2020:** Defnydd o gadarnhad e-bost i gadarnhau/ datgan cymhwysedd i gymryd rhan mewn prosiectau a gefnogir gan ERDF. Cynghorir y dull hwn ar gyfer rhai prosiectau ERDF yn unig lle mae angen cymhwysedd BBaCh a phresenoldeb gweithwyr unigol mewn digwyddiadau/ gweithdai hyfforddi.

Yn dilyn ymchwil bellach ar y defnydd o e-bost i ddarparu cadarnhad electronig/ datgan cymhwysedd, mae WEFO wedi ymgorffori'r canlynol yn ei reolau Cymhwysedd:

Gellir derbyn cadarnhad/ datganiad e-bost gan gyflogai unigol o fewn BBaCh/ sefydliad busnes yn lle llofnod 'gwlyb' neu gwbl electronig (eIDAS) o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle mae mor glir â phosibl mai'r e-bost a ddefnyddir yw e-bost y BBaCh/ sefydliad busnes sy'n cyflogi'r gweithiwr unigol
- Lle caiff ei gefnogi gan becyn o dystiolaeth sy'n cadarnhau cymhwysedd BBaCh/ sefydliad busnes drwy ddatganiad BBaCh wedi'i gwblhau a thystiolaeth o weithwyr unigol yn mynychu gweithdai.

Wedyn gellir ystyried y byddai'r uchod yn bodloni'r gofyniad sylfaenol a nodir ar gyfer gweithredu dogfennau'n electronig – 'bwriad i ddilysu wedi'i fynegi'n glir a chyda llwybr archwilio cyfatebol i gefnogi'r bwriad'. Felly, os gellir dangos tystiolaeth bod y trefniadau hyn ar waith, bydd hyn yn negyddu'r gofyniad i ailedrych yn ôl-weithredol ar dystiolaeth yn y dyfodol ac unwaith y bydd cyfyngiadau COVID-19 wedi'u codi.

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol hefyd:

- Lle na ellir dangos tystiolaeth o'r amodau a nodir uchod, yna bydd yn ofynnol o hyd i fuddiolwyr ailedrych ar dystiolaeth, yn unol â'r gofynion arferol, yn y dyfodol ac unwaith y bydd modd gwneud hynny. Fel sy'n wir bob amser am brosiectau'r UE, dylai buddiolwyr nodi, pan fyddant yn ddarostyngedig i archwiliad yn y dyfodol, y gall yr archwilwyr, ar adegau, ofyn am dystiolaeth ychwanegol i gefnogi cymhwysedd cyfranogwyr penodol, os byddant yn dod i'r penderfyniad nad yw'r ddogfennaeth a ddarparwyd yn wreiddiol yn ddigon i fodloni gofynion cymhwysedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y bydd yr archwilydd hefyd yn ystyried y canllawiau a'r cyfyngiadau a oedd ar waith ar y pryd. Gweler Atodiad F y canllawiau hyn o dan y teitl, Amodau cefnogaeth a chwestiynau cyffredin COVID-19 ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Rhaglen Gydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru ac yn benodol Cwestiynau 6 a 6a i weld rhestr nad yw'n un hollgynhwysfawr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, cysylltwch â'r Gyd-ysgrifenyddiaeth i'w trafod ymhellach.
- Mae dolen at ganllawiau COVID-19 Llywodraeth Iwerddon ar gael yma.
- Fel y nodir uchod, cynghorir y dull hwn ar gyfer rhai prosiectau ERDF yn unig lle mae angen cymhwysedd BBaCh a phresenoldeb gweithwyr unigol mewn digwyddiadau/ gweithdai hyfforddi. Ar gyfer dogfennau eraill, megis llofnodi Cytundebau Ariannu, a dogfennau cyfreithiol eraill o'r fath, byddwn yn dal i ddisgwyl i'r gweithdrefnau arferol gael eu mabwysiadau lle bynnag y bo modd – dim ond lle na ellir dangos hyn y bydd angen camau dilyn yn y dyfodol.

#### 5.1.4.3 Cofnodion a dogfennau nas cedwir ar safle'r buddiolwr

Yn ymarferol, gall dogfennau ategol a data gael eu creu, eu casglu neu eu cael gan y canlynol:

- buddiolwyr (buddiolwr arweiniol neu gyd-fuddiolwr); neu
- trydydd bartïon sy'n bartneriaid cyflenwi, megis contractwyr a darparwyr gwasanaethau y caffaelir eu gwasanaeth.

Fodd bynnag, ni chaniateir i gofnodion prosiect UE – sef dogfennau a data sy'n ffurfio rhan o drywydd archwilio'r prosiect – gael eu dal yn barhaol gan drydydd bartïon sy'n gontractwyr/ darparwyr gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r buddiolwr drefnu i

drosglwyddo cofnodion prosiect oddi ar gontractwyr/ darparwyr i'r buddiolwr, a fydd yn cadw'r cofnodion ar gyfer archwiliadau a gwiriadau yn y dyfodol. Mae'n rhaid i gontractau, cytundebau a phrotocolau gyda'r contractwyr/ darparwyr, felly, bennu'r rheolau hyn.

Cyfrifoldeb y buddiolwr arweiniol yw sicrhau bod cyd-fuddiolwyr yn deall gofynion y trywydd archwilio yn eglur.

Rhaid i'r holl gofnodion fod ar gael yn hwylus ar gyfer archwiliadau, dilysiadau ac unrhyw ymchwiliadau cysylltiedig. Ein nod fydd rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd ichi os bydd arnom angen edrych ar gofnodion prosiect ond, oherwydd nad oes rhwymedigaeth benodol ar archwilwyr y CE i ddarparu mwy na 12 diwrnod gwaith o rybudd o'u harchwiliadau, dylech sicrhau bod eich trefniadau yn ddigon cadarn i ymdopi â cheisiadau o'r fath.

Os digwydd i gofnodion beidio â bod ar gael yn ystod ymweliad o'r fath, byddai hynny, ar unwaith, yn achosi risg y gellid datgan y gwariant cysylltiedig yn anghymwys.

Os cedwir cofnodion mewn mannau oddi ar brif safle'r buddiolwr – megis mewn cyfleusterau storio ar wahân – **dylai'r buddiolwr gynnal gwiriadau dirybudd yn rheolaidd** i sicrhau:

- Bod y cofnodion yn adalwadwy a hygyrch, ac yn cynnwys, pan fo'n briodol, cyfleuster i edrych ar gofnodion digidol neu wedi'u digideiddio, trwy ddefnyddio cyfarpar TGCh; a
- Bod y cofnodion yn gyflawn; yn strwythuredig ac mewn trefn dda; mewn cyflwr da; ac mewn fformat derbyniol sy'n bodloni ein gofynion.

Dylai'r buddiolwr gadw cofnod o'r gwiriadau dirybudd rheolaidd hyn a gyflawnir ar ei sefydliadau partner, gan gynnwys manylion am unrhyw gamau adferol a gymerwyd pan oedd canlyniadau'r gwiriadau yn anfoddhaol.

Os yw'r buddiolwr arweiniol o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, dylai ystyried ei gwneud yn ofynnol i gyd-fuddiolwyr drosglwyddo dogfennau gwreiddiol ar yr un pryd ag y byddant yn cyflwyno eu hanfonebau neu eu datganiadau gwariant. Yn yr un modd, os daw i sylw'r buddiolwr, neu os yw'n amau, bod cyd-fuddiolwr ar fin rhoi'r gorau i fasnachu (cau, diddymu, dirwyn i ben ac ati), neu fod digwyddiad arall yn yr arfaeth a fyddai'n amharu ar y gallu i gydymffurfio â'r holl ofynion cadw cofnodion, mae'n rhaid iddo drefnu i'r cofnodion gael eu trosglwyddo a'u cadw ar safle'r buddiolwr arweiniol ei hunan.

Atgoffir y buddiolwr y bydd absenoldeb trywydd archwilio digonol, neu anallu i gael mynediad i gofnodion yn ystod archwiliadau a dilysiadau, yn arwain at ddatgan y gwariant cysylltiedig yn anghymwys, gan achosi gostyngiad cyfatebol yn y cyfraniad ERDF. Os bydd y grant ERDF eisoes wedi ei dalu i'r buddiolwr, bydd yn rhaid ei ad-dalu i ni. Bydd hyn yn digwydd, pa un ai gweithredoedd y buddiolwr ei hunan neu weithredoedd partner/ darparwr a achosodd y broblem. Mae'n bwysig iawn, felly,

bod y buddiolwr, o’r dechrau, yn egluro’r gofynion ac yn dod i ddealltwriaeth eglur gyda’i bartneriaid ynglŷn â’r gofynion.

Yn olaf, fel y pennir yn y cytundeb cyllid grant, mae’n rhaid ichi, trwy gydol yr amser, gadw a diweddaru rhestr gyfoes o leoliadau yr holl gofnodion prosiect.

Gweler **Atodiad C** am ragor o wybodaeth ynghylch trywyddau archwilio.

# RHAN 3: COSTAU CYMWYS

## 6. CEFNDIR: Dulliau o gyfrifo a datgan costau cymwys

Pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid, byddwn yn gweithio gyda chi i ganfod yr opsiynau ar gyfer rhagweld, cyfrifo ac adrodd am eich costau cymwys. Penderfynir swm y grant UE y byddwn yn ei dalu i chi gan y costau cymwys y byddwch yn eu datgan wrthym ni. Yr opsiynau yw:

| | |
|---|---|
| costau real | 'Gweler **Adran 7**. Cyfrifir y costau cymwys trwy gyfeirio at y costau a dynnwyd ac a dalwyd gennych chi, ynghyd â chyfraniadau mewn cynnyrch gan drydydd partïon pan fo'n briodol, a chostau dibrisiant. |
| cyfraddau safonol | 'Gweler **Adran 16**. Gan ddefnyddio'r dull 'costau symlach', cyfrifir y costau cymwys fel canran safonol o gategorïau penodol o gostau eraill. Er enghraifft, costau anuniongyrchol a gyfrifir fel canran o'ch costau staff. |
| cost unedol neu gyfandaliad | 'Gweler **Adran 16**. Gan ddefnyddio'r dull 'costau symlach', cyfrifir y costau cymwys naill ai ar sail gwneud gweithgareddau y cytunwyd arnynt neu trwy sicrhau allbynnau/ canlyniadau a gytunwyd. |
| cyfuniad | Cyfuniadau o'r dulliau uchod o fewn yr un gweithrediad: ad-delir rhai categorïau o gostau – neu weithgareddau/ prosiectau cyfan – gan ddefnyddio 'costau symlach ac eraill gan ddefnyddio 'costau real'. |

Mewn prosiectau penodol, neu ar gyfer categorïau penodol o gostau, mae'n bosibl na fydd pob un o'r opsiynau hyn ar gael – gweler **Adran 16.**

## 7. Costau real

### 7.1 Diffiniad o 'costau real'

Costau a dynnir ac a delir mewn gwirionedd gan fuddiolwyr ac a ddatgenir fel costau cymwys yn eich hawliad am daliad gennym ni.

Yn ychwanegol at gostau a dynnir ac a delir gennych chi, mae 'costau real' yn gynnwys hefyd:

- Cyfraniadau mewn cynnyrch gan drydydd partïon – gweler Adran 14.
- Costau dibrisiant – gweler Adran 12. Ar gyfer pob cost unigol a hawlir, mae'n rhaid cael tystiolaeth bod y symiau eisoes wedi eu talu gennych chi, ynghyd ag anfonebau a dderbynebwyd, neu ddogfennau cyfwerth, sy'n profi realiti'r costau a ddatgenir.

**7.2 RHEOLAU**

11. Mae'n rhaid i gostau real fod yn adnabyddadwy, dilysadwy ac wedi eu cynnwys yn eich cofnodion cyfrifyddu gan ddefnyddio eich dulliau cyfrifyddu arferol a'r safonau cyfrifyddu cenedlaethol cymwysadwy. Mewn geiriau eraill, rhaid ichi beidio â newid eich polisïau a'ch dulliau cyfrifyddu costau arferol, dim ond oherwydd bod eich prosiect yn cael ei gyllido yn rhannol gan arian UE.
12. Mae'n rhaid ichi beidio â chyflwyno eich hawliad i ni oni fydd y costau eisoes wedi eu tynnu a'u talu (ac eithrio hawliadau am gostau dibrisiant a chyfraniadau mewn cynnyrch, gan na fydd y symiau hynny mewn gwirionedd yn cael eu talu gennych chi).

## 7.3 CANLLAWIAU

### 7.3.1 Diffiniad o gostau 'a dynnir'

Costau y mae buddiolwr yn atebol i'w talu, h.y. o dan <u>rwymedigaeth gontractiol neu gyfreithiol, neu rwymedigaeth gyffelyb, i wneud taliad</u>. Nid y dyddiad anfonebu, o anghenraid, yw'r dyddiad y 'tynnir' y gost, oherwydd gellir anfonebu cyn neu ar ôl y dyddiad 'tynnu'. Ni chaiff taliadau o anfonebau, a godir cyn bo'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi eu cael neu'u cyflenwi, eu hystyried yn daliadau o gostau a 'dynnwyd ac a dalwyd', ac eithrio yn yr amgylchiadau a nodir yn 7.3.4.

Rhaid i gostau cymwys fod yn rhai a dynnwyd mewn gwirionedd gan fuddiolwr a gymeradwywyd gennym ni – nid gan drydydd parti, hyd yn oed pan fo'r buddiolwr yn cael budd o'r pryniannau dan sylw.

Mae taliadau o anfonebau, sy'n deillio o gontractau a osodir gan fuddiolwyr, yn 'gostau a dynnir gan y buddiolwr' hyd yn oed os defnyddir darparwr gwasanaeth caffael allanol, neu gorff prynu canolog, i ymgymryd â'r gweithdrefnau caffael (gan mai'r buddiolwr, er hynny yw'r endid cyfreithiol sy'n atebol o dan gontract i dalu i'r contractwr).

### 7.3.2 Diffiniad o gostau 'taledig'

Ystyr 'taledig' yw alldaledig gan y buddiolwr a dynnodd y gost, hynny yw, fod arian wedi ei ddebydu o gyfrif banc y buddiolwr a'i drosglwyddo i'r contractwr, cyflogai, y sefydliad a delir ac ati.

Weithiau, bydd eich prosiect yn gwneud taliad neu drosglwyddiad mewnol i ran arall o'ch sefydliad, naill ai fel cofnod tybiannol/ cyfrifyddol (megis cofnod 'llyfr' rhwng gwahanol benawdau cost) neu fel trafodiad talu 'cost wirioneddol' rhwng gwahanol gyfrifon banc, a ategir gan anfoneb fewnol. Gall y taliadau hyn fod yn seiliedig naill ai ar: gyfraddau 'codi tâl' safonol a gytunwyd o fewn y sefydliad; neu ail-godiadau o'r gwir gostau; neu sail 'fasnachu' hyd-braich (sef y gost plws elfen o elw). Ar wahân i un eithriad ar gyfer cyfraniadau pensiwn (gweler y paragraff nesaf), ni fyddwn yn cydnabod y trafodiadau mewnol hyn fel rhai a 'dalwyd', ac eithrio pan fo'r arian yn gadael cyfrif(on) banc y sefydliad ac yn cael ei drosglwyddo i'r contractwr/ darparwr gwasanaeth allanol neu i gyflogai – nid pan symudir arian rhwng gwahanol rannau, neu wahanol gyfrifon banc, yn yr un sefydliad.

Pan drosglwyddir cyfraniadau pensiwn cymwys, a wneir gan y cyflogwr, i ymddiriedolwyr/ cynlluniau pensiwn/ cronfeydd pensiwn neilltuedig a weinyddir gan yr un sefydliad (sef y buddiolwr), ni fydd y costau cymwys, yn dechnegol, wedi eu 'talu allan' i sefydliad arall. Yn yr amgylchiadau hyn, bodlonir y rheol 'talwyd' pan drosglwyddir yr arian i gyfrif mewnol y cynllun/ cronfa bensiwn. Bydd yn rhaid i'r cyfraniadau pensiwn a delir fod yn ddilysadwy o dan reolau'r cynllun pensiwn a/neu gontractau'r cyflogeion.

Nid ystyrir bod trosglwyddiadau o arian rhwng buddiolwyr (trosglwyddiad o arian oddi ar fuddiolwr arweiniol i gyd-fuddiolwr, neu oddi ar un cyd-fuddiolwr i gyd-fuddiolwr arall) yn 'daledig' hyd nes bo'r taliadau wedi eu halldalu i drydydd parti, e.e. cyflenwyr, contractwyr, neu gostau cyflogi wedi eu talu i gyflogeion.

Bydd costau real yn 'daledig' pan fydd y broses o dalu wedi ei chwblhau, sef yn benodol:

| Dull o dalu | Pa bryd yr ystyrir yn 'daledig'? |
|---|---|
| Taliadau electronig/awtomatig:<br>Debydau uniongyrchol<br>Archebion sefydlog<br>BACS<br>CHAPS<br>Trosglwyddiadau arian | Pan gofnodir trafodiad debyd yng nghyfrif banc y buddiolwr |
| Siec | Pan gofnodir trafodiad debyd yng nghyfrif banc y buddiolwr |
| Cerdyn debyd | Pan gofnodir trafodiad debyd yng nghyfrif banc y buddiolwr |

| | |
|---|---|
| Cerdyn credyd neu gerdyn talu (cerdyn credyd neu gerdyn talu'r gorfforaeth neu'r sefydliad – nid cardiau personol aelodau o'r staff). | Pan gofnodir y trafodiad yn y cyfrif cerdyn credyd (ni waeth pryd y telir y balans ar y cerdyn credyd) |
| Arian (arian parod) | Pan fo'r derbynnydd yn cael yr arian ac yn llofnodi/ dyroddi derbynneb. |
| Talebau a thocynnau | Pan fydd y buddiolwr yn talu am y daleb neu'r tocyn, nid pan caiff ei ddefnyddio gan y derbynnydd. |

### 7.3.3 Diffiniad o gostau ‘adnabyddadwy a dilysadwy’

Rhaid ichi roi cyfrif am y costau real, naill ai trwy ddefnyddio cyfrifon banc ar wahân a weithredir at y diben hwnnw yn unig, neu trwy ddefnyddio codau cyfrifyddu unigryw i gysylltu'r trafodiadau â’r prosiect UE.

Bydd angen ichi ddarparu rhestr i ni o’r taliadau a’r derbyniadau unigol ym mhob cyfnod hawlio, a dylai fod modd cysoni’r rhestr honno â’r symiau a ddatgenir yn eich hawliad tâl.

Dylai’r rhestr hon o’r trafodiadau costau a derbyniadau gael ei chynhyrchu yn uniongyrchol gan eich system gyfrifyddu neu, os cynhyrchir y rhestr â llaw, dylai fod modd ei chysoni â’ch cofnodion cyfrifyddu.

Rhaid i bob buddiolwr – y buddiolwr arweiniol a chyd-fuddiolwyr – gydymffurfio â’r gofyniad hwn o ran eu gwariant cymwys.

### 7.3.4 Talu am nwyddau neu wasanaethau ymlaen llaw

Os yw’n **ofynnol** i chi dalu am nwyddau neu wasanaethau ymlaen llaw, gan gynnwys talu unrhyw flaendaliadau, caniateir ichi gynnwys y costau hynny yn eich hawliad atom ni fel costau ‘taledig’, ond dim ond:

- pan fo’r telerau hynny yn delerau busnes arferol y cyflenwr neu’r contractwr, ac ar gais y cyflenwr neu’r contractwr; ac
- yn fodd o sicrhau’r pris gorau neu ddisgownt sylweddol (er enghraifft, tocynnau teithio a llety); neu
- er mwyn sicrhau’r ansawdd gorau (e.e. archebu yn gynnar i sicrhau’r gyrchfan orau ar gyfer digwyddiad sy’n hanfodol i lwyddiant y prosiect).

Rhaid ichi beidio â chynnig y trefniant hwn o’ch gwirfodd i gyflenwyr, na chamddefnyddio’r rheol i gyflymu eich mynediad at arian UE. Os digwydd ichi, yn ddiweddarach, fethu â defnyddio’r nwyddau neu wasanaethau oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i’ch rheolaeth (er enghraifft, canslo taith neu ddigwyddiad, tywydd garw ac ati), mae’n rhaid ichi ddogfennu’r amgylchiadau yn llawn yn eich cofnodion prosiect, fel rhan o’r trywydd archwilio.

Rhaid ichi hefyd sicrhau y cyflenwir y nwyddau, neu y cyflawnir y gwasanaethau cyn i’ch prosiect ddod i ben. Os na chyflawnir y contract, bydd yn rhaid ichi ofyn am ad-daliad a lleihau eich gwariant prosiect cymwys yn unol â hynny, er mwyn peidio â hawlio’r grant UE.

### 7.3.5 Dargadwadau, symiau digwyddiadol, cyfrifon ysgrow a bondiau talu.

Ystyrir bod taliadau ar gyfer symiau digwyddiadol, a ddefnyddir yn gyffredin mewn contractau adeiladu, wedi eu tynnu a’u gwneud ar yr adeg y byddwch yn talu i’r contractwr, pan fo hynny’n ofynnol fel rhan o’i delerau ac amodau contract safonol.

Fodd bynnag, cyfyngir symiau digwyddiadol i 10% o gyfanswm costau cymwys y gweithrediad (a gyfrifir heb gynnwys y symiau digwyddiadol).

Yn ychwanegol, mae’n rhaid ichi sicrhau y rhyddheir neu y dychwelir yr arian, neu y’i disodlir gan gostau real yn unol â thelerau’r contract, a hynny, fan hwyraf, cyn dyddiad terfynu’r prosiect. Mewn achosion pan fo cyfiawnhad priodol, mae’n bosibl y gallwn estyn y cyfnod hwn y tu hwnt i’r dyddiad terfynu a hyd at 31 Rhagfyr 2023, yn ddarostyngedig i drefniadau monitro addas. Bydd arian a ddelir o hyd gan gontractwr fel swm digwyddiadol ar ôl 2023 yn anghymwys ar gyfer cymorth, a bydd angen ichi ei ddileu o’ch costau cymwys datganedig.

Gweithredir yn yr un modd pan yw’n ofynnol eich bod yn adneuo arian mewn cyfrif ysgrow, neu fath cyffelyb o fond talu a ddelir yng nghyfrif banc trydydd parti, hyd nes cyflawnir telerau contract. Mae’r rheolau hyn ond yn gymwys pan fo trefniadau o’r fath yn arferol, neu’n delerau busnes safonol ar gyfer y mathau o waith, cyflenwadau neu wasanaethau sydd dan sylw.  Nid ystyrir bod y costau’n ‘daledig’ pan fo trefniadau o’r fath wedi eu hysgogi gan fuddiolwr er mwyn osgoi’r rheol gymhwystra ‘talu allan’ arferol.

Os byddwch yn cadw yn ôl ran o’r taliad sy’n ddyledus i gontractwr, hyd nes bo’r holl waith wedi ei gwblhau’n foddhaol, dylech roi gwybod i ni, fel bod eich proffil talu yn adlewyrchu hynny. Sylwch y bydd yn rhaid gwneud y taliad terfynol i’r contractwr neu’r darparwr gwasanaeth cyn 31 Rhagfyr 2023, er mwyn i’r taliad fod yn gymwys.

### 7.4 GWERTH AM ARIAN A RHEOLAETH ARIANNOL GADARN

**RHEOLAU**

13. Mae’n rhaid i gostau real fod yn rhesymol a chyfiawnadwy ac amlygu gwerth am arian.

14. Mae’n rhaid i gostau real fod yn angenrheidiol ar gyfer rheoli a chyflawni eich prosiect yn y modd a ddisgrifiwyd yn y cais am gyllid a gymeradwywyd gennym ni.

15. Y rheol ‘gyllido dwbl’: mae’n rhaid ichi sicrhau mai **unwaith yn unig** y byddwch yn cyflwyno eitem o wariant (h.y. eitem gost benodol) ar gyfer ad-daliad, ac mae’n rhaid ichi beidio â chyflwyno eitem o wariant i wahanol ffynonellau cyllid UE ar wahân, i gael cymorth ariannol o fwy nag un ffynhonnell ar gyfer yr eitem honno.

## 7.5 CANLLAWIAU

### 7.5.1 Gwerth am arian

Mae egwyddor ‘darbodaeth’ yn ei gwneud yn ofynnol i adnoddau fod ar gael ar yr adeg briodol, mewn meintiau ac o ansawdd priodol, am y pris gorau.

Mae egwyddor ‘effeithlonrwydd’ yn ymwneud â’r berthynas orau bosibl rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a’r canlyniadau a sicrheir.

Mae egwyddor ‘effeithiolrwydd’ yn ymwneud â chyflawni’r amcanion penodol a bennwyd a sicrhau’r canlyniadau a fwriadwyd.

Mae’n dilyn, felly, na fydd gwariant sy’n ddiangen, nas cymeradwywyd, neu sy’n ormodol neu’n ddi-hid yn cael cymorth o’r Cronfeydd UE.

### 7.5.2 Cael gwerth am arian o bryniannau gwerth-isel cylchol o’r un math neu fath tebyg o nwyddau neu wasanaethau.

Gellir ystyried bod costau yn ormodol, ac felly yn anghymwys, os oes tystiolaeth eich bod yn talu cyfraddau am gyflenwadau nwyddau a gwasanaethau sy’n sylweddol uwch na chyfraddau cyffredin y farchnad ar y pryd.

Hyd yn oed pan nad yw’n rheolau prynu/caffael ni, neu eich rheolau chi (gweler Adran 25.3) yn ei gwneud yn ofynnol i gael mwy nag un dyfynbris, disgwylir ichi wneud ymdrech resymol i gymharu prisiau, neu gynnal ymarferiadau meincnodi ar gyfer y nwyddau a’r gwasanaethau y byddwch yn eu prynu yn gylchol. Ni fydd hyn yn ofynnol mewn perthynas â chostau staff, neu pan ragwelir y bydd gwerth cyfanredol y pryniant cylchol yn llai na £1,000 (ar gyfer prosiectau Cymru) neu €1,350 (ar gyfer prosiectau Iwerddon) dros oes gyfan y prosiect.

Pan fo buddiolwr yn ymwneud â mwy nag un gweithrediad a ariannir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, dylid cynnal y cymariaethau prisiau/ asesiadau meincnodi ar draws yr holl weithrediadau cyfatebol os prynir nwyddau neu wasanaethau o’r un math neu o fathau tebyg.

Rhaid ichi gadw tystiolaeth o’r cymariaethau prisiau hyn ar gyfer dilysiadau ac archwiliadau yn y dyfodol, gan gynnwys, pan fo’n briodol, cofnodi eich cyfiawnhad dros beidio â gofyn am brisiau cymharol (priodoldeb defnyddio un cyflenwr, darpariaeth bwrpasol/ arbenigol ac ati).

Diben y rheolaeth hon yw sicrhau gwerth am arian, trwy ddangos nad yw buddiolwyr yn talu prisiau uwch na’r ystod prisiau a dderbynnir yn gyffredinol am nwyddau a gwasanaethau cyffelyb. Nid yw’n golygu bod yn rhaid dewis y nwyddau neu’r gwasanaethau ‘rhataf’ bob amser – un elfen yn unig yw’r pris, yn yr ystyriaethau gwerth am arian.

### 7.5.3 Y rheol 'cyllido dwbl'

Er bod y rheol uchod yn amlwg yn gwahardd cyllido'r un eitem o gost ddwywaith, gelir caniatáu ichi ddosrannu eitem o wariant rhwng mwy nag un prosiect UE neu gronfa UE, ond bydd yn rhaid ichi gytuno ar ddull o ddosrannu'r gost. Er enghraifft, dosrannu costau marchnata a rennir pan fo eich prosiect neu'ch grŵp o brosiectau chi yn derbyn cymorth gan fwy nag un cronfa UE.

Os byddwch, ar yr un pryd, yn cyflawni mwy nag un gweithrediad/prosiect a gyllidir gan yr UE mae'n rhaid ichi fod wedi sefydlu mecanweithiau i ddangos mai unwaith yn unig y datgenir eitemau gwariant ar gyfer eu had-dalu, ac nad yw'r cyfanswm a hawlir ar gyfer unrhyw gost yn fwy na 100%.

### 7.5.4 Defnyddio'r cyfleusterau, asedau ac offer arall sydd gan y buddiolwr eisoes

Rydym yn disgwyl ichi ddefnyddio unrhyw lety, asedau neu gyfarpar sydd gennych eisoes, nas defnyddir at ddiben arall ac sydd ar gael, os ydynt yn addas at ddibenion y prosiect, yn hytrach na phrynu eitemau newydd neu rentu llety.

Os gwnewch hynny, gallwch hawlio'r costau cynnal ac atgyweirio, a chost deunyddiau traul ac ati sy'n deillio o ddefnyddio'r cyfleusterau a'r cyfarpar hynny ar gyfer y prosiect.

## 7.6 DYDDIADAU CYMHWYSTRA

**RHEOLAU**

16. Mae'n rhaid i gostau real gael eu tynnu **a'u** talu ar neu ar ôl 1 Ionawr 2014 ac heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2023.

17. Cadarnheir eich dyddiad cychwyn cymhwystra yn eich cytundeb cyllid grant; y dyddiad hwnnw fel rheol fydd y dyddiad y byddwn yn cymeradwyo eich prosiect. Gallwn ystyried cymeradwyo costau a dynnir neu a delir cyn y dyddiad hwnnw mewn achosion unigol, ond nid cyn 1 Ionawr 2014, (gweler 'ôl-gymeradwyo' isod); ond dylech nodi nad yw costau ynglŷn â pharatoi cynigion prosiect a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cyllid UE yn gymwys i gael cymorth UE.

18. Mae'n rhaid i gostau gael eu tynnu a'u talu yn ystod cyfnod cyflawni eich gweithrediad. Os ydych chi'n prynu unrhyw nwyddau / gwasanaethau yn ystod y cyfnod gweithredu sydd i'w defnyddio unwaith y bydd y gweithrediad wedi cau, ni ellir ad-dalu'r rhain gan gronfeydd yr UE a byddant yn cael eu hystyried yn anghymwys. Mae Dyddiad Cwblhau Ariannol y gweithrediad yn nodi'r dyddiad olaf lle gellir tynnu a thalu costau. Mae dau eithriad y gallwn eu derbyn – wedi'u hamlinellu isod:

- Costau Yswiriant Gwladol (NI), treth a phensiwn – sy'n gysylltiedig â thaliadau cyflog staff. Os nad yw'n bosib i chi dalu'r costau hyn o fewn yr un mis â'r costau cyflog cysylltiedig. Dim ond yn berthnasol i gostau cyflog sy'n cael eu talu o fewn oes ariannol y cytunwyd arno ar gyfer eich gweithrediad.
- Costau gwerthuso terfynol – os / pan fyddwch yn profi oedi yn eich gwerthusiad terfynol, gyda'r dyddiad talu ar gyfer y gost hon yn digwydd y tu hwnt i ddyddiad cau eich gweithrediad. Bydd angen i chi ofyn am gytundeb gennym er mwyn hawlio'r gost fel rhan o'ch hawliad terfynol. Gweler canllawiau WEFO o'r enw, 'Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020: Cwestiynau Cyffredin ar Derfynu Prosiectau', am ragor o fanylion.

19. Os digwydd i ni, ar y cyd â'r CE, ddiwygio'r rhaglen Gydweithredu trwy ychwanegu gweithgareddau newydd y caniateir eu cynorthwyo am y tro cyntaf, bydd unrhyw gostau a ddaw'n gymwys wedyn oherwydd y newid dim ond yn gymwys o'r dyddiad y byddwn yn cyflwyno ein rhaglen ddiwygiedig i'r CE ar gyfer ei chymeradwyo. Byddwn yn cadarnhau'r dyddiad hwnnw yn y cytundeb cyllid grant.

### 7.7 CANLLAWIAU

Mae costau a dynnir cyn 2014 yn anghymwys am gymorth hyd yn oed os telir hwy yn ystod blynyddoedd dilynol.

#### 7.7.1 Ôl-gymeradwyo gweithrediadau

Gallwn ystyried cymeradwyo cyllid ar gyfer eich gweithrediad hyd yn oed os yw eisoes wedi cychwyn a chostau wedi eu tynnu a'u talu. Fodd bynnag, ni allwn ddyfarnu cyllid ichi os bydd eich gweithrediad, ar yr adeg y gwnewch gais i ni, wedi **ei gyflawni yn llwyr/ ei gwblhau yn llwyr**, pa un a fyddwch wedi gwneud yr holl daliadau cysylltiedig ai peidio.

Gellir ystyried gweithrediadau ar gyfer eu hôl-gymeradwyo mor bell yn ôl ag **1 Ionawr 2014**.

Ni fyddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd hwn oni allwch chi ddangos bod y gweithrediad **wedi cydymffurfio â'r holl reolau ac amodau** a bennir yn eich cytundeb cyllido, er enghraifft: codau cyfrifyddu ar wahân ar gyfer trafodiadau ariannol; cydymffurfiaeth â'r rheolau cymhwystra costau cymwysadwy; trywyddau archwilio digonol; cydymffurfiaeth lawn â'r rheolau Caffael Cyhoeddus a Chymorth Gwladwriaethol.

Am y rhesymau hyn, cyn y byddwn ni wedi cymeradwyo eich gweithrediad, bydd unrhyw weithgareddau y byddwch yn rhan ohonynt neu unrhyw gostau a dynnir gennych ar eich risg eich hunan.

## 8. Costau staff (costau uniongyrchol)

### 8.1 RHEOLAU

20. Mae'n rhaid i gostau staff uniongyrchol fod yn ymwneud â rheoli, gweinyddu neu gyflenwi eich prosiect.

21. Nid yw costau uniongyrchol staff mewn gweinyddiaethau cyhoeddus sy'n ymgymryd â gweithgareddau i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u swyddogaethau statudol craidd yn gymwys ar gyfer cymorth ERDF.

22. Mae costau staff uniongyrchol yn gymwys dim ond i'r graddau y maent yn ymwneud â gweithgareddau na fyddech yn eu cyflawni pe na fyddech yn ymgymryd â'r prosiect.

23. Mae'n rhaid talu cydnabyddiaeth i'r staff yn unol â'ch telerau ac amodau sefydledig o ran cyflogau, graddau a materion adnoddau dynol. Os ydych yn sefydliad a grëwyd o'r newydd, er enghraifft at yr unig ddiben o gyflawni'r prosiect yr UE, mae'n rhaid ichi ddilyn yr egwyddor o werth am arian wrth bennu cyfraddau tâl, gan dalu dim mwy na chyfraddau rhesymol y farchnad sy'n ddigon i ddenu ymgeiswyr gyda'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer tasgau'r prosiect UE. Ym mhob achos, ni ddylai'r gydnabyddiaeth a delir i staff fod yn sylweddol uwch na chyfraddau cyffredin y farchnad ar gyfer y math o waith a wneir.

24. Gall eich costau gynnwys y costau cyflogi gros: sef cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwyr (gan gynnwys yr ardoll iechyd a gofal cymdeithasol, fel a nodir yn adran 8.2 – ond yn gymwys i fuddiolwyr/partneriaid yng Nghymru), cyfraniadau pensiwn y cyflogwyr, dyfarniadau cyflog anghyfunol, ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r taliadau cyflog yn unol â pholisïau cyflogaeth arferol y cyflogwyr sy'n parchu'r egwyddor o drin yr holl bersonél yn gyfartal. Buddiolwyr arweiniol/ cyd-fuddiolwyr o Gymru – lle mae eich sefydliad yn gymwys i hawlio Lwfans Cyflogaeth rhaid ichi roi cyfrif am hyn mewn unrhyw hawliad a gyflwynwch i WEFO i dderbyn cymorth gan y gronfa strwythurol. Bydd rhaid ichi hefyd feddu ar fecanwaith cadarn ar gyfer cofnodi swm y lwfans cyflogaeth a dderbyniwyd er mwyn dangos na ragorir ar y trothwy de minimis o €200,000 dros dair blynedd ariannol. Ni fydd WEFO yn cyfrannu tuag at unrhyw swm a dderbynnir fel Lwfans Cyflogaeth.

25. Mae costau hyfforddi a datblygu staff y prosiect yn gymwys os yw hynny'n addas a chyfiawnadwy fel rhywbeth angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r prosiect yn effeithiol ac effeithlon. Caiff staff y prosiect gymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu a datblygu corfforaethol – a cheir trin yr amser a dreulir felly fel amser prosiect cymwys – os yw'n weithgarwch gorfodol ar gyfer yr holl gyflogeion neu'n gysylltiedig â chynllun cyflawniad/ datblygiad yr unigolyn.

26.Mae costau darparu buddion trethadwy i gyflogeion, fel rhan o delerau ac amodau contractiol cyffredinol safonol y cyflogwr, hefyd yn gymwys. Enghreifftiau o hyn yw costau gofal plant, cyfleusterau crèche, talebau cinio, a thaliadau bonws 'staff cyfan' (ond nid taliadau bonws sy'n ddi-dreth neu'n berthynol i berfformiad).

27. Yn yr un modd, os ydynt yn gyson â pholisi cyffredinol y cyflogwr neu'n rhan ysgrifenedig o gontract cyflogaeth neu benderfyniad penodi, mae'r canlynol hefyd yn gymwys: tâl salwch (ond dim ond symiau na ellir eu hadennill oddi ar Lywodraeth Ganol), taliadau mamolaeth a thadolaeth (gan gynnwys absenoldeb mabwysiadu taledig), buddion cyn-ymddeol a budd-daliadau teuluol eraill.

28. Mae costau staff cyfnewid – i gymryd lle cyflogai sydd i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu oherwydd salwch hirdymor – yn gymwys. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ystyried gofyn i ni am gynnydd yn eich cyllideb costau staff, ar gyfer talu'r staff cyfnewid yn ogystal â'r cyflogai sy'n absennol dros dro.

29. Mae taliadau goramser yn gymwys os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect. Pan fo hawl gan gyflogai i gymryd amser i ffwrdd, yn lle neu'n ychwanegol at daliadau goramser, gellir ystyried bod yr amser pan nad yw'n gweithio ar y prosiect (pan fo'n cymryd yr amser amgen i ffwrdd) hefyd yn amser prosiect cymwys.

30. Mae costau 'staff allanol' – sef unigolion (ond nid contractau gyda chwmnïau, a ddosberthir fel 'arbenigedd a gwasanaethau allanol') a gaiff eu contractio'n uniongyrchol gan y buddiolwr i weithio dros dro ar y prosiect – yn gymwys yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

> bod y person yn gweithio o dan gyfarwyddyd y buddiolwr ac, oni fydd y buddiolwr yn cydsynio fel arall, ar safle’r buddiolwr.

> bod allbynnau’r gwaith a gyflawnir yn eiddo i’r buddiolwr/ yn cronni er budd y prosiect UE.

> nad yw’r costau yn sylweddol wahanol i gostau’r staff sy’n cyflawni tasgau cyffelyb ac a gyflogir gan y buddiolwr (os cyflawnir tasgau o’r fath gan y buddiolwr).

## 8.2 CANLLAWIAU

Costau staff a neilltuir i reoli neu gyflawni'r gweithgareddau a gynorthwyir gan ERDF, gan gynnwys rheolaeth gyffredinol y prosiect, gweithredu rheolaethau a gweinyddu.

Gallai'r unigolion hyn fod yn:

- 'Staff mewnol':
  - a gyflogir gan fuddiolwr (y cyflogwr);
  - a secondiwyd i mewn o sefydliad arall (o dan gontract gyda'u cyflogwr cartref ond yn gweithio i'r buddiolwr, sef y cyflogwr lletyol);

- 'Staff allanol':
  - gweithwyr asiantaeth/ staff achlysurol (yr asiant sy'n talu i'r gweithiwr, y buddiolwr sy'n talu i'r asiant); neu yn
  - gostau sy'n deilio o gontract uniongyrchol rhwng unigolyn – ond nid cwmni – a'r buddiolwr, pan nad yw'r contract yn gontract gyflogaeth e.e. contract gyda masnachwyr hunangyflogedig, contractwyr annibynnol, ymgynghorwyr annibynnol, gweithwyr llawrydd/ 'tameidiog'/ portffolio. Mae'r diffiniad hwn, felly, yn cynnwys cydnabyddiaeth a delir i bobl yn gyfnewid am waith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithrediad / prosiect; ond mae contractau gyda chwmnïau 'un-person' yn 'arbenigedd a gwasanaethau allanol' ac nid yn 'staff allanol'.

Mae costau staff allanol a gontractir trwy **asiantaethau cyflogi** yn gymwys ar gyfer cymorth o'r cronfeydd strwythurol. Bydd angen i'r trywydd archwilio gynnwys dogfennau sy'n dangos y symiau a dalwyd i'r gweithiwr o'r asiantaeth, gan gynnwys unrhyw gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn. Mae comisiynau a ffioedd yr asiantaeth hefyd yn gostau cymwys; fodd bynnag, nid ydynt yn gynwysedig yn y diffiniad o gostau staff, ac felly mae'n rhaid eu hepgor wrth gyfrifo costau anuniongyrchol y gweithrediad gan ddefnyddio'r gyfradd safonol o 15% o dan yr opsiwn cost symlach.
Os yw'r asiantaeth yn anfodlon neu'n analluog i ddarparu'r dogfennau ategol gofynnol, sy'n rhoi dadansoddiad o'r comisiynau, y ffioedd a'r symiau a delir i'r gweithiwr, ni fydd modd cynnwys y costau staff cysylltiedig yn y cyfrifiad o gostau anuniongyrchol y gweithrediad.

Ar gyfer yr holl gostau ac eithrio costau cyflogau/ tâl, mae'r amodau cymhwystra canlynol yn gymwys:

- Rhaid i'r gost gael ei thynnu a'i thalu gan y cyflogwr;
- Rhaid i rwymedigaeth y cyflogwr i wneud y taliad neu ddarparu'r budd-dal fod wedi ei phennu neu ei sefydlu yn y ddogfen gyflogi (contract cyflogaeth, penderfyniad penodi neu ddogfen gyffelyb) NEU fod yn ofynnol trwy gyfraith;
- Nid yw costau y gall cyflogwr eu hadennill oddi ar awdurdodau treth/ llywodraeth, (megis TAW, tâl salwch statudol / tâl mamolaeth ac ati) yn

gymwys ar gyfer cymorth ERDF. Gweithredir y rheol hon hyd yn oed pan fo cyflogwr yn dewis peidio â cheisio ad-daliad gan yr awdurdodau/ llywodraeth.

- Rhaid i'r taliad fod yn unol ag arferion safonol y cyflogwr, yr arferion safonol cenedlaethol a'r ddeddfwriaeth gymwysadwy, fel y cyfeirir atynt yn y ddogfen gyflogi ac yn gysylltiedig â'r wlad lle mae'r aelod o staff yn gweithio mewn gwirionedd;

Mae **bonysau di-dreth neu fuddion anhrethadwy eraill** yn gostau anghymwys, ac felly hefyd unrhyw ddarpariaeth pensiwn neu hawliau diswyddo eithriadol neu anghyffredin, hynny yw, sydd y tu hwnt i reolau safonol y cynllun neu'r gofynion statudol.

Pan fo cyflogwr yn talu **ffioedd aelodaeth a thanysgrifiadau** cyflogai ar gyfer cyrff proffesiynol neu gyffelyb neu grwpiau rhwydweithio, ni fydd y costau hynny yn gymwys oni fydd swyddogaeth y cyflogai yn y prosiect UE yn peri ei bod yn ofynnol i'w deliad feddu ar y cymwysterau dan sylw. Mae'n rhaid darparu tystiolaeth o hynny ar ffurf disgrifiad neu hysbyseb swydd neu ddogfen gyffelyb sy'n cadarnhau bod y cymhwyster yn angenrheidiol er mwyn i ddeiliad y swydd gyflawni'r gwaith ar y prosiect CTE Iwerddon Cymru.

Nid yw **costau teithio a llety**, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithiau busnes, yn gostau staff uniongyrchol at ddibenion y cyfrifiadau cyfradd safonol (costau symlach) a seilir ar y costau staff uniongyrchol.

Nid yw **taliadau i gwmnïau ymgynghori, cwmnïau gwasanaethau proffesiynol** a 'chontractau am wasanaethau' eraill gyda chwmnïau, yn 'gostau staff', hyd yn oed os cyflawnir y gwaith i gyd gan un person –, mae'r rhain, yn hytrach yn 'arbenigedd a gwasanaethau allanol' (gweler **Adran 11**).

Nid yw **gweithwyr prosiect gwirfoddol di-dâl** yn gostau staff uniongyrchol, ac felly ni ellir eu cynnwys wrth gyfrifo'r gyfradd safonol (costau symlach) sy'n seiliedig ar gostau staff uniongyrchol. Rhestrir y cyfraddau tâl fesul awr/ blwyddyn, a gysylltir ag amser gwirfoddolwyr di-dâl ac y gellir eu hawlio gan fuddiolwr, yn Adran 14.2.1.

Yn achos unigolion sy'n derbyn **bwrsariaethau, ysgoloriaethau, lwfansau, stipendia neu gymorth ariannol uniongyrchol cyffelyb**, bydd angen i'r partner/buddiolwr ystyried a yw'r taliadau'n bodloni'r diffiniad o 'Costau Staff' a roddir yn y 'Rheolau' yn Adran 8.1 uchod. Os nad yw'r taliadau'n bodloni'r diffiniad o 'Costau Staff', e.e. pan fo'r unigolyn yn drydydd parti ac nid yn gyflogai'r partner/buddiolwr, neu pan wneir y taliadau i'r myfyriwr/ unigolyn gan sefydliad trydydd parti, megis gan gyngor ymchwil, ac nad ydynt yn daliadau a dynnir ac a delir gan y partner/ buddiolwr, ni ellir eu cynnwys wrth gyfrifo'r gyfradd safonol (costau symlach) sy'n seiliedig ar gostau staff uniongyrchol.

Os yr un sefydliad yw'r partner/buddiolwr a'r brifysgol/ sefydliad addysgol sy'n gwneud y taliadau i'r myfyriwr/ unigolyn, ac y byddai'r sefydliad hwnnw, felly, i bob pwrpas yn talu iddo'i hun, mae'r taliadau'n anghymwys gan nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o daliadau a wnaed gan y partner/ buddiolwr a dynnodd y costau, h.y. arian a ddebydwyd o gyfrif

banc y partner/buddiolwr ac a drosglwyddwyd i’r contractwr, cyflogai neu’r sefydliad a delir. Gweler Adrannau 7.3.1 a 7.3.2 uchod.

Mae costau cysylltiedig â’r ardoll iechyd a gofal cymdeithasol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, yn gost staff uniongyrchol ac felly’n gymwys (yn berthnasol i fuddiolwyr/partneriaid yng Nghymru yn unig).

### 8.2.1 Cofnodi amser

Nid oes gofyniad bod staff sy’n gweithio amser llawn neu nifer sefydlog o oriau ar brosiect UE yn cofnodi eu horiau gwaith ar daflen amser, fel sail ar gyfer cyfiawnhau’r costau. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ddisgrifiad swydd neu gontract cyflogi’r unigolyn, neu ddogfen gyffelyb (e.e. gohebiaeth o’r swyddfa adnoddau dynol) gadarnhau bod ei swyddogaeth yn y prosiect UE yn un amser llawn, boed hynny’n amser llawn neu’n nifer sefydlog o oriau. Gweler Atodiad C i gael manylion am y dogfennau sydd eu hangen ar gyfer archwiliad.

At ddibenion y canllawiau hyn, ystyr ‘amser llawn’ yw’r holl oriau yn wythnos waith gontractiol safonol yr unigolyn. Ystyr ‘rhan-amser’ yw y treulir rhan o amser gwaith contractiol wythnosol yr unigolyn ar weithgareddau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth o’r prosiect UE. Gallai hyn olygu :

- y treulir canran sefydlog o’r amser gwaith contractiol ar y gweithrediad CTE bob mis [nid oes angen taflen amser];
- y treulir nifer hyblyg o oriau gwaith ar y gweithrediad CTE bob mis [mae taflen amser yn ofynnol]
- gweithio fesul awr [mae taflen amser yn ofynnol].

[EU 481/2014, Erthygl 3(1)]

Gellir cyfrifo’r costau staff ar gyfer unigolion sy’n gweithio ganran <u>sefydlog</u> o’u hamser ar y gweithrediad CTE trwy ddefnyddio canran sefydlog o’r costau cyflogi cymwys gros, heb fod angen defnyddio system i gofnodi’r amser a weithiwyd (taflen amser). [EU 481/2014, Erthygl 3(4)a]. Fodd bynnag, mae’n rhaid bod modd dilysu’r ganran sefydlog o’r amser trwy gyfeirio at ddogfennau cyflogi megis disgrifiad swydd, contract cyflogi neu benderfyniad penodi.

Mae costau staff ar gyfer oriau hyblyg / amrywiol (hy nid amser llawn ac nid nifer sefydlog o oriau rheolaidd) yn gymwys os oes system gofnodi amser wedi ei sefydlu, wedi ei chwblhau gan y gweithiwr a’i dilysu gan ei oruchwyliwr neu gan uwch-gydweithiwr arall a all gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth. Mae’n rhaid i’r cofnodion amser gwmpasu 100% o amser gwaith y cyflogai [EU 481/2014, Erthygl 3(4)b].

Rhaid cyfrifo costau staff ar gyfer yr unigolion sydd, yn ôl eu dogfennau cyflogi, yn gweithio fesul awr, trwy luosi’r gyfradd yr awr a bennir yn eu contract cyflogi gyda’r amser a weithiwyd mewn gwirionedd ar y prosiect (fel y tystia’r daflen amser).

Gellir cadw cofnodion amser yn ddyddiol, wythnosol neu’n fisol, a hynny yn electronig/ awtomatig neu ar ‘daflenni amser’ papur (gweler yr enghraifft yn

**TEMPLED 1**). Mae'n rhaid i'r system gofnodi amser ganiatáu adnabod yr union amser a dreuliwyd mewn gwirionedd ar reoli, cyflenwi neu weinyddu'r prosiect UE. At ddibenion dilysu ac archwilio, bydd gofyn i fuddiolwyr ddarparu tystiolaeth o'r oriau a weithiwyd mewn gwirionedd. Lle y bo'n berthnasol, gellid hefyd defnyddio tystiolaeth megis cofnodion gwyliau blynyddol a thaflenni oriau hyblyg.

Wedyn, lluosir yr oriau prosiect cymwys ym mhob cyfnod gwaith gyda chyfradd yr awr a delir i'r staff, a chynhwysir y canlyniad yn eich hawliad tâl.

Cyfrifir y **cyfraddau fesul awr** fel a ganlyn:

| |
|---|
| (Costau staff cymwys blynyddol) ÷ (Oriau cynhyrchiol blynyddol ar delerau contract cyflogi safonol) |

Yn yr 'Oriau cynhyrchiol blynyddol' hepgorir unrhyw amser nas treulir yn gweithio – megis gwyliau blynyddol taledig, gwyliau cyhoeddus taledig, ac unrhyw hawliau absenoldeb taledig eraill a bennir yn y contract cyflogi a/neu ym mholisïau adnoddau dynol y cyflogwr.

Gan fod y cyfrifiad hwn o'r gyfradd fesul awr yn cydnabod yr hawliau gwyliau taledig blynyddol, mae'n rhaid peidio â chynnwys unrhyw oriau cymwys ar y taflenni amser pan fo'r unigolyn i ffwrdd ar ei wyliau taledig.

Isod, ceir dwy **enghraifft** o sut i gyfrifo cyfraddau fesul awr yn flynyddol, neu'n fisol.

Cyfrifiad enghreifftiol – wedi'i gyfrifo yn **FLYNYDDOL**

| Cyfrifiad | Esboniad |
|---|---|
| Costau staff cymwys blynyddol = €28,500 | *cyflog sylfaenol €25,000*<br>*cyfraniad YG y cyflogwr €2,500*<br>*cyfraniad pensiwn y cyflogwr €1,000* |
| Oriau taledig contractiol wythnosol = 40 | *yn ôl y contract* |
| Gwyliau blynyddol cyhoeddus taledig, ac absenoldeb taledig contractiol arall, = 35 | *25 diwrnod o wyliau blynyddol*<br>*10 o wyliau cyhoeddus* |
| Oriau cynhyrchiol blynyddol = 1,800 | *40 awr yr wythnos x 52 wythnos = 2,080 awr*<br>*35 diwrnod o absenoldeb taledig x 8 awr y diwrnod = 280 awr*<br>*oriau cynhyrchiol = 2,080 (taledig) llai 280 (taledig ond nid yn gweithio) = 1,800* |
| Cyfradd yr awr ar gyfer y staff = **€15.83** a hawlir am bob awr a weithir mewn gwirionedd ar y prosiect UE (hawlir dim pan fo'r cyflogai ar wyliau taledig). | *€28,500/1,800* |

Cyfrifiad enghreifftiol – wedi'i gyfrifo yn **FISOL**

| Cyfrifiad | Esboniad |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Costau staff cymwys misol = €2,375 | *Yn unol â'r slip cyflog / adroddiad y gyflogres perthnasol ar gyfer y mis hwnnw hy cyflog gros, cyfraniad Yswiriant Gwladol y cyflogwyr a chyfraniad pensiwn y cyflogwyr* |
| Cyfanswm yr oriau a weithir mewn gwirionedd = 150 | *Cyfanswm yr oriau a weithir mewn gwirionedd (heb gynnwys unrhyw wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd salwch) fel y nodir ar y daflen amser fisol.* |
| Cyfradd yr awr ar gyfer y staff = €15.83 a hawlir am bob awr a weithir mewn gwirionedd ar y prosiect UE (ni hawlir dim pan fo'r cyflogai ar wyliau taledig). | *€2,375/ 150* |

Pa bynnag ddull a ddefnyddir i gyfrifo, rhaid i fuddiolwyr sicrhau na fydd mwy na 100% o'r costau cymwys yn cael eu hawlio dros oes y prosiect. Gall staff dilysu WEFO ofyn am gysoniad ad-hoc os credir bod hynny'n angenrheidiol – er enghraifft, lle bo'r posibilrwydd o gael gwahaniaethau sylweddol.

Os nad yw'r unigolyn yn defnyddio ei hawl i gymryd gwyliau contractiol taledig ac felly'n colli ei hawl i'w cymryd – neu'n gweithio ar y prosiect UE yn ystod cyfnodau o wyliau taledig – gellir dilyn y 'rheolau goramser' mewn perthynas â'r amser hwnnw' (oni fydd yr hawl i wyliau'n cael ei drosglwyddo ymlaen i flynyddoedd dilynol) os caniateir y cyfryw drefniant o dan bolisïau a gweithdrefnau AD y cyflogwr.

Tâl Salwch

Mae tâl salwch yn gost gymwys pan gaiff ei ddatgan yn unol ag adran 8.1, rheol 27. Er mwyn cyfrifo'r costau ar gyfer yr unigolyn sydd yn absennol oherwydd salwch, rhaid defnyddio'r sail ar gyfer nodi'r costau staff ar gyfer y gweithrediad adeg cymeradwyo.

Er enghraifft, gall staff sy'n gweithio nifer sefydlog o oriau hawlio yn unol â nifer yr oriau y cytunwyd arnynt a/neu ganran o amser y mae'r unigolyn wedi bod yn gweithio ar y gweithrediad (fel y cytunir yn ei swydd ddisgrifiad/ llythyr secondiad / contract cyflogaeth).

Lle bo cost uned fesul awr wedi cael ei gytuno (costau symlach), rhaid defnyddio'r gyfradd a nodir yn eich Cytundeb Cyllido.

I staff sy'n gweithio oriau hyblyg / amrywiol, rhaid cadw cyfiawnhad dros y systemau a ddefnyddir i gyfrifo faint o absenoldeb salwch a hawlir, a sicrhau ei fod ar gael os bydd gofyn amdano. Er enghraifft, gallai buddiolwr gynnal dadansoddiad o'r data hanesyddol (o leiaf 3 mis lle y bo'n bosibl) i bennu faint i'w hawlio.

### 8.2.2 Costau hyfforddi staff

Bydd darpariaeth o hyfforddiant allanol taledig i staff y prosiect yn gymwys os yw'n:

- angenrheidiol er mwyn cyflawni'r prosiect mewn modd cydymffurfiol, e.e. yn ofyniad statudol neu reoleiddiol sy'n galluogi staff y prosiect UE i gyflawni gweithgareddau'r prosiect.
- angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw gyfreithiau a rheoliadau cymwysadwy eraill yr UE, y DU neu Iwerddon.

Ni chefnogir cyfnodau sylweddol o amser a dreulir i ffwrdd o'r prosiect ar weithgareddau dysgu a datblygu – e.e. secondiadau, cysgodi gwaith, rhaglenni strwythuredig i ddatblygu rheolwyr – ac mae'n rhaid eu hepgor o'r amser cymwys a hawlir yn erbyn y prosiect. Diffinnir 'sylweddol' fel mwy na 5% o oriau gwaith wythnosol yr unigolyn a fyddai fel arfer yn cael eu hawlio yn erbyn y prosiect CTE. Gellir asesu hyn gan ddefnyddio cyfartaleddau dros gyfnod o fis neu bob chwarter ar y mwyaf (Ion-Maw, Ebr-Meh, Gorff-Medi, Hyd-Rhag).

### 8.2.3 Secondiadau i mewn

Bydd telerau ac amodau cyflogaeth y 'cyflogwr cartref' yn gymwys i'r holl reolau costau staff yn y ddogfen hon, oni fyddwch wedi sefydlu trefniant contractiol i weithredu eich polisïau a'ch telerau tâl eich hun yn ystod cyfnod y secondiad.

### 8.2.4 Absenoldeb taledig eithriadol: ataliad o'r gwaith dros dro; gweithdrefnau disgyblu; absenoldeb o'r gwaith yn ystod ymchwiliadau i'r posibilrwydd o gamweithredu, neu anghydfod ynghylch contract cyflogi; 'absenoldeb garddio'; ac absenoldebau taledig eithriadol eraill cyffelyb

Nid fydd costau staff yn ystod y cyfnodau hyn yn gymwys ar gyfer cymorth, gan eu bod yn cynrychioli amser nas treuliwyd yn gweithio ar y prosiect UE; nid ystyriwn eu bod yn rhan o'r gydnabyddiaeth graidd y bwriada'r telerau ac amodau ei chynnwys yn y 'costau staff'.

### 8.2.5 Cynlluniau dileu swyddi a diswyddo

Byddwn yn ystyried cymhwystra fesul achos unigol, gan gymhwyso'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r staff fod yn gweithio ar y prosiect CTE Iwerddon Cymru ar yr adeg y gwneir y penderfyniad i ddileu swydd neu ddiswyddo.
- Rhaid i'r <u>swydd</u> gael ei dileu. Bydd y costau'n anghymwys os bydd y swydd/ swyddogaeth yn parhau, a bod bwriad i'w llenwi drachefn trwy recriwtio neu drosglwyddo aelod o'r staff presennol.
- Rhaid bod gofyniad statudol neu gontractiol i dalu costau dileu swydd neu ddiswyddo o dan gyfraith cyflogaeth Iwerddon neu'r DU (yn unol â lleoliad y partner prosiect sy'n cyflogi'r unigolyn).
- Rhaid i'r taliadau a wneir i'r aelod o'r staff gydymffurfio â'r darpariaethau/ trothwyon statudol a'r rhwymedigaethau contractiol cyfatebol.
- Mae taliadau ychwanegol/arbennig sy'n ffurfio rhan o becyn dileu swydd, gan gynnwys hawliau dileu swydd neu hawliau pensiwn ychwanegol, a gynigir yn ôl disgresiwn y cyflogwr ac sydd uwchlaw'r gofynion statudol neu gontractiol, yn gostau anghymwys.

- Mae taliadau mewn perthynas â chynlluniau diswyddo gwirfoddol / ymddeol gwirfoddol, pan na ddilëir y swydd, yn anghymwys.
- Cyfrifir y gwariant cymwys ar gostau diswyddo *pro* rata, yn ôl y nifer o flynyddoedd a misoedd o wasanaeth di-dor a dreuliwyd yn gweithio ar brosiectau CTE Iwerddon Cymru (gan gynnwys gwaith mewn cyfnodau rhaglennu blaenorol.
- Cyfrifir y costau ar sail *pro rata* hefyd pan fo'r gweithiwr yn gweithio rhan yn unig o'i oriau wythnosol contractiol ar y prosiect, pa un a fu'r unigolyn yn gweithio ar brosiectau UE ar sail amser llawn ai peidio yn y gorffennol.
- Rhaid i staff sy'n cael eu neilltuo, eu trosglwyddo neu eu dyrchafu, o swyddogaeth arall o fewn y sefydliad i weithio ar brosiect ETC Iwerddon Cymru, weithio ar y prosiect UE am o leiaf 2 flynedd cyn y gellir ystyried bod costau dileu swydd/ diswyddo yn gymwys.

Ystyr y rheolau hyn yw y gallwn gynorthwyo costau cyflogi contractiol arferol y staff sy'n gweithio ar brosiectau CTE Iwerddon Cymru – gan gynnwys costau uniongyrchol cysylltiedig megis cyfraniadau pensiwn ac YG y cyflogwyr – ond bod cymorth ar gyfer dileu swyddi a diswyddo, er yn bosibl, yn fwy cyfyngedig.

Hyd yn oed pan fo costau dileu swyddi/ diswyddo yn gymwys ar gyfer cymorth, ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd llinell gyllideb 'costau staff' ar gael yn awtomatig i'r prosiect cyfatebol, i'w gynorthwyo gyda chostau staff mor annisgwyl (h.y. os na chynhwyswyd y costau eisoes yn y proffil cyllideb pan gymeradwywyd y prosiect)

### 8.2.6 Taliadau disgresiynol i'r staff neu gyn-aelodau o'r staff

Mae'r costau hyn yn anghymwys:

Gall taliadau o'r fath gynnwys: gwell telerau wrth ddileu swyddi/ diswyddo; taliadau anghontractiol i ymadawyr; costau tribiwnlys cyflogaeth; digolledu am golli swydd; costau ymchwilio, amddiffyn neu setlo mewn perthynas ag anghydfodau cyfreithiol neu gontractiol gyda chyflogeion neu gyn-gyflogeion; setliadau 'allan o'r llys'; 'iawndal.

### 8.2.7 Costau recriwtio, pecynnau adleoli a lwfansau amharu

Mae costau **pecynnau adleoli** yn gymwys pan fo'r hysbyseb swydd yn datgan bod treuliau adleoli yn rhan o'r pecyn cydnabyddiaeth. Dylai'r swydd dan sylw gwmpasu cyfnod parhad llawn y prosiect UE, o leiaf, a chynnig gwerth amlwg am arian, h.y. buddion gwerth ychwanegol eglur i'r prosiect, o gymharu â pheidio â chynnig pecyn adleoli.

Byddwn yn asesu pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod, a byddwn yn gofyn ichi ddarparu:

- Dadansoddiad manwl o'r costau disgwyliedig, y bydd yn rhaid iddynt fod yn rhesymol ac yn gymaradwy â chyfraddau'r sector cyhoeddus neu'n is;
- Eich polisi adnoddau dynol safonol sy'n nodi'r telerau ac amodau ar gyfer penderfynu pa bryd i gynnig pecynnau adleoli; a

- Cyfiawnhad eglur dros gynorthwyo penodiad yr unigolyn dan sylw, ar sail criteria gwrthrychol ac archwiliadwy (megis ei sgiliau, profiad, gwybodaeth ac ati).

Mae costau **recriwtio staff** yn gymwys, gan gynnwys digolledu ymgeiswyr a chyfwelydd/ hwylusydd am eu presenoldeb mewn cyfweliadau ac am ymarferiadau asesu.

Dylid cadw'r dogfennau canlynol:

- Yr hysbyseb swydd, y gwahoddiad i asesiad, gwahoddiad i gyfweliad neu ddogfennau cyffelyb sy'n hysbysu ymgeiswyr yr ad-delir costau teithio a llety; a
- Polisïau a gweithdrefnau recriwtio neu adnoddau dynol safonol y cyflogwr, sy'n cadarnhau y gellir cynnig ad-daliad o gostau teithio a llety i ymgeiswyr neu ar gyfer cyfwelwyr/ aseswyr/aelodau'r panel ac ati.

Mae **lwfansau amharu** yn gymwys os yw polisïau adnoddau dynol safonol y cyflogwr neu gontract y cyflogai yn cadarnhau bod hawl i gael taliad o'r fath. Ystyr lwfans amharu yw taliadau ychwanegol a wneir i'r staff, pan wneir yn ofynnol, neu anogir yn gryf, bod y staff yn adleoli i safle arall, fel rhan o strategaeth safleoedd/ lleoliadau ehangach y sefydliad. Gall hefyd olygu taliadau o gydnabyddiaeth i'r staff oherwydd newidiadau anffafriol dros dro yn yr amgylchedd gwaith (megis sŵn neu anhwylustod a achosir gan welliannau i'r adeilad ac ati).

## 9. Gwariant ar swyddfeydd a gweinyddu (costau uniongyrchol)

**9.1 RHEOLAU**

31. Mae’r costau yn gymwys os ydynt yn bodloni’r rheolau cyffredinol (Adran 5) a’r diffiniad o ‘gost uniongyrchol’ (Adran 17.1).

32. mae’n rhaid i’r gwariant ymwneud ag un o’r elfennau canlynol: [gweler EU 481/2014, Erthygl 4]:

- Rhent swyddfa;
- Yswiriant a threthi mewn perthynas â’r adeiladau y lleolir y staff ynddynt, a chyfarpar y swyddfa (e.e. yswiriant tân, lladrad);
- Cyfleustodau (e.e. trydan, gwresogi, dŵr);
- Cyflenwadau swyddfa;
- Cyfrifyddu cyffredinol, a darperir o fewn y sefydliad sy’n fuddiolwr;
- Archifau;
- Gwaith cynnal, glanhau ac atgyweirio;
- Diogelwch;
- Systemau TG;
- Cyfathrebu (e.e. ffôn, ffacs, y rhyngrwyd, gwasanaethau post, cardiau busnes);
- Costau banc am weithredu a gweinyddu’r cyfrif neu gyfrifon, pan fo cyflawni gweithrediad yn ei gwneud yn ofynnol i agor cyfrif banc ar wahân (i’w gymeradwyo ymlaen llaw gan WEFO); a chyflenwadau swyddfa;
- Tâl a godir am drafodiadau ariannol traws-wladol.

33. Pan na fodlonir y criteria ‘cost uniongyrchol’, gellir ystyried gwariant cymwys ar y costau uchod am ad-daliad o dan ‘costau anuniongyrchol’ – gweler Adran 13

### 9.2 CANLLAWIAU

Mae costau trafodiadau, am brosesu trafodiadau ariannol ar draws ffiniau rhyngwladol, yn gymwys.

Mae costau banc am agor neu weinyddu cyfrifon banc yn gymwys dim ond os byddwn ni yn dweud wrthych fod yn rhaid agor cyfrif ar wahân fel amod o’r cymorth ERDF.

Mae ffioedd a thaliadau a godir arnoch am dorri amodau eich cyfrif banc yn anghymwys, ynghyd â chostau cardiau credyd, cardiau talu, neu gostau trefniadau benthyg neu gredyd eraill.

Mae'r costau a'r llog a godir am orddrafftiau/ balansau debyd/ neu groesi terfynau credyd yn anghymwys.

Mae dirwyon, cosbau ariannol a gwariant ar anghydfodau cyfreithiol ac ymgyfreitha yn anghymwys – gweler Adran 15.

### 9.2.1 Costau statudol a gorfodol

Os yw eich prosiect yn ysgogi taliadau statudol ychwanegol, neu gostau cyffelyb sy'n deillio o rwymedigaethau gorfodol neu reoleiddiol – megis prynu trwyddedau a chaniatadau, hyfforddiant arbenigol i'r staff, neu fesurau iechyd a diogelwch, yswiriant a threthi neu ardollau ychwanegol – bydd y costau hynny yn gymwys ar yr amod nad y gweithgarwch prosiect ei hunan yw cyfrifoldeb statudol craidd y buddiolwr neu ei swyddogaeth fel corff neu weinyddiaeth gyhoeddus.

Er mwyn eglurder, ni allwn ddarparu cymorth ariannol i'ch helpu i gyflawni eich cyfrifoldebau a'ch swyddogaethau statudol arferol, ond gallwn eich cynorthwyo i gyllido unrhyw gostau ychwanegol a dynnir gennych o ganlyniad uniongyrchol i gyflawni eich prosiect, er enghraifft cost gwiriadau gan wasanaeth Datgelu a Gwahardd y DU ar gyflogeion newydd y prosiect, os bydd angen gwiriadau o'r fath.

### 9.2.2 Yswiriant

Mae premiymau yswiriant yn gymwys os yw'r yswiriant yn ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect, ac yn bodloni'r rheolau cymhwystra safonol o ran bod yn angenrheidiol, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect ac ati.

Os polisi eich sefydliad chi yw hunan-yswirio yn fewnol, yn hytrach na defnyddio polisïau yswiriant masnachol (fel y gwna llywodraeth ganolog a sefydliadau mawr eraill yn y sector cyhoeddus), mae'n rhaid ichi ddilyn eich polisi cyfrifyddu arferol, oni ddywedwn wrthych ei bod yn ofynnol gennym ni eich bod yn trefnu polisi yswiriant.

### 9.2.3 Defnyddio safle a chyfarpar y buddiolwr

Disgwylir i fuddiolwyr ddefnyddio'r gofod nas defnyddir ar eu safleoedd i letya staff gweinyddol y prosiect, a hefyd, pan fo'n gymwys ac addas, ar gyfer gweithgareddau cyflenwi. Mae'r costau uniongyrchol sy'n codi o ddefnyddio gofod o'r fath yn gymwys (er enghraifft costau dibrisiant asedau a ddefnyddir ar gyfer y prosiect yn unig, costau ffôn/cyfleustodau sy'n briodoladwy yn uniongyrchol i'r prosiect ac ati).  Os nad oes gofod ar gael, neu os yw'r gofod yn anaddas, gallwn ystyried cynorthwyo rhentu adeilad allanol a'r costau perthynol, a rhoi cyfrif am hynny yng nghynllun cyllido'r gweithrediad a'r proffil cyflenwi.

Mae'r un egwyddor yn berthnasol i offer swyddfa.

## 10. Costau teithio a llety

Y rhain yw costau cludiant, costau llety a chynhaliaeth dros nos, lwfansau ac yswiriant teithio mewn perthynas â rheoli a chyflenwi eich prosiect.

**10.1 RHEOLAU**

34. Mae'r costau yn gymwys os ydynt yn bodloni'r rheolau cyffredinol (Adran 5) a'r diffiniad o 'gost uniongyrchol' (Adran 17.1).

35. <u>Cyfyngir</u> y gwariant i'r elfennau canlynol [EU 481/2014, Erthygl 5]:

- Costau teithio (e.e. tocynnau, yswiriant teithio, yswiriant car, tanwydd, milltiroedd car, tollau a ffioedd parcio);
- Costau prydau bwyd;
- Costau llety;
- Costau fisâu; a
- Lwfansau dyddiol (taliadau '*per diem*).

**10.2 CANLLAWIAU**

Pan delir lwfansau dyddiol i gyflogeion, y bwriedir iddynt ddarparu ar gyfer rhai neu bob un o'r elfennau cost eraill (prydau bwyd, llety ac ati), ni cheir datgan yr elfennau eraill hynny fel costau cymwys yn ogystal â'r lwfans dyddiol.

Pan fo cyflogai yn gwneud taliad uniongyrchol am y mathau hyn o gostau, yn hytrach na gadael i'r cyflogwr (sef y buddiolwr) eu setlo, ni fydd y costau yn gymwys oni chânt eu hategu gan brawf bod y buddiolwr yn ddiweddarach wedi digolledu'r cyflogai.

Dylech gymhwyso eich polisïau staff a'ch cyfraddau mewnol arferol, gan gynnwys y cyfraddau fesul milltir a delir i'r staff, wrth gyfrifo'r symiau cymwys, yn ddarostyngedig i'r egwyddor gyffredinol o sicrhau gwerth am arian, fel yr esbonnir yn Adran 7.5. Os penderfynwch na fyddai eich polisïau a'ch cyfraddau arferol o bosibl yn bodloni safonau Adran 7.5, dylech fabwysiadu'r cyfraddau a nodir yn y paragraff nesaf.

<u>Yn absenoldeb</u> unrhyw reolau a chyfraddau sefydledig, bydd y rheolau canlynol yn gymwys:

- Y modd teithio mwyaf darbodus a'r llwybr mwyaf uniongyrchol
- Trenau a theithiau awyr – dosbarth safonol / darbodus yn unig
- Partneriaid prosiect Cymru: Cyfraddau ad-dalu fesul milltir o 45 ceiniog y filltir (50 ceiniog os cludir cyd-deithwyr sy'n rhan o'r tîm prosiect UE ac felly'n disodli hawliad ar wahân gan y cyd-deithiwr).
- Partneriaid prosiect Iwerddon: Cyfraddau ad-dalu fesul milltir yn unol â'r cyfraddau sector cyhoeddus priodol. Ni fydd lwfansau *per diem* (sef symiau sefydlog a delir i'r teithiwr ar gyfer costau cynhaliaeth tebygol heb fod angen

darparu derbynebion ac ati yn dystiolaeth) onid ydynt yn rhan sefydledig o bolisi costau teithio safonol y cyflogwr. Ni ddylid cymysgu rhwng hyn a chostau symlach (costau unedol/ cyfandaliadau) – gweler Adran 16.

Gweithredu polisïau staff ac adnoddau dynol ‘arferol’

Cofier bod yr holl gyfeiriadau yn y ddogfen hon at ‘bolisïau a gweithdrefnau staff ac adnoddau dynol arferol’ yn gyfeiriadau at bolisïau a gweithdrefnau y **cyflogwr** perthnasol (sef pob buddiolwr, boed yn fuddiolwr arweiniol neu’n gyd-fuddiolwr) – ni olygir y gellir defnyddio polisïau staff ac adnoddau dynol y buddiolwr arweiniol ar gyfer buddiolwyr eraill yn y gweithrediad.

## 11. Arbenigedd a gwasanaethau allanol (costau uniongyrchol)

Mae hyn yn cyfeirio at gostau gontractau a chytundebau gyda chwmnïau allanol mewn perthynas â gwasanaethau ac arbenigedd sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich prosiect yn llwyddiannus, e.e. ffioedd cyfreithiol; costau arbenigwyr technegol ac ariannol; ffioedd ymgynghorwyr; costau rheolaethau ac archwiliadau; astudiaethau neu arolygon; cyfieithiadau; gwasanaethau ynglŷn â darparu safleoedd ac ati.

Caniateir i'r gwasanaethau a'r arbenigedd gael eu darparu gan gorff cyhoeddus neu breifat neu gan berson naturiol, <u>ac eithrio</u> buddiolwr y gweithrediad.

Nid yw hyn yn cynnwys 'staff allanol' – gweler y diffiniadau yn Adran 8.2.

**11.1 RHEOLAU**

36. Mae'r gwariant <u>yn gyfyngedig</u> i'r elfennau canlynol [EU 481/2014, Erthygl 6]:

- Astudiaethau neu arolygon (e.e. gwerthusiadau, strategaethau, nodiadau cysyniad, cynlluniau dylunio, llawlyfrau);
- Hyfforddiant;
- Cyfieithiadau;
- Datblygu, addasu a diweddaru systemau technoleg gwybodaeth a gwefannau;
- Hyrwyddo, cyfathrebu, neu ddarparu cyhoeddusrwydd neu wybodaeth mewn perthynas â gweithrediad neu'r Rhaglen Gydweithredu;
- Rheolaeth ariannol;
- Gwasanaethau yn gysylltiedig â threfnu a chyflawni digwyddiadau neu gyfarfodydd (gan gynnwys rhentu, arlwyo neu gyfieithu ar y pryd);
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau (e.e. ffioedd cofrestru);
- Ymgynghoriaeth gyfreithiol a gwasanaethau notarïol, arbenigedd technegol ac ariannol, gwasanaethau ymgynghorol a chyfrifyddol eraill;
- Hawliau eiddo deallusol;
- Darparu gwarantau gan fanc neu sefydliad ariannol arall, pan fo hynny'n ofynnol o dan gyfraith UE neu gyfraith genedlaethol neu'r ddogfen Rhaglen Gydweithredu a fabwysiadwyd gan y pwyllgor monitro;
- Teithio a llety ar gyfer arbenigwyr allanol, siaradwyr, cadeiryddion cyfarfodydd a darparwyr gwasanaethau;
- Costau dilysiadau o dan Erthygl 125(4)(a) o Reoliad (EU) Rhif 1303/2013 ac Erthygl 23(4) o Reoliad (EU) Rhif 1299/2013;
- Ardystio ac archwilio costau ar lefel rhaglen o dan Erthyglau 126 a 127 o Reoliad (EU) Rhif 1303/2013; ac
- Arbenigeddau a gwasanaethau penodol eraill sydd eu hangen ar gyfer gweithrediadau.

**11.2 CANLLAWIAU**

Mae gwasanaethau proffesiynol (cyngor cyfreithiol, ffioedd notarïaid, ffioedd arbenigwyr technegol ac ariannol, ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfrifyddol ac archwiliadol) yn gymwys os ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r prosiect, ac yn angenrheidiol ar gyfer ei reoli neu'i gyflawni yn effeithiol

Mae archwilio a gweithredu rheolaethau yn gymwys os ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r prosiect ac yn angenrheidiol ar gyfer ei baratoi neu'i gyflawni, neu os gofynnwn amdanynt.

Mae treuliau teithio a llety a dynnir gan arbenigwyr allanol a chontractwyr/ darparwyr gwasanaethau yn rhan o'u contract gwasanaeth, ac nid ydynt felly o fewn cwmpas y rheolau costau cymwys 'teithio a llety' a bennir yn y ddogfen hon.

Mae costau archebu yn gymwys os gellir dangos eu bod yn gostau rhesymol, bod modd eu cyfiawnhau a'u bod yn sicrhau gwerth am arian.

<u>Lletygarwch ac adloniant</u>

Mae costau adloniant ar gyfer y staff yn unig yn anghymwys. Mae modd cynorthwyo gwasanaethau adloniannol sy'n rhan o'ch cynllun busnes a gytunwyd, er enghraifft, seremonïau gwobrwyo neu ddigwyddiadau hyrwyddo neu godi ymwybyddiaeth cyffelyb. Os na roddir amlygrwydd i weithgareddau o'r fath yn eich cynllun busnes, bydd yn rhaid ichi ofyn am gymeradwyaeth gennym ni, y gellir ei roi ar sail sicrwydd ynghylch gwerth am arian ac angenrheidrwydd.

Mae costau lletygarwch – llogi ystafelloedd, bwyd, lluniaeth ac ati – yn gostau cymwys os yw'r cyfarfod/ digwyddiad yn angenrheidiol a'r symiau a hawlir yn unol â pholisi a therfynau arferol y buddiolwr.

## 12. Gwariant ar gyfarpar (costau uniongyrchol)

Y rhain yw'r offer neu'r dyfeisiau y byddwch yn eu prynu, eu rhentu, eu llogi neu'u prydlesu pan fo'u hangen er mwyn cyflawni eich prosiect yn llwyddiannus: er enghraifft, caledwedd TGCh; offer labordy; peiriannau bychain symudadwy ac offerynnau; a mathau eraill o gyfarpar sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiect.

Gweler hefyd y gofynion 'cofrestr asedau' yn Adran 12.2.

**12.1 RHEOLAU**

37. Mae'r gwariant <u>yn gyfyngedig</u> i'r elfennau canlynol [EU 481/2014, Erthygl 7]:
- Cyfarpar swyddfa;
- Caledwedd a meddalwedd TG;
- Dodrefn a ffitiadau;
- Cyfarpar labordy;
- Peiriannau ac offerynnau;

- Offer neu ddyfeisiau;
- Cerbydau; a
- Cyfarpar penodol arall sydd ei angen ar gyfer gweithrediadau.

## 12.2 CANLLAWIAU

### 12.2.1 Y dull o gaffael: prynu, rhentu neu brydlesu

Yr ystyriaeth allweddol, o reidrwydd, yw'r gwerth am arian, a asesir dros gyfnod parhad y prosiect ac oes economaidd ddisgwyliedig y cyfarpar, gan gynnwys yr amcangyfrif o werth y cyfarpar yn ail-law neu fel sgrap pan na fydd ei angen mwyach. Nid oes raid ichi ddewis yr opsiwn isaf o ran cost – mae effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ystyriaethau yr un mor ddilys.

Byddwn yn ad-dalu'r costau hyn yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect yn unig, ac ni chynorthwyir unrhyw daliadau contractiol y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Ni chaniateir defnyddio'r arian UE i ad-dalu costau cyllido na chostau gwasanaethu dyled. Felly, <u>bydd unrhyw log neu gostau cyllido ar gontractau prydlesu, hurbwrcasu neu rentu yn anghymwys,</u> a bydd yn rhaid i chi ariannu'r elfennau hynny yn llawn.

### 12.2.2 Costau dibrisiant

Bydd costau dibrisiant yn gymwys os bydd y defnydd o'r adeiladau, y cyfarpar neu'r ased arall yn angenrheidiol, ac yn cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni eich prosiect. Ni chaiff cyfanswm y costau dibrisiant a godir ar y prosiect mewn perthynas ag ased penodol fod yn fwy na phris pryniant gwreiddiol yr ased hwnnw.

Mae'n rhaid i'r costau ymwneud yn gyfan gwbl â chyfnod y cymorth a roddir i'r prosiect, ac mae'n rhaid ichi gymhwyso eich polisi ac arferion cyfrifyddu arferol wrth gyfrifo'r costau dibrisiant. Ni fydd dull o gyfrifyddu yn 'arferol' os bydd wedi ei addasu'n bwrpasol ar gyfer prosiect penodol neu ar gyfer cymorth ERDF.

Mae costau dibrisiant ar gyfer asedau a gaffaelwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol gyda chymorth grant llywodraeth/ cyllid cyhoeddus – o ba bynnag ffynhonnell, UE, Iwerddon neu'r DU – yn anghymwys.

Nid oes gwahaniaeth pa bryd y prynwyd yr eitem, hyd yn oed os gwnaed hynny cyn i ni gymeradwyo'r prosiect, neu cyn 1 Ionawr 2014, cyn belled nad eir y tu hwnt i oes economaidd yr eitem yn unol â'ch polisi dibrisiant arferol ar gyfer eitemau o'r fath.

### 12.2.3 Cyfarpar ail-law

Mae'r costau hyn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

- Rhaid i'r pris prynu beidio â bod yn fwy na gwerth cyfredol y cyfarpar ar y farchnad, o ystyried ei oed a'i gyflwr.
- Rhaid i'r cyfarpar feddu'r nodweddion technegol angenrheidiol ar gyfer y gweithrediad a chydymffurfio â'r normau a'r safonau cymwysadwy.
- Rhaid i'r gwerthwr ddarparu datganiad ysgrifenedig sy'n cadarnhau na phrynwyd y cyfarpar gyda chyfraniad o un o'r pum Cronfa Strwythurol a

Buddsoddi  Ewropeaidd (sef ERDF, ESF, EAFRD, EMFF a'r Gronfa Cydlyniant) yn y cyfnod rhaglennu 2014-2020 nac yn ystod rhaglenni blaenorol.

### 12.2.4 'Defnydd cyfyngedig'

Os bydd rhannau eraill o'ch sefydliad – neu sefydliadau neu unigolion eraill – hefyd yn defnyddio'r cyfarpar a gyllidir gan yr UE, mae'n rhaid ichi beidio â chodi dim mwy na chyfran deg a chyfiawn o'r costau ar gyfer eich prosiect. Gallwn ddarparu cyngor ynglŷn â dull teg a chyfiawn o ddosrannu'r gost mewn achos o'r fath.

### 12.2.5 Asedau

Nid yw Rhaglen Iwerddon Cymru wedi ei chynllunio i gynorthwyo prosiectau cyfalaf/ seilwaith, ond gall gyllido pryniant asedau bach megis offer a chyfarpar os ydynt yn rhan o'r Cynllun Busnes a gymeradwywyd.

Pan fo angen ased ar gyfer y prosiect UE yn unig – ac na fydd gan eich sefydliad unrhyw ddefnydd iddo y tu hwnt i ddiwedd y prosiect – gallwch hawlio cost lawn yr ased, fel cost gymwys, hyd yn oed pan fo oes economaidd ddisgwyliedig yr ased yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod cyflawni'r prosiect, os mai'r dewis a gynigiai'r gwerth gorau am arian oedd prynu'r ased, yn hytrach na'i rentu, ei brydlesu neu'i logi.

Os na fyddwn ni wedi cymeradwyo prynu asedau – er enghraifft, os bydd eich sefydliad chi yn cael budd o ddefnyddio'r asedau y tu hwnt i ddiwedd y prosiect – bydd modd ichi, er gwaethaf hynny, hawlio costau dibrisiant yn ystod y cyfnod pan fydd y prosiect yn defnyddio'r asedau, fel y disgrifir yn yr adran ar 'gostau dibrisiant' uchod.

Bydd yn rhaid ichi gynnal **cofrestr asedau**, i gofrestru ynddi yr holl asedau a brynir gyda chymorth o'r cronfeydd UE. Gallwch naill ai ddefnyddio cofrestr asedau gorfforaethol eich sefydliad neu sefydlu cofrestr asedau benodol ar gyfer y prosiect. Yn y gofrestr, mae'n rhaid cofnodi'r canlynol, o leiaf:

- Y dyddiad prynu neu gaffael
- Y gost
- Disgrifiad o'r eitem a/neu rif adnabod unigryw yr ased
- Lleoliad yr ased
- Y dibrisiant a godwyd eisoes (os yw'n gymwys)
- Y 'gwerth llyfr net' (y gost wreiddiol llai'r dibrisiant a godwyd eisoes)
- Dyddiad gwerthu/ gwaredu a'r swm a dderbyniwyd (os yw'n gymwys)

Os defnyddir cofrestr asedau benodol i'r prosiect, mae'n rhaid sicrhau y gellir cysoni gwerthoedd yr asedau (cost, dibrisiant a gwerth llyfr net), yn ogystal â'r categorïau o asedau, â'r wybodaeth gyfanredol a gyflwynir yn y gofrestr asedau gorfforaethol. Bydd yn rhaid darparu esboniadau digonol o unrhyw wahaniaethau.

Gweler hefyd Adran 24, sy'n darparu cyngor ynghylch asedau anghyffwrddadwy megis Hawliau Eiddo Deallusol.

Noder: Yr arfer gorau yw cadw a chynnal rhestr o'r holl gyfarpar a brynir gan ddefnyddio cymorth o gronfeydd yr UE, er mwyn cefnogi unrhyw heriau archwilio. Gellid ystyried bod cyfarpar sydd ag oes ased o lai na blwyddyn yn gost refeniw.

- ## COSTAU ANUNIONGYRCHOL

**13.1 RHEOLAU**

Os byddwn yn cytuno bod eich prosiect yn debygol o ysgogi costau anuniongyrchol, fel y'u diffinnir yn Adran 20.3, bydd y costau hynny yn gymwys, ond ni ellir eu hawlio ac eithrio fel **costau symlach, cyfradd safonol** (gweler Adran 17).

**13.2 CANLLAWIAU**

Dyrennir llinell gyllideb ar wahân i gostau anuniongyrchol ym mhroffil cyflawni'r gweithrediad (WEFO Ar-lein/ PRISM) ac felly, **o anghenraid, mae pob cost arall yn y proffil cyflawni yn gostau <u>uniongyrchol</u>** ac mae'n rhaid iddynt fodloni'r diffiniad o gostau uniongyrchol a ddarperir yn Adran 18.

- ## CYFRANIADAU MEWN CYNNYRCH

**14.1 RHEOLAU**

Yn ogystal â chostau a dynnir ac a delir mewn gwirionedd gan fuddiolwr, gall gwariant cymwys ddigwydd hefyd ar ffurf cyfraniadau mewn cynnyrch, a roddir i'r prosiect gan drydydd partïon, ac na wneir taliad amdanynt.

Mae cyfraniadau mewn cynnyrch yn ffurf arall o 'gostau real', ochr y ochr â chostau dibrisiant a chostau a dynnir ac a delir mewn gwirionedd.

**RHEOLAU**

Rhaid i gyfraniadau mewn cynnyrch fod naill ai:

38. Yn ddarpariaeth o waith, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau gweithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr); neu

39. Yn waith prosiect di-dâl (staff gwirfoddol sy'n rheoli a/neu'n cyflawni'r prosiect); neu

40. Yn rhoddion o dir a/neu adeiladau na wnaed unrhyw daliad ariannol amdanynt gan y buddiolwr (ond ni ragwelir unrhyw wariant ar dir ac adeiladau yn y Rhaglen Iwerddon Cymru).

41. Ym mhob achos, mae'n rhaid i gyfanswm y cymorth cyhoeddus (sef cyllid UE ac arian cyfatebol cyhoeddus cenedlaethol) a dderbynnir mewn gwirionedd gan y gweithrediad beidio â bod yn fwy na chyfanswm y gwariant cyhoeddus ac eithrio'r cyfraniadau mewn cynnyrch. Mewn geiriau eraill, mae'n rhaid i werth yr holl gyfraniadau mewn cynnyrch beidio â bod yn fwy na chyfraniad y buddiolwyr i gostau cymwys y gweithrediad. Asesir y trothwy hwn ar ddiwedd y gweithrediad. Diben y rheol hon yw sicrhau nad yw'r buddiolwyr yn cael mwy o gyllid cyhoeddus nag sydd ei angen i dalu am gostau'r prosiect.

42. Mae’n rhaid darparu’r cyfraniadau yn benodol i’w defnyddio ar y gweithrediad/ prosiect a enwir, ac nid fel rhodd cyffredinol ei bwrpas, i’r buddiolwr ei ddefnyddio ar ‘unrhyw brosiect’.  Mae hyn yn arbennig o bwysig, er mwyn sicrhau na chofrestrir yr un cyfraniad ar gyfer mwy nag un prosiect UE.

43. Mae’n rhaid penderfynu gwerth y cyfraniadau **naill ai**:

> *yn ôl y **costau** a dynnwyd mewn gwirionedd gan y trydydd parti ac a ategir gan ddogfennau cyfrifyddu sy’n cadarnhau’r costau, llai dibrisiant hyd at y dyddiad cymwysadwy (h.y. ar gyfer asedau dibrisiadwy a gaffaelwyd, prynwyd neu adeiladwyd fwy na 12 mis cyn eu rhoi’r prosiect UE);* **neu**
>
> *y **gwerth ar y farchnad** ar y dyddiad y gwnaed y rhodd i’r prosiect UE. Hynny yw’r gost y byddai wedi bod yn ofynnol ei thalu i gaffael y cynnyrch am bris y farchnad ar y  pryd;*

44. Bydd yn rhaid bod modd asesu a dilysu  gwerth y cyfraniad yn annibynnol, oherwydd ni allwn dderbyn unrhyw werth ar sail honiad gan drydydd parti yn unig. Felly, os bydd yn anodd cael tystiolaeth o’r ‘gwerth cyfredol ar y farchnad’, dylid defnyddio yn hytrach yr opsiwn ‘cost a dynnwyd mewn gwirionedd’.

45. Pa ddull bynnag a ddefnyddir i briodoli gwerth i gyfraniad mewn cynnyrch, bydd y symiau a gyrhaeddir yn parhau yn y categori o gostau ‘mewn cynnyrch’ – ac nid costau gwirioneddol a dynnwyd ac a dalwyd.

46. Bydd yn rhaid bod modd asesu a dilysu yn annibynnol dderbyniad/ realiti y cyfraniad, yn ogystal â’i gost neu’i werth. Mae’n rhaid bod tystiolaeth i ddangos bod eich prosiect wedi cael ac wedi defnyddio’r cyfraniad. Er mwyn eglurder, y rheol yw y dylai fod yn bosibl asesu a dilysu yn annibynnol: nid yw’r rheol yn gosod rhwymedigaeth i asesu neu ddilysu ar yr adeg y cofnodir y cyfraniad fel cost gymwys. Ei heffaith, felly, yw pennu gofyniad am drywydd archwilio – mae’n rhaid bod modd asesu a dilysu bod y gwerth a briodolir i bob cyfraniad mewn cynnyrch yn cydymffurfio â’r dulliau prisio a restrir uchod, a gwirio bod y cyfraniad mewn cynnyrch wedi ei wneud neu ei gyflenwi mewn gwirionedd. Yr eithriad i’r rheol hon yw gwerth tir neu adeiladau, y bydd yn rhaid ei ardystio gan arbenigwr cymwysedig annibynnol neu gorff swyddogol a awdurdodwyd yn briodol, cyn y gellir datgan bod y gwerth yn gost gymwys.

47. Dylai’r gwerth a briodolir i gyfraniad mewn cynnyrch fod yn lled gyfartal i’r pris y byddech yn ei dalu am y cyfraniad hwnnw ar y farchnad o dan amgylchiadau normal. Gellir pennu gwerth cyfredol y cyfraniad mewn cynnyrch ar y farchnad mewn gwahanol ffyrdd: ar sail ystadegau, arolygon marchnad, trafodiadau cymaradwy, cerdyn cyfraddau safonol/ cyfraddau ffioedd proffesiynol yr awr ac ati.

## 14.2 CANLLAWIAU

Er mwyn eglurder, nid yw'r term 'trydydd partïon' yn cynnwys buddiolwyr eraill o fewn yr un gweithrediad; ac felly, er enghraifft, ni chaiff cyd-fuddiolwr wneud cyfraniad mewn cynnyrch i'r buddiolwr arweiniol yn yr un gweithrediad.

Nid yw'r canlynol yn 'gyfraniadau mewn cynnyrch' i brosiect UE:

- Disgowntiau ar brisiau, a negodiadau cyffelyb ynghylch prisiau busnes.
- Nodiadau credyd.
- 'Prynwch un a chael un am ddim' a chynhyrchion a gwasanaethau 'di-dâl' o'r fath.

Nid yw'r rheol 'talu allan' (gweler adran 7.3.2) yn gymwys i gyfraniadau mewn cynnyrch. Fel arfer, y ffordd orau o fesur gwerth y cyfraniad yw trwy ddefnyddio'r gwerth cyfredol ar y farchnad, gan ddiystyru'r gost hanesyddol. Ond weithiau, y ffordd orau (neu'r unig ffordd) o brisio'r cyfraniad fydd trwy gyfeirio at y pris prynu neu'r gost wreiddiol. Gellir gwirio hynny trwy gael anfonebau a dderbynebwyd gan y trydydd parti, neu ddogfennau cyfrifyddu cyffelyb, ond nid oes angen profi, ym mhob achos, fod yr anfoneb wedi ei 'thalu' gan y sefydliad trydydd parti.

### 14.2.1 Gwaith di-dâl (amser gwirfoddolwyr)

Cofnodir gwerth y gwaith yn nhermau'r amser fel y'i dilyswyd a'r gyfradd cydnabyddiaeth am **waith cyfwerth**. Ystyr hyn yw cyfradd y farchnad am y math o waith a gyflawnir – nid y gyfradd y mae, neu yr oedd, yr unigolyn fel arfer yn ei hennill.

Rhaid i'r cyfraddau fesul awr gael eu cytuno gennym ni. Rhestrir y cyfraddau cyfredol isod.

<u>Gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar brosiectau a leolir yng Nghymru</u>

Nid yw gwaith gwirfoddol yn perthyn i'r categori 'costau staff' gan nad yw'n deillio o gontract cyflogi neu gontract am wasanaethau taledig a gyflawnir gan yr unigolyn.

Daw'r cyfraddau isod o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y DU (Tachwedd 2020). Y cyfraddau yw'r rhai ar gyfer y DU ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r gyfradd a ddefnyddir beidio â bod yn is nag Isafswm Cyflog Cenedlaethol cymwysadwy y DU ar gyfer oedran y gwirfoddolwr.

| Enw'r Swydd | Cod DGS[1] | Cyfradd Fesul Awr (£) | Cyfradd Flynyddol (£) |
|---|---|---|---|
| Rheolwr Prosiect | 2424 | 23.41 | 46,992 |
| Ymchwilydd Prosiect | 2426 | 18.59 | 35,298 |
| Cydgysylltydd Prosiect | 3539 | 14.59 | 27,890 |
| Hyfforddwr | 3563 | 14.76 | 29,150 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweinyddwr Prosiect | 4159 | 11.06 | 21,733 |

[1] Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol

Sylwer y bydd y cyfraddau yn gymwysadwy i brosiectau a gymeradwyir gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth o 01 Gorffennaf 2019 ymlaen. Bydd prosiectau a gymeradwywyd cyn y dyddiad hwn dim ond yn defnyddio'r cyfraddau diwygiedig ar ôl ailbroffilio / ail-werthuso lle mae hyn yn golygu newid sylweddol mewn cyllid. Bydd yr olaf yn cael ei drafod a'i gytuno gyda Swyddog Datblygu Prosiect WEFO.

Gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar brosiectau a leolir yn Iwerddon

Cytunir ar y cyfraddau cymwysadwy fesul achos unigol; y cyfraddau fydd yr uchaf o'r canlynol:

- Cyfraddau'r farchnad/ data ystadegol ar enillion cyfartalog / cyfraddau cyfatebol yn y gwasanaeth sifil/ cyflogeion sector cyhoeddus sy'n gwneud gwaith cymaradwy ar brosiectau CTE (tystiolaeth i'w darparu i ategu'r cyfraddau); neu
- Y gyfradd gymwysadwy (yn ôl oedran) a bennir o dan Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 2000.

### 14.2.2 Rhoddion o dir ac adeiladau

Nid bwriad Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yw darparu cymorth ar gyfer tir ac adeiladau, fel gwariant cymwys ar ffurf costau real nac fel cyfraniadau mewn cynnyrch. Felly, bydd yn rhaid i fuddiolwyr ofyn am ein cydsyniad ysgrifenedig ni i drin costau o'r fath fel rhai cymwys.

Os digwydd inni gymeradwyo tir a/neu adeiladau fel cost gymwys, ni fydd y rheol arferol, sef nad oes taliad ariannol yn ofynnol am gyfraniad mewn cynnyrch, o ran taliad nominal at ddibenion cytundeb prydlesu, ond dim mwy nag £1 y flwyddyn (prosiectau Cymru) neu €1 y flwyddyn (prosiectau Iwerddon)

Rhaid i werth y tir neu adeiladau gael ei ardystio gan arbenigwr cymwysedig annibynnol neu gorff swyddogol a awdurdodwyd yn briodol.

Mae cyfraniad yn anghymwys os yw'n gyfraniad o dir (boed adeiladau arno ai peidio) sydd â'i werth yn fwy na 10% o gyfanswm y gwariant cymwys ar eich prosiect. Yn achos safleoedd diffaith, a rhai gydag adeiladau arnynt a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddibenion diwydiannol, gellir codi'r terfyn hwn i 15%. Mewn achosion eithriadol sydd â chyfiawnhad priodol, hwyrach yr ystyrir canran uwch (>15%) ar gyfer prosiectau cadwraeth amgylcheddol. Dylech gysylltu â ni, os gwelwch yn dda, i drafod unrhyw achos sydd uwchlaw 10%.

### 14.2.3 Cyfrifyddu am gyfraniadau mewn cynnyrch

Rhaid ichi roi cyfrif am gyfraniadau mewn cynnyrch fel a ganlyn::

- Cynnwys fel cost gymwys yn eich hawliad tâl y categori gwariant mwyaf priodol. Bydd hyn yn ysgogi taliad grant ar y gyfradd a gytunwyd.

- Yn yr un hawliad, cynnwys cofnod cyfochrog o'r 'cyllid cyfatebol', sy'n cydnabod, i bob pwrpas, fod y costau 'mewn cynnyrch' wedi eu cyllido'n llawn gan y rhoddwr trydydd parti.
- Dylai'r ddau gofnod fod am yr un swm

## 15. Crynodeb ac eglurhad pellach ynghylch 'costau anghymwys'

**15.1 RHEOLAU**

Mae'r costau canlynol bob amser yn anghymwys:

48. Pryniant asedau a gaffaelwyd yn flaenorol gyda chymorth UE.

49. Costau a ystyrir yn anghymwys gan y rheolau cymorth gwladwriaethol cyfatebol, pan fo'n berthnasol.

50. Difidendau cwmnïau a delir i gyfranddalwyr, hyd yn oed os bwriedir hwy fel dewis amgen, yn lle cyflog.

51. Costau gweithgareddau sy'n torri cyfreithiau a rheoliadau cymwysadwy yr UE, y DU neu Iwerddon.

52. Costau a ad-delir gan weithredoedd neu raglenni eraill yr Undeb Ewropeaidd.

53. **TAW** y gellir ei hadennill oddi ar yr awdurdodau treth cenedlaethol perthnasol o dan y ddeddfwriaeth TAW gymwysadwy, <u>hyd yn oed os dewiswch beidio â'i hadennill.</u> Er mwyn eglurder, mae TAW a dalwyd gennych, pan allwch ddangos nad oes modd ichi ei hadennill oddi ar yr awdurdodau treth, yn gost gymwys os byddwch wedi cadw'r anfoneb TAW, neu brif ddogfen gyfwerth ynglŷn â'r trafodiad, ar gyfer dilysiadau ac archwiliadau yn y dyfodol. Pan hawlir TAW anadenilladwy fel cost gymwys, **mae'n rhaid i'r hawliad gael ei ategu** gyda thystiolaeth addas gan y partner, sy'n cadarnhau ei statws TAW, e.e. llythyr oddi wrth yr awdurdod treth perthnasol neu gyfrifwyr neu archwilwyr y partner. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn hwylus; felly, byddai unrhyw gostau a dynnid wrth gadarnhau'r statws TAW yn ganiatadwy mewn achosion eithriadol yn unig.

54. Llog a thaliadau ariannol eraill ar ddyled gan gynnwys cardiau credyd a chardiau talu, ac eithrio grantiau a roddir ar ffurf cymhorthdal cyfradd llog neu gymhorthdal ffi gwarantu. Mae taliadau ariannol yn cynnwys taliadau sy'n deillio o amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor ('colledion cyfnewid').

55. Costau sy'n deillio o ohirio neu ail-negodi taliadau i gredydwyr.

56. Costau cyfreithiol cychwyn neu amddiffyn achosion cyfreithiol/ ymgyfreitha ynghylch gweithgareddau'r gweithrediad, gan gynnwys anghydfodau cyflogaeth a materion contractiol eraill. Pan fo gwaith cyfreithiol yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni gweithgareddau a gymeradwywyd yn y modd a ddisgrifir yn eich cynllun busnes, gydag amcangyfrifon o'r costau wedi eu cynnwys yn y proffil cyflenwi, mae'r costau hynny'n gymwys (enghreifftiau: cyngor cyfreithiol i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau cymwysadwy: costau mewn cysylltiad ag arfer gorchymyn prynu gorfodol, ac ati).

57. Prynu tir (boed adeiladau arno ai peidio) am swm uwchlaw 10% o gyfanswm y gwariant cymwys ar y prosiect. Ar gyfer safleoedd diffaith a rhai ag adeiladau arnynt a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddibenion diwydiannol, codir y terfyn hwn i 15%. Mewn achosion eithriadol, gyda chyfiawnhad priodol, gellir caniatáu canran uwch ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chadwraeth amgylcheddol.

58. Costau tybiannol/ damcaniaethol, hyd yn oed pan fo sail resymol gan y buddiolwr dros gredu bod y gost yn agos at 'gostau real', neu at y gwerth ar y farchnad. Er enghraifft, cyfraddau mewnol ar gyfer codi tâl ar rywun oddi allan, nad oes cysylltiad rhyngddynt a symiau a dalwyd mewn gwirionedd gan y sefydliad, nac a chyfraddau 'gwerth masnachol amcangyfrifedig' a godir am ddefnyddio safleoedd gwag.

59. Costau a amcangyfrifwyd neu a gyllidebwyd (nid yw hyn yn cynnwys costau dibrisiant).

60. Costau cyfleoedd, sef symiau y tybiwch a fforffedwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect neu weithgaredd prosiect.

61. Amcangyfrifon a phrisiadau cyfrifyddol megis darpariaethau, cronfeydd wrth gefn, rhwymedigaethau digwyddiadol, isbrisiadau, darpariaethau ar gyfer drwgddyledion, amorteiddiad asedau anghyffwrddadwy a chostau diffygiant asedau.

62. Drwgddyledion, dileadau dyledwyr a dileadau cyfrifyddu eraill, gan gynnwys ysgrifennu ymaith fenthyciadau i'r staff.

63. Cyfraniadau neu roddion i bleidiau gwleidyddol a thaliadau eraill ar gyfer gweithgareddau gwleidyddol-bleidiol eu natur.

64. Unrhyw elfen o elw a ychwanegir gennych at eich costau mewnol (uwchbrisio, prisio 'cost ac elw' ac ati).

65. Taliadau neu ffioedd i'ch credydwyr am dalu yn hwyr.

66. Costau ynglŷn â dirwyn endid cyfreithiol i ben.

67. Taliadau gwirfoddol i aelod neu gyn-aelodau o'r staff, h.y. taliadau dros ben yr hyn a fyddai'n ddyladwy trwy lynu'n gaeth at y telerau contractiol neu statudol. Er enghraifft, setliadau uniongyrchol ('allan o'r llys') am ddiswyddo annheg, neu ynglŷn â chwyn yn erbyn cyflogwr.

68. Digollediad neu daliad cyffelyb i gyn-gyflogai mewn setliad ynghylch diswyddo annheg.

69. Rhoddion, pryniant gwobrau, anrhegion a thaliadau gwirfoddol cyffelyb (nad ydynt yn pasio'r prawf cymhwystra 'angenrheidiol'). Fodd bynnag, mae dosbarthu **eitemau bach** (o ddim mwy na €50 am bob rhodd) mewn cysylltiad â hyrwyddo, cyfathrebu, cyhoeddusrwydd neu wybodaeth yn **gymwys** [Rheoliad EU 481/2014, Erthygl 2(2)b].

70. Adloniant ar gyfer staff neu drydydd partïon (ond gweler yr adran ar 'letygarwch ac adloniant' ynglŷn â chymhwystra digwyddiadau, seremonïau ac ati).

71. Dirwyon, cosbau ac iawndal troseddol.

72. Dirwyon, cosbau ac iawndal statudol.

73. Dirwyon parcio, a dirwyon moduro eraill.

74. Costau a dynnir gan gyflogwyr wrth sefydlu neu gau cynlluniau pensiwn.

75. Costau a dynnir wrth ddirwyn cwmni i ben neu gau cwmni (yn orfodol neu'n wirfoddol), gan gynnwys costau rhoi yn nwylo, neu ryddhau o ddwylo, gweinyddwr, methdalu, diddymu nu fesurau cyffelyb.

76. Unrhyw log a chostau ariannu ar gytundebau prydlesu, hurbwrcas neu rentu.

## 16. Costau symlach

**Cyfeirier hefyd at y canllawiau cynhwysfawr '*Simplified costs: detailed guidance for beneficiaries (F3 Mai 2019)* sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru**

Rhestrir y costau symlach sydd ar gael ar hyn o bryd yn **Atodiad D** a disgrifir nodweddion allweddol y costau symlach yn **Atodiad E**.

### 16.1 Cymhwysedd y costau symlach

Costau symlach (cyfraddau safonol) yw'r unig ddull sydd ar gael i gyfrifo costau anuniongyrchol. Ni ellir datgan costau anuniongyrchol ar sail 'cost real'. Mae costau symlach hefyd yn orfodol ar gyfer gweithrediadau bach lle mae'r cymorth cyhoeddus arfaethedig ar gyfer gweithredu yn llai na €100,000 (gweler Atodiad D).

Mae costau symlach eraill yn ddewisol ond **rydym yn annog yn gryf** bod pob buddiolwr yn ystyried defnyddio costau symlach gan eu bod yn debygol o leihau gwaith gweinyddol a baich archwilio, lleihau gwallau ariannol a rhyddhau staff prosiect i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau – yn hytrach na chydymffurfio â phrosesau cefn-swyddfa.

### 16.2 *Cyfradd safonol o 15% ar gyfer costau anuniongyrchol*

Mae'r gyfradd hon ar gael i bob gweithrediad sydd wedi ein bodloni ei fod yn debygol o ysgogi costau anuniongyrchol.

Cyfrifir y costau anuniongyrchol cymwys gan ddefnyddio cyfradd safonol o 15% o'r **costau staff** uniongyrchol cymwys. Gweler Adran 8.2 ynglŷn â gweithwyr asiantaeth gyflogi a gyflogir i gyflenwi/ cyflawni gweithgareddau'r gweithrediad.

Sefydlir y gyfradd o 15% yn Rheoliad EU 1303/2013, Erthygl 68(b) ac felly nid oes angen ei chyfiawnhau ymlaen llaw, gennym ni na chan y buddiolwyr.

### 16.3 *Cyfradd safonol o 25% ar gyfer costau anuniongyrchol (YD ac A)*

Cyfrifir costau anuniongyrchol ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi cymwys gan ddefnyddio cyfradd safonol o 25% o'r holl gostau uniongyrchol cymwys.

Sefydlir y gyfradd o 25% yn Rheoliad EU 1290/2013 (rheolau ar gyfer cyfranogi a lledaenu yn Horizon 2020) a phennir y posibiliadau o ddefnyddio'r gyfradd a'r dull hwn ar gyfer y cronfeydd ESI yn Rheoliad EU 1303/2013, Erthygl 68(a). Nid oes angen cyfiawnhau'r gyfradd ymlaen llaw, gennym ni na chan y buddiolwyr.

Pan ddefnyddir y gyfradd hon, cyfrifir y costau anuniongyrchol gan ddefnyddio cyfradd safonol o 25% o gyfanswm y costau uniongyrchol cymwysadwy. Ystyr costau uniongyrchol cymwysadwy yw'r holl gostau uniongyrchol cymwys ac eithrio'r canlynol:

- costau is-gontractio (contractau ar gyfer cyflenwi gweithrediadau, prosiectau neu weithgareddau ar wahân)
- costau adnoddau a roddir ar gael gan drydydd partïon ac nas defnyddir ar safle buddiolwr
- cymorth ariannol i drydydd partïon.

Noder: Os bydd buddiolwr ei hun yn cyflawni prosiect (sy'n golygu **cadw rheolaeth lawn o'r gwaith o reoli a gweithredu'r** prosiect – heb anfon y gwaith allan / heb ei gaffael yn llawn), gall rhai o'r **costau** o fewn y prosiect sydd angen eu contractio (ee rhai o gostau gweithredu'r prosiect, megis gwasanaethau glanhau, arbenigedd allanol, prynu celfi etc) gael eu cynnwys fel cost uniongyrchol gymwys wrth gyfrifo'r gyfradd safonol o 25%.

Mae'r gyfradd o 25% yn cymryd lle, ac nid yn ychwanegol at, yr opsiwn o '15% o'r costau staff' a ddisgrifir uchod ac y dywedir ei bod ar gael i bob gweithrediad.

NODYN AR GYFER STAFF Y GYD-YSGRIFENYDDIAETH

Bydd gweithrediad (neu brosiect o fewn gweithrediad) yn gymwys ar gyfer y gyfradd o 25% fel gweithrediad ‘ymchwil ac arloesi’ os caiff ei godio gan WEFO fel un sy’n dod o fewn y ‘meysydd ymyrryd’ ERDF a’r blaenoriaethau buddsoddi a restrir yn Rheoliad EU 480/2014, Erthygl 20.

**16.4 *Cyfradd safonol o 20% ar gyfer costau staff uniongyrchol***

Mae’r gyfradd hon ar gael i bob gweithrediad.

Cyfrifir cyfanswm costau staff uniongyrchol gweithrediad gan ddefnyddio cyfradd safonol o 20% o’r **costau uniongyrchol cymwys** (ac eithrio’r costau staff uniongyrchol). Pan ddewisir y gyfradd safonol hon, ni cheir datgan unrhyw gostau staff uniongyrchol ychwanegol.

Ystyr ‘costau staff’ yw contractau uniongyrchol gyda gweithwyr unigol sy’n cyflawni gwaith ar gyfer y prosiect, ac felly mae’r term yn cynnwys staff mewnol ac allanol (gweithwyr hunangyflogedig a gweithwyr asiantaeth) ond nid contractau gyda chwmnïau/ cyrff corfforedig.

Sefydlir y gyfradd o 20% yn Rheoliad EU 1299/2013, Erthygl 19 ac nid oes angen ei chyfiawnhau ymlaen llaw, gennym ni na chan fuddiolwyr.

***16.5 Cyfradd Safonol o 40% ar gyfer Costau Uniongyrchol ac Anuniongyrchol***

Mae’r gyfradd hon ar gael ar gyfer pob gweithrediad.

Caiff costau uniongyrchol cymwys, ac eithrio costau staff, a chostau anuniongyrchol eu cyfrifo drwy ddefnyddio cyfradd safonol o 40% o **gostau staff** uniongyrchol cymwys.

Mae costau staff yn golygu contractau uniongyrchol â gweithwyr unigol sy’n gwneud gwaith ar gyfer y prosiect ac felly, mae’n cynnwys staff mewnol ac allanol (hunangyflogedig, gweithwyr asiantaethau) ond nid contractau â chwmnïau / cyrff corfforaethol.

Sylwer: o 2 Awst 2018 ymlaen gellir hawlio cyflogau a lwfansau a delir i gyfranogwyr **yn ogystal â’r** costau staff uniongyrchol cymwys a’r gyfradd safonol o 40% a gymhwysir i’r costau staff uniongyrchol cymwys. O ran Rhaglen Iwerddon-Cymru, bydd hyn yn cynnwys prosiectau lle darperir hyfforddiant i weithwyr unigol BBaChau drwy fynychu digwyddiadau/ gweithdai hyfforddi, a lle mae’r cyflogau a’r lwfansau a delir gan y BBaChau i’r gweithwyr unigol yn cael eu defnyddio fel cyfraniadau mewn cynnyrch tuag at gostau’r prosiect.

**16.6 *Costau unedol ar gyfer costau staff prosiect***

Yn eich llythyr dyfarnu cyllid, sefydlir cyfradd sefydlog yr awr ar gyfer staff prosiect, a gallwch ddefnyddio’r gyfradd honno wrth gyflwyno eich hawliadau tâl.

Y fantais allweddol a geir o ddefnyddio’r opsiwn hwn yw na fydd y dilysiadau a’r archwiliadau, trwy gydol cyfnod cyflawni’r gweithrediad, yn edrych ar gofnodion ariannol y gyflogres na’r cyfriflenni banc i gadarnhau’r symiau a dalwyd allan.

Sefydlir y costau yr awr trwy rannu’r costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf sydd wedi eu dogfennu gyda 1,720 awr. Yn y costau cyflogaeth gros blynyddol diweddaraf gellir cynnwys yr holl gostau staff cymwys fel y’u pennir yn Rhan 3 (cyflog, trethi a chyfraniadau pensiwn y cyflogwyr ac ati).

Mae’r amcangyfrif blynyddol o’r oriau cynhyrchiol (sef 1,720 awr) wedi ei bennu mewn Rheoliadau CE, a gellir ei ddefnyddio heb gyfiawnhad pellach. Neu, os dewiswch beidio â defnyddio’r amser gwaith blynyddol safonol o 1,720 awr, bydd angen ichi ddarparu, a chyfiawnhau wrth WEFO, fanylion y costau cyflogaeth gros blynyddol **diweddaraf** a’r nifer o oriau cynhyrchiol blynyddol y byddwch yn ei ddefnyddio. Bydd hynny’n galluogi WEFO i wirio a chytuno’r cyfraddau costau staff yr awr sydd i’w defnyddio gennych, a nodi’r cyfraddau yn eich llythyr dyfarnu cyllid. I gael rhagor o fanylion, gweler adran 5 o ddogfen WEFO “Canllawiau Manwl ar ddefnyddio costau symlach”

Gellir pennu cyfraddau cytunedig ar gyfer aelodau unigol o’r staff neu (fel sy’n fwy tebygol) ar gyfer grwpiau o’r staff gan ddefnyddio cyfartaleddau gradd/ band.

Pan fo costau staff unedol yr awr wedi bod mewn grym am o leiaf ddwy flynedd, cewch ofyn am adolygu’r gyfradd, i adlewyrchu’r costau cyflogaeth diweddaraf sydd wedi’u dogfennu ar yr adeg y cynhelir yr adolygiad.

Ar hyn o bryd, dim ond i weithrediadau a gefnogir gan ESF yr ydym yn cynnig y gost uned ar sail cyfradd sefydlog fesul cyfranogwr i gyfrifo costau staff prosiect. Serch hynny, mae modd i weithrediadau a gefnogir gan ERDF ddefnyddio graddfeydd safonol o gostau uned ar sail allbynnau a/neu ganlyniadau. Os oes gennych ddiddordeb mewn mabwysiadu dull/methodoleg costau uned ar gyfer eich gweithrediad a gefnogir gan ERDF, gweler yr adran ‘Rhagor o Wybodaeth a Chyngor Ynghylch Costau Symlach’ isod.

### *16.7 Costau Uned Cymorth Technegol ar gyfer Teithio a Chynhaliaeth*

Mae cost uned sefydlog ar gael ar gyfer Teithio a Chynhaliaeth o dan Cymorth Technegol.

Mae cyfradd cost uned o €250 fesul person, fesul taith ar gael ar gyfer costau a ysgwyddir gan sefydliad sy’n teithio dramor i gwrdd â phartneriaid posibl, gyda’r nod o sefydlu gweithrediadau ar draws y Rhaglen Cymru Iwerddon.

Mae argaeledd y gost uned yn ddarostyngedig i reolau a meini prawf cymhwysedd cynllun Rhwydweithio Cymru Iwerddon 3 (WIN3): https://irelandwales.eu/sites/default/files/2018-04/Ireland%20Wales%20WIN3%20Eligibility%20Terms.pdf

### 16.8 Gwybodaeth a chyngor pellach ynghylch costau symlach

Mae croeso ichi gysylltu â ni i drafod y costau 'parod' symlach a amlinellir uchod, neu os oes diddordeb gennych yn y posibilrwydd o ddefnyddio costau unedol neu gyfandaliadau (costau cymwys a benderfynir yn unig trwy **gyflawni gweithgareddau** neu **gyrraedd cerrig milltir**, neu **sicrhau allbynnau neu ganlyniadau**) – esbonnir y rhain mewn dogfen ar wahân ar wefan WEFO, sef '*Simplified costs: detailed guidance for beneficiaries'*.

## 17. CANLLAWIAU PELLACH: Diffiniad o gostau 'uniongyrchol' ac 'anuniongyrchol'

Dylid cofio bod costau yn gymwys dim ond os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â gweithgaredd prosiect cymwys.

Ystyr 'categorïau gwariant' yw eitemau gwariant sydd â nodweddion a phwrpas tebyg i'w gilydd'.

### 17. Diffiniad o gostau 'uniongyrchol'

Costau uniongyrchol yw costau cychwyn a chyflawni'r gweithgareddau prosiect a gytunwyd, pan ellir dangos **cysylltiad uniongyrchol** rhwng y gost a'r gweithgareddau a gynorthwyir gan ERDF, a'i **feintioli yn rhwydd** heb orfod ystyried methodolegau dosrannu mympwyol (megis ysgogyddion cost sy'n seiliedig ar y troedfeddi sgwâr o ofod a ddefnyddir gan y prosiect, cyfrif pennau, oriau'r staff ac ati).

Mae contractau a osodir gan fuddiolwyr yn gostau uniongyrchol, hyd yn oed pan fo'r telerau prisio yn y contract o bosibl yn galluogi'r contractwr i gael taliadau am yr hyn a ddisgrifir yn y contract fel 'costau anuniongyrchol'.

### 17.2 Costau uniongyrchol a ddyrennir ar sail *pro rata*

*Costau cymwys adnabyddadwy a restrir mewn anfoneb / contract/ datganiad ochr yn ochr â chostau eraill anghysylltiedig neu anghymwys.*

Mae'r costau hyn yn rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd a gynorthwyir gan ERDF, a gellir dangos cysylltiad uniongyrchol, ond mae'r anfoneb – neu'r ddogfen gyfwerth – yn cydgrynhoi'r costau gydag eitemau eraill nad oes cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt a'r prosiect UE penodol. Mae'n angenrheidiol, felly, adnabod y costau sydd â chysylltiad, a'u dyrannu i'r prosiect UE. Gellir trin y symiau hynny wedyn fel costau uniongyrchol.

Bydd angen i archwiliadau a dilysiadau gael gweld y cofnodion ategol, er mwyn gwirio sail y dyraniadau cost.

Enghreifftiau:

- Llinellau ffôn a chostau galwadau, y gellir eu holrhain at aelodau unigol o staff y prosiect UE, neu i weithle a ddefnyddir gan y tîm prosiect UE yn unig.
- Mae prif swyddfa/ canolfan gorfforaethol y buddiolwr yn talu swm sefydlog i ddarparwr gwasanaeth a gontractiwyd, am bob aelod o staff y sefydliad (e.e. am ddarparu gwasanaethau TGCh neu drwyddedau meddalwedd y telir amdanynt fesul defnyddiwr). Gall y prosiect UE hawlio'r costau hyn fel 'costau uniongyrchol' y staff sy'n gweithio ar y prosiect UE os ydynt yn defnyddio'r gwasanaethau hynny mewn gwirionedd ac os yw'r prosiect UE yn cael budd o'r gwasanaethau. Mae angen trywydd archwilio er mwyn adnabod enwau'r unigolion sy'n cael budd o'r gwasanaethau a chael tystiolaeth o'r symiau a delir i'r contractwr.

### 17.3 Diffiniad o gostau 'anuniongyrchol'

Costau anuniongyrchol yw'r holl gostau cymwys diofyn eraill nad ydynt yn bodloni'r diffiniadau uchod o gost uniongyrchol.

Yn fyr, bydd y rhain yn gostau neu weithgareddau cymwys y bydd eich prosiect yn **cael budd** ohonynt mewn rhyw ffordd, er na ellir cysylltu gwerth y costau hyn yn uniongyrchol â'ch prosiect chi, oherwydd ei bod yn **anodd neu'n amhosibl meintioli'r swm** sy'n briodoladwy yn unig i weithrediad/ prosiect unigol.

Dylid cofio, pe bai modd dangos y cysylltiad a meintioli'r union swm, na fyddai'r costau, hyd yn oed wedyn, yn pasio'r prawf cymhwystra fel costau uniongyrchol, oni fyddent yn bodloni'r holl reolau ac amodau cyffredinol, e.e. yn amlwg yn angenrheidiol er mwyn i'ch prosiect fynd yn ei flaen yn y modd y disgrifir yn y cais am gyllid; yn rhoi gwerth am arian wrth ddefnyddio cyllid UE; ac yn dod ynghyd â dogfennau ategol a thrywyddau archwilio cyflawn.

Rhaid gwahaniaethu yn eglur bob amser rhwng 'costau uniongyrchol' a 'chostau anuniongyrchol' yn y gyllideb ragolygol a'r proffil cyflenwi a gytunir ac yn yr hawliadau gwariant dilynol.

Bydd 'costau anuniongyrchol' nodweddiadol yn codi o'r canlynol:

- Staff anuniongyrchol (gwasanaethau cyfrifyddu canolog, cymorth clerigol cyffredinol, gwasanaethau gwarchodol/ archifo, gwasanaethau cwsmeriaid corfforaethol, uwch-reolwyr/ swyddogion gweithredol/ cyfarwyddwyr nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect ond sydd â chyfrifoldebau goruchwyliol a llywodraethol;
- Cyflenwadau corfforaethol cyffredinol (dodrefn, deunyddiau traul, deunyddiau swyddfa, llungopïo);
- Rhent swyddfa mewn gweithleoedd a rennir;

- Rhentu neu brydlesu deunyddiau neu gyfarpar (nas defnyddir gan y prosiect UE yn unig);
- Cyfleustodau (trydan, gwresogi, gŵr, draenio);
- Cynnal, glanhau, atgyweirio, gwasanaethau diogelwch;
- Systemau TGCh, WIFI a chysylltiadau band eang;
- Cyfathrebu (ffôn, ffacs, rhyngrwyd, gwasanaethau post, cardiau busnes);
- Yswiriannau cyffredinol (yswiriant eiddo, atebolrwydd cyhoeddus, bywyd ac ati);

### 17.4 Cwestiynau ac atebion: Gwahaniaethu rhwng cost uniongyrchol ac anuniongyrchol

**C: A yw costau rhedeg gweinyddol cyffredinol y buddiolwr/ costau sefydliadol/ costau safle, bob amser yn gostau 'anuniongyrchol'?**

A: Nac ydynt. Gall y costau hyn fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn unol â'r diffiniadau uchod; mae'r ateb, felly, yn amrywio o achos i achos, ac yn dibynnu ar y trefniadau ym mhob gweithrediad/ prosiect unigol.

Byddai treuliau gweinyddol yn 'anuniongyrchol' pa na bai'n bosibl adnabod yr union swm y gellid ei briodoli i'r prosiect(au) UE. Enghreifftiau o hynny fyddai 'gwasanaethau canolog' megis: recriwtio/ cymorth adnoddau dynol, WIFI/ band eang; gwasanaethau cyfrifyddu cyffredinol; rheolwyr cyffredinol corfforaethol; glanhau; diogelwch; cyfleusterau teleffoni, TGCh; costau dŵr neu drydan ac ati.

Ar y llaw arall, byddai'n bosibl i bob un o'r costau hyn fod yn gostau 'uniongyrchol' pe byddai'r gwasanaethau/ nwyddau yn cael eu darparu ar gyfer y prosiect(au) UE <u>yn unig</u> gan ddarparu trywyddau archwilio hyd at yr anfonebau a thystiolaeth o'r taliadau ac ati.

**C: A yw biliau rhent, ardrethi a chyfleustodau yn 'gostau anuniongyrchol'?**
A: Yr un yw'r ateb i'r cwestiwn hwn ac i'r cwestiwn blaenorol.

Os y prosiect(au) UE yn unig sy'n defnyddio'r adeilad neu'r gofod a rentir, gellid priodoli'r costau hyn yn uniongyrchol i'r prosiect(au) UE (fel costau uniongyrchol).

Byddai'r costau hyn yn 'anuniongyrchol' pe na ellid pennu'r union symiau sy'n briodoladwy i, neu a ddefnyddir gan, y prosiect(au) UE. Pan fo'r buddiolwr yn defnyddio system 'godi-tâl' dybiannol neu ddull cyffelyb arall o ddosrannu costau a rennir, mae hynny'n arwydd bod y costau dan sylw yn rhai 'anuniongyrchol'.

**C: A yw costau a 'ddosrennir' yn 'gostau anuniongyrchol'?**
Mae costau a ddosrennir yn gostau anuniongyrchol.

At ddibenion y rheolau hyn, mae 'costau a ddosrennir/ ddosrannwyd' yn cyfeirio at amgylchiad pan fo sefydliad yn defnyddio methodoleg fympwyol i benderfynu pa

symiau i’w codi ar brosiectau/ adrannau i alluogi’r sefydliad i adennill y costau a dalwyd allan mewn gwirionedd. Dewisir ysgogydd cost addas (e.e. oriau staff; nifer y troedfeddi sgwâr o ofod a ddefnyddir; cyfrif pennau) fel sail ar gyfer rhannu’r costau rhwng y rhai sy’n cael budd ohonynt.

# RHAN 4: GWEITHGAREDDAU CYMWYS A LLEOLIAD GWEITHGAREDDAU

## 18. Gweithgareddau cymwys

Gellir cynorthwyo gweithgareddau a fydd wedi eu hasesu a'u cytuno gennym ni wrth wneud ein penderfyniad dyfarnu cyllid, sef naill ai yn ystod y penderfyniad cyllido dechreuol neu ddiwygiad diweddarach.

Yn ychwanegol, mae'r Rheoliad ERDF, sef EU 1301/2013, yn pennu bod yn rhaid i gwmpas y cymorth a roddir ddod o fewn un neu ragor o'r gweithgareddau a ddisgrifir yn Erthygl 3 o'r Rheoliad hwnnw. Yn ychwanegol, gellir defnyddio'r ERDF ar gyfer y blaenoriaethau buddsoddi a bennir yn Erthygl 7 o'r Rheoliad CTE, sef EU 1299/2013.

Byddwn yn asesu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau ERDF a CTE ac â'r Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am gyllid i ni.

**18.1 RHEOLAU AR GWMPAS YR ERDF**

Mae'r canlynol y tu allan i gwmpas yr ERDF ac ni chânt eu cynorthwyo:

77. Datgomisiynu neu adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear;

78. Buddsoddi i sicrhau'r gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau o dan Atodiad I i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/87/CE;

79. Gweithgynhyrchu, prosesu a marchnata tybaco a chynhyrchion tybaco;

80. 'Cwmnïau mewn trafferthion' fel y'u diffinnir o dan reolau cymorth gwladwriaethol yr UE. **Noder**: o 24 Ebrill 2020 ymlaen, ni fydd ymgymeriadau sy'n derbyn **cymorth de minimis** yn cael eu hystyried yn 'ymgymeriadau mewn trafferthion' at ddibenion derbyn cymorth ERDF. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymgymeriadau a aeth i drafferthion o ganlyniad i'r achosion o COVID-19 ac sydd wedi cael cymorth sy'n cydymffurfio â **Fframwaith Dros Dro COVID 19 ar gyfer mesurau Cymorth Gwladwriaethol** (gweler atodiad F, cwestiwn 11 am fwy o fanylion)

81. Seilwaith maes awyr <u>oni fydd yn</u> ymwneud â diogelu'r amgylchedd neu'n cyd-ddigwydd â'r buddsoddiadau sydd eu hangen i liniaru neu leihau ei effaith amgylcheddol negyddol.

Yn ychwanegol at y rheolau rheoleiddiol uchod, ni fydd costau prosiect yn gymwys oni fyddant yn ymwneud â chyflawni prosiect cymwys a gweithgareddau cymwys.

Mae prosiectau yn gymwys os eu nod yw cyflenwi'r blaenoriaethau a'r amcanion a gytunwyd rhyngom ni a'r CE yn y Rhaglen Gydweithredu. Byddwn yn gwirio hyn cyn dyfarnu cyllid i chi, ar sail yr wybodaeth yn eich cais am gyllid. Un o amodau eich

cyllid yw eich bod yn ein hysbysu ni ynghylch unrhyw newidiadau yn y prosiect, fel y gallwn wirio ei fod yn parhau'n gymwys ar gyfer cymorth.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i'ch cynlluniau ar gyfer cyrraedd amcanion y prosiect ('gweithgareddau', 'gweithredoedd') gael eu cymeradwyo gennym ni i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae’r rheolau cyffredinol canlynol yn gymwys:

**18.2 RHEOLAU AR WEITHGAREDDAU CYMWYS**

82. Mae potensial i bob BBaCh yn y sectorau bwyd-amaeth, morol a physgodfeydd fanteisio ar gymorth perthnasol gan ERDF. Ym mhob achos, mae’r dull a fabwysiedir yn allgáu cymorth ERDF ar gyfer **cynhyrchu amaethyddol cynradd** fel y’i diffinnir yn y Cytuniadau UE a’r ddeddfwriaeth gysylltiedig ar gymorth gwladwriaethol. Pan fo posibilrwydd y gall gweithgareddau gael cymorth o fwy nag un o’r rhaglenni UE, byddwn yn eich cyfeirio at y gronfa berthnasol os bydd unrhyw ansicrwydd.

83. Ni allwn gyllido gweinyddiaethau cyhoeddus i’w helpu i gyflenwi gwasanaethau sy’n rhan o’u cyfrifoldeb neu’u ddyletswydd statudol arferol, er enghraifft i ddarparu addysg statudol i blant mewn oedran ysgol; gwasanaethau iechyd sylfaenol; parciau neu lyfrgelloedd cyhoeddus.

84. Nod yr ERDF yw darparu gwerth ychwanegol na ellid ei ddarparu gan yr Aelod-wladwriaeth yn gweithredu ar ei phen ei hunan; ac felly ni ellir defnyddio ERDF i gymryd lle rhaglenni cyllid cyhoeddus presennol neu arfaethedig.

85. Ni all yr ERDF ddisodli arian cyfatebol cenedlaethol neu ranbarthol, cyhoeddus na phreifat, ar gyfer prosiectau/ rhaglenni UE a reolir yn uniongyrchol gan y CE. Yn yr un modd, ni all prosiectau/ rhaglenni UE a reolir yn uniongyrchol gan y CE ddisodli arian cyfatebol cenedlaethol neu ranbarthol, cyhoeddus na phreifat, ar gyfer gweithrediadau ERDF.

## 19. Cymhwystra daearyddol

Rhaid i leoliad y partner/ buddiolwr arweiniol fod o fewn ardal y rhaglen Iwerddon Cymru fel y’i pennir yn nogfen y Rhaglen Gydweithredu.

Disgwyliwn hefyd i **gyd-fuddiolwyr** fod wedi eu lleoli o fewn ardal y rhaglen ac i’r **holl weithgareddau gael eu cyflawni o fewn ardal y rhaglen**, ond gellir ystyried eithriadau mewn achosion unigol os oes cyfiawnhad addas.

**19.1 RHEOLAU**

86. mae’n rhaid i’r buddiolwr arweiniol fod wedi ei leoli o fewn ardal y rhaglen Iwerddon Cymru. Penderfynir hynny gan gyfeiriad safle/ swyddfa staff y buddiolwr arweiniol sy’n gweithio ar y gweithrediad Iwerddon Cymru.

87. Gallwn hefyd ystyried cynorthwyo gweithrediad, neu ran o weithrediad, a gyflawnir **y tu allan i ardal y rhaglen** os bodlonir pob un o’r amodau canlynol:

88. Bod y gweithgaredd ‘allan o’r ardal’ er budd ardal y rhaglen Iwerddon Cymru.

89. Mai cyflawni'r gweithgareddau y tu allan i ardal y rhaglen yw'r ffordd orau – neu'r unig ffordd – o sicrhau'r budd gorau i ranbarth y rhaglen.

Bod y gweithredu yn digwydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

90. Y gall WEFO gyflawni'r swyddogaethau o reoli, gweithredu rheolaethau ac archwilio mewn perthynas â'r gweithgaredd 'allan o'r ardal' NEU y gall ddod i gytundebau gydag awdurdodau mewn Aelod-wladwriaethau eraill yn yr UE, i gyflawni'r gwaith hwnnw ar ran WEFO.

91. Os yw eich gweithrediad yn cael cymorth i ymgymryd â gweithgareddau cymorth technegol neu hyrwyddo a meithrin gallu, caiff y rhain ddigwydd y tu allan i'r UE os yw hynny o fudd i ardal y rhaglen. Mae'n rhaid ichi ofyn am ein cymeradwyaeth ni ymlaen llaw ar gyfer y math hwn o wariant, fel y gallwn gadarnhau ei fod yn angenrheidiol a bod trefniadau digonol wedi eu gwneud ar gyfer rheoli, gweithredu rheolaethau ac archwilio. Dylid dehongli 'gweithgareddau hyrwyddo' i olygu gweithgareddau sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a lledaenu gwybodaeth, er enghraifft ynglŷn â chyfleoedd busnes a throsglwyddo gwybodaeth mewn ffeiriau masnach.

92. Os rhan yn unig o'ch gweithrediad a gyflawnir y tu allan i ardal y rhaglen (e.e. un prosiect, neu weithgareddau/ tasgau penodedig), bydd angen ichi roi cyfrif am y gweithgareddau a'r costau sy'n gysylltiedig â'r elfen 'allan o'r ardal' ac adrodd ynghylch hynny wrthym ni yn eich hawliad tâl

### 19.2 CANLLAWIAU

Sylwch, os gwelwch yn dda, mai cyfyngedig yw'r math hwn o hyblygrwydd, ac mae'n bosibl na fydd modd inni gynorthwyo eich gweithrediad hyd yn oed os bydd yn bodloni'r criteria uchod. Byddwn yn eich cynghori ynghylch hyn ar yr adeg y gwneir eich cais. Ni chaiff y cyfanswm a ddyrennir o dan y rhaglen ar gyfer gweithgareddau neu weithrediadau a gyflawnir y tu allan i'r ardal fynd uwchlaw 20% o'r cymorth o'r ERDF ar lefel y rhaglen.

Os daw'n amlwg bod buddion yn crynhoi i ardaloedd, rhanbarthau neu wledydd eraill yn yr UE – yn hytrach nag i ardal y rhaglen sy'n darparu'r cyllid yn unig – bydd angen canfod pa ganran o'r buddion *pro rata* sy'n briodoladwy i ardal y rhaglen.  Wedyn bydd y costau cymwys ar gyfer y gweithgareddau yn cael eu cyfyngu i'r ganran a gytunir. Os yw hyn yn berthnasol i'ch gweithrediad chi dylech gysylltu â ni, os gwelwch yn dda, i drafod sail addas ar gyfer y dosraniad.

Yn achos buddsoddiadau ffisegol/ cyffwrddadwy/ cynhyrchiol, bydd lleoliad y prosiect yn amlwg (sef lleoliad yr asedau neu'r gweithgarwch cynhyrchu). Mewn achosion eraill, gellir penderfynu 'lleoliad y gweithrediad' ar sail lleoliad y gweithgareddau a gynorthwyir, neu trwy ganfod ym mhle y defnyddir canlyniadau'r gweithgareddau hynny. Gall yr olaf fod yn wir yn achos gweithrediadau ymchwil a datblygu, pan fo rhai gweithgareddau o bosibl yn

cynnwys gwaith a wneir mewn rhanbarthau neu wledydd eraill, ond bod canlyniadau'r gwaith yn cael eu defnyddio/datblygu yn gyfan gwbl gan ranbarth y rhaglen. Mae hyn yn berthnasol hefyd yn achos teithiau astudio.

Nid yw lleoliad swyddfeydd corfforaethol neu weinyddol, gan gynnwys lleoliad rheolwyr a thimau gweinyddol y prosiect UE – yn ei hun – yn ffactor sy'n penderfynu'r cymhwystra daearyddol.

Yn olaf, yn ychwanegol at y rheolau a nodir uchod, cofiwch y bydd yn rhaid ichi hefyd gydymffurfio ag unrhyw reolau cymhwystra daearyddol a sefydlwyd yn eich cynllun busnes a gytunwyd, neu sy'n deillio o unrhyw reolau cymorth gwladwriaethol.

# RHAN 5: AMODAU CYLLIDO ERAILL

## 20. Refeniw

Rhaid i grantiau UE beidio â bod â'r bwriad, na chael yr effaith, o gynhyrchu elw o fewn fframwaith y gweithredoedd a gynorthwyir gan yr ERDF (yr 'egwyddor dim elw'). Os gwneir elw neu warged, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ganran ohono – sy'n cyfateb i gyfraniad yr UE tuag at y costau cymwys, a arweiniodd at gynhyrchu'r elw – gael ei ddychwelyd; mae hynny'n dibynnu ar ba un a gynhyrchwyd y refeniw yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect neu'r cyfnod ymelwa ar ôl cyflawni'r prosiect.

### 20.1 Diffiniadau

Ystyr refeniw yw mewnlifiadau o arian a delir yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr am y nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarperir gan y gweithrediad/ prosiect:

- Cyfraniadau gan ddefnyddwyr terfynol unrhyw seilwaith a adeiladwyd gan y gweithrediad (tariffau, ffioedd, tâl a godir ar ddefnyddwyr).
- Incwm o werthu ar y farchnad gynhyrchion, neu sgil-gynhyrchion, y gweithrediad.
- Incwm o werthu gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect e.e. ffioedd ymaelodi neu dderbyniadau cyffelyb a gynhyrchir yn uniongyrchol gan y gweithrediad.
- Incwm o werthu tir ac adeiladau a adferwyd neu a adeiladwyd gan y gweithrediad.
- Incwm o osod ar rent unrhyw dir ac adeiladau a adferwyd neu a adeiladwyd gan y gweithrediad.

**Nid refeniw** yw'r canlynol:

- Derbyniadau grant UE.
- Cyfraniadau mewn cynnyrch.
- Arian cyfatebol lle caiff swm y 'refeniw net' (gweler y diffiniad isod) ei gynhyrchu yn ystod y gwaith o weithredu'r prosiect. Ni ellir defnyddio'r swm 'refeniw net' fel cyllid cyfatebol a rhaid ei ddatgan wrth WEFO
- Nid ystyrir mai refeniw yw taliadau a dderbyniwch sy'n deillio o amod contractiol ynghylch torri contract rhyngoch chi a thrydydd parti (h.y. cosbau contractiol) neu o ganlyniad i dynnu cynnig yn ôl gan drydydd parti a ddewiswyd o dan reolau caffel cyhoeddus (e.e. fforffedu blaendal); ac felly nid oes angen eu didynnu o'ch gwariant cymwys (gallwch gadw 100% o'r cyfryw dderbyniadau).

Ystyr costau gweithredu yw costau a dynnir yn rheolaidd ar gyfer gweithredu a chynnal yr asedau a grëwyd gan y prosiect yn ystod y cyfnod sy'n cyfateb i'r cyfnod cynhyrchu refeniw. Mae hyn yn cynnwys costau amnewid cyfarpar byrhoedlog. Gall costau gweithredu fod yn gostau sefydlog (staff, cynnal ac atgyweirio, rheolaeth

gyffredinol a gweinyddu, yswiriant) neu amrywiol (y defnydd o ddeunyddiau crai, ynni, deunyddiau traul).

Ystyr arbedion cost(au) gweithredu yw mewnlifiadau arian net a achosir gan ostyngiadau yn y costau gweithredu o ganlyniad i gyflawni prosiect. Trinnir y rhain yn yr un modd 'refeniw'.

Noder: Ni fydd arbedion costau gweithredu sy'n codi o ganlyniad i roi mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith ac sy'n digwydd ar ôl cwblhau prosiect bellach yn cael eu trin fel refeniw net.

Ystyr refeniw net yw Refeniw **plws** Arbedion Cost Gweithredu **llai** Costau Gweithredu. Gellir hepgor yr Arbedion Cost Gweithredu os gwrthbwysir hwy gan ostyngiad cyfartal mewn cymorthdaliadau gweithredu (ac nad ydynt, o ganlyniad, yn fudd ariannol net). Bydd angen i chi ddarparu manylion cyfanswm y refeniw a gynhyrchir gan y prosiect yn ystod y gwaith o'i weithredu. Bydd hyn yn galluogi WEFO i gyfrifo faint o gyfanswm y refeniw sydd wedi cael ei ddefnyddio i dalu'r costau gweithredu, ac felly beth yw'r swm 'refeniw net' cywir sy'n gymwys i'ch prosiect.

Bydd y rheolau sydd i'w dilyn yn dibynnu ar y math o weithrediad a'i natur. Byddwn yn rhoi gwybod ichi yn eich cytundeb cyllid grant pa reolau a fydd yn berthnasol i'ch gweithrediad chi:

| | |
|---|---|
| • Pan fo'r gweithrediad yn bodloni'r diffiniad o 'brosiect sy'n cynhyrchu refeniw'<br>• Ni ddarperir canran safonol gan y CE – na chan WEFO/ nid yw'r buddiolwr yn dymuno defnyddio cyfradd safonol.<br>• Gellir rhagweld y refeniwiau yn y dyfodol yn wrthrychol pan gyflwynir cais am gyllid/ yn ystod y cyfnod arfarnu. | **Rheol A** |
| • Pan fo'r gweithrediad yn bodloni'r diffiniad o 'brosiect sy'n cynhyrchu refeniw'<br>• Ni ddarperir canran safonol gan y CE – na chan WEFO/ nid yw'r buddiolwr yn dymuno defnyddio cyfradd safonol.<br>• Ni ellir rhagweld y refeniwiau yn y dyfodol yn wrthrychol | **Rheol B** |
| • Pan fo'r gweithrediad yn bodloni'r diffiniad o 'brosiect sy'n cynhyrchu refeniw'<br>• Darperir amcangyfrif o'r refeniw fel canran safonol gan y CE.<br>• Mae WEFO a'r buddiolwr yn cytuno bod y dull cyfradd-safonol yn addas.. | **Rheol C** |
| • Pan nad yw'r gweithrediad yn bodloni'r diffiniad o 'brosiect sy'n cynhyrchu refeniw' ond er hynny yn cynhyrchu incwm. | **Rheol D** |

### 20.1.1 Diffiniad o 'Brosiect Sy'n Cynhyrchu Refeniw' (PCR)

Gweithrediadau yw'r rhain sy'n bodloni YR HOLL griteria canlynol:

- Eich disgwyliad yw cynhyrchu refeniwiau net **y tu hwnt i ddyddiad cwblhau** eich gweithrediad (sef yn ystod y cyfnod ymelwa).
- **Nid** yw'r gweithrediad yn **ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol**.

Ar yr adeg y gwneir y penderfyniad i gymeradwyo'r cyllid, rhagwelir y bydd y **costau cymwys yn fwy nag €1 miliwn**.

Mewn geiriau eraill, nid PCR yw'r gweithrediad os yw'n ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol; neu os na ddisgwylir iddo gynhyrchu refeniwiau net y tu hwnt i'w gwblhau; neu os yw cyfanswm ei gostau cymwys islaw €1m.

Bydd y gweithrediad yn esempt hefyd rhag ei ddosbarthu fel PCR os bwriedwch gael eich ad-dalu ar sail costau unedol neu gyfandaliadau – yn hytrach na chostau real – ac os cymerwyd y refeniw disgwyliedig llawn i ystyriaeth pan gytunwyd ar y costau unedol/ cyfandaliadau.

<u>Cymorth Gwladwriaethol</u>

Ni ddosberthir gweithrediadau fel PCR os ydynt yn ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol. Er mwyn eglurder, ystyr hynny yw cymorth cyhoeddus sy'n cwmpasu:

- Cymorth gwladwriaethol de minimis.
- Cymorth gwladwriaethol cydweddol i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh), pan osodir terfyn ar ddwysedd y cymorth neu ar swm y cymorth gwladwriaethol.
- Cymorth gwladwriaethol cydweddol, pan fo dilysiad unigol o'r anghenion cyllido wedi ei gwblhau yn unol â'r rheolau cymorth gwladwriaethol cymwysadwy.

### 20.1.2 Rheol A

O dan y rheol hon mae'n ofynnol **dadansoddi'r bwlch cyllido** dros oes economaidd lawn y buddsoddiad. Bydd y cyfrifiadau yn ymwneud â refeniw sy'n briodoladwy yn uniongyrchol i'r gweithredoedd a gyllidir yn unig – ni chynhwysir refeniw o weithgareddau nas cyllidir gan yr UE nac o wariant anghymwys neu weithgaredd anghymwys.

Nid ystyrir unrhyw lifoedd arian refeniw ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â pherchennog a/neu weithredwr y prosiect yn unig (h.y. yr endid neu'r endidau sy'n rhoi'r prosiect ar waith). Os nad yr un endid cyfreithiol yw'r perchennog a'r gweithredwr, cyfrifir cyfanswm y refeniw cyfunol, ond gan hepgor unrhyw lifoedd arian rhwng y perchennog a'r gweithredwr.

Llifoedd arian ‘cynyddrannol’ yn unig a ystyrir, h.y. y costau a’r buddion ychwanegol a ysgogir, o gymharu â’r hyn a fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y prosiect.

Os dosberthir eich prosiect fel PCR, caiff y **cymorth cyllid UE a gynllunnir ei addasu ymlaen llaw trwy** ystyried potensial y prosiect i gynhyrchu refeniw net dros gyfnod cyfeirio penodedig, a fydd yn cwmpasu cyfnod cyflawni’r prosiect **yn ogystal â chyfnod y tu hwnt i gwblhau’r prosiect**.

Penderfynir ar botensial eich prosiect i gynhyrchu refeniw net ymlaen llaw trwy amcangyfrif beth fydd maint bwlch cyllido eich prosiect yn y pen draw, h.y. faint o gymorth ERDF sydd ei angen, o ystyried y refeniw y disgwylir i’r prosiect ei gynhyrchu.

Cyfrifo refeniw net gostyngol y prosiect, gan gymryd i ystyriaeth:

- y cyfnod cyfeirio priodol i’r sector neu’r is-sector sy’n gymwysadwy i’r prosiect
- y proffidioldeb arferol a ddisgwylir gan y categori o fuddsoddiad dan sylw
- cymhwyso’r egwyddor y dylai’r llygrwr dalu
- ystyriaethau tegwch sy’n gysylltiedig â ffyniant cymharol yr Aelod-wladwriaeth neu’r rhanbarth perthnasol.

Pan ddefnyddir y dull hwn, mae’n rhaid datgan hefyd, a didynnu o wariant cymwys y prosiect ddim hwyrach na’ch hawliad tâl terfynol, y refeniw net a gynhyrchir yn ystod cyflawni’r prosiect sy’n deillio o ffynonellau refeniw nas ystyrir wrth benderfynu’r potensial am refeniw net.

Pan nad yw holl gost y buddsoddiad yn gymwys ar gyfer cyllid UE, gellir dosrannu’r refeniw net *pro rata* rhwng y rhannau cymwys ac anghymwys o gost y prosiect.

Pennir y fethodoleg gyflawn ar gyfer cyfrifo refeniw net gostyngol gweithrediadau sy’n cynhyrchu refeniw net yn Rheoliad EU 480/2014, Erthyglau 16-19.

| |
|---|
| Mae’r cyfrifiadau sy’n ofynnol yn rhai cymhleth ac yn galw am gynefindra â nifer o gysyniadau ariannol a chyfrifyddol. Byddwn yn eich tywys chi trwy’r broses ac yn darparu cyfarwyddiadau manwl. |

**20.1.3 Rheol B**

Os oes gennych brosiect cynhyrchu refeniw a lle nad yw'n bosibl yn wrthrychol pennu'r refeniw yn y dyfodol ymlaen llaw, bydd angen i’r refeniw net a gynhyrchir o fewn tair blynedd i gwblhau eich gweithrediad, neu tan o leiaf 31 Gorffennaf 2025 (oni bai bod dyddiad cynharach wedi'i gadarnhau fel arall yn ysgrifenedig, gennym ni), pa un bynnag sydd gynharaf, gael ei ddidynnu o wariant cymwys. Rhaid i chi ein hysbysu o'r holl refeniw net a gynhyrchir ar ôl cyflwyno'ch hawliad ar gyfer taliad terfynol tan y cyfnod o dair blynedd, neu (i) tan o leiaf 31 Gorffennaf 2025 neu (ii) oni bai bod dyddiad cynharach yn cael ei gadarnhau fel arall yn ysgrifenedig gennym ni, wedi dod i ben. Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion o unrhyw refeniw a gynhyrchir o

gyfnod eich cais diwethaf hyd nes y byddwch yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig pellach gennym ni.

### 20.1.4 Rheol C

Fel dull symlach, gallwn gytuno i ddefnyddio canran refeniw net safonol ar gyfer y sector neu'r is-sector sy'n gymwysadwy i'r prosiect, fel a ganlyn:

| Sector | | Cyfraddau safonol |
|---|---|---|
| 1 | **FFYRDD** | 30% |
| 2 | **RHEILFFYRDD** | 20% |
| 3 | **TRAFNIDIAETH DREFOL** | 20% |
| 4 | **DŴR** | 25% |
| 5 | **GWASTRAFF SOLET** | 20% |

***Ffynhonnell**: EU 1303/2013, Atodiad V*

Pennir y cymorth ERDF ymlaen llaw wedyn, trwy addasu'r costau cymwys rhagolygol gan ddefnyddio'r fformiwla:

**Cymorth ERDF = Costau Cymwys * (1 – % safonol) * % ymyrraeth grant**

<u>Enghraifft</u>

Prosiect rheilffordd sydd â chostau cymwys o €2m a chyfradd ymyrraeth grant o 50%:

Cymorth ERDF = Costau Cymwys * (1 – % safonol) * % ymyrraeth grant

Cymorth ERDF = €2m * (1-0.20) * 0.50

Cymorth ERDF = €2m * 0.80 * 0.50

Cymorth ERDF = €1,6m * 0.50

Cymorth ERDF = €800,000

Cyn y cyfrifiad o'r refeniw a gynhyrchir, byddai'r prosiect wedi cael €1m o gymorth ERDF (sef y costau cymwys * 50%). Effaith yr addasiad cyfradd safonol yw gostwng y gwariant cymwys €400k ac felly gostwng y cymorth ERDF €200k. Parheir i gofnodi costau cymwys y prosiect fel €2m (nid €1.6m) ac mae arian cyfatebol yn ofynnol ar gyfer €1m (nid €1.2m).

Nid oes raid i'r prosiect roi cyfrif am y bwlch cyllido ymddangosiadol o €200k – sef costau cymwys o €2m llai €1.8m a dderbynnir o'r UE a'r arian cyfatebol – rhagdybir y bydd refeniw yn y dyfodol yn cau'r bwlch hwnnw, er na fydd WEFO na'r CE yn monitro hynny.

Er mwyn eglurder, pan ddefnyddir dull y gyfradd safonol, ystyrir bod yr **holl** refeniw net a gynhyrchir mewn gwirionedd, yn ystod cyflawni'r prosiect a thu hwnt yn ystod y cyfnod o elwa ar y buddsoddiad, **wedi ei ystyried a'i setlo** trwy ddefnyddio'r gyfradd safonol, ac felly ni chaiff ei ddidynnu wedyn o'r gwariant cymwys.

#### 20.1.5 Rheol D

Os nad PCR yw eich prosiect ond bod gweithgareddau'r prosiect, serch hynny, yn cynhyrchu refeniw yn uniongyrchol yn ystod ei gyfnod cyflawni, **mae'n rhaid lleihau / gwrthbwyso costau cymwys eich prosiect gyda swm y refeniw net a dderbynnir** a bydd hynny'n lleihau swm y grant UE sy'n daladwy.

Nid ystyrir bod unrhyw daliad a dderbyniwch, sy'n deilio o amod contractiol, neu doriad o gontract rhyngoch chi a thrydydd parti (h.y. cosbau contractiol) neu o ganlyniad i dynnu cynnig yn ôl gan drydydd parti a ddewiswyd o dan reolau caffel cyhoeddus (e.e. fforffedu blaendal); ac felly nid os angen eu didynnu o'ch gwariant cymwys (gallwch gadw'r holl dderbyniadau o'r fath).

Dylech roi gwybod inni am unrhyw dderbyniadau o'r fath cyn gynted ag y bo modd, a dim hwyrach na'r hawliad tâl olaf y byddwch yn ei gyflwyno i ni.

Os rhan yn unig o gyfanswm eich costau prosiect sy'n gostau cymwys, ni fydd angen ichi ddefnyddio mwy na rhan o'r refeniw. Dylid dosrannu'r refeniw net *pro rata* rhwng y rhannau cymwys ac anghymwys o'r cyfanswm costau prosiect.

Am y refeniw a gynhyrchir **yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect yn unig** y bydd angen ichi roi gwybod inni – ni fydd angen rhoi gwybod am refeniw a gynhyrchir y tu hwnt i gyfnod cyflawni eich prosiect.

## 21. Arian cyfatebol

Er y bydd modd i'r ERDF gynorthwyo cyfran sylweddol o'ch costau cymwys, fel rheol bydd angen i chi hefyd gyfrannu cyfran o'r costau neu gael cyllid o ffynonellau eraill, gan ddarparwyr eraill sydd hefyd yn barod i ddarparu cymorth ariannol. Cyfeirir at hyn fel arian cyfatebol (neu weithiau fel 'cyd-ariannu' neu 'gyd-gyllido' cenedlaethol), sef cyfraniad at y costau cymwys i ategu'r cyfraniad o gyllid UE.

Byddwn yn cytuno gyda chi ar lefel briodol o arian cyfatebol, o fewn yr ystod a bennir yn y Rhaglen, gan barchu unrhyw gyfyngiadau cymwysadwy a osodir yn y rheolau cymorth gwladwriaethol.

Gall arian cyfatebol olygu un neu ragor o'r canlynol:

- Cyfraniad ariannol gan y buddiolwyr eu hunain (hunan-gyllido)
- Cyfraniadau ariannol gan drydydd partïon (derbyniadau o ffynonellau cyhoeddus a/neu preifat)
- Cyfraniadau mewn cynnyrch gan drydydd partïon (adnoddau anariannol sydd ar gael yn ddi-dâl i'r prosiect)

Rhaid i'r cyllid cyfatebol fod yn 'lân', hynny yw, heb ei ddatgan eisoes ar gyfer prosiectau eraill a gynorthwyir gan gyllid cyhoeddus Ewropeaidd neu genedlaethol, ac nid wedi tarddu o unrhyw ffynhonnell gyllid UE.

Ni chewch ddefnyddio cyllid UE fe arian cyfatebol ar gyfer eich prosiect – mae'n rhaid i gyllid UE gael ei gyd-ariannu gan gyllid cenedlaethol neu ranbarthol, cyhoeddus neu breifat. Golyga hyn, er enghraifft, na ellir defnyddio cyllid o raglen UE arall, megis Horizon 2020, i ddarparu'r cyfraniad cenedlaethol gofynnol i'r gweithrediad CTE.

Fel arfer fodd bynnag, gellir defnyddio arian a fenthycir gan Grŵp y Banc Buddsoddi Ewropeaidd (EIB ac EIF) i ariannu'r cyfraniad cenedlaethol neu ranbarthol i brosiect o dan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ERDF).

Byddwn yn edrych ar eich cynigion ar gyfer arian cyfatebol wrth asesu eich cais am gyllid. Mae'n rhaid ichi roi gwybod inni os bydd swm neu ffynhonnell yr arian cyfatebol yn newid yn ddiweddarach yn ystod cyflawniad y prosiect.

Er mwyn eglurder, nid yw'r canlynol yn arian cyfatebol:

- Refeniw/ incwm a gynhyrchir gan brosiect – gweler Adran 20.
- 'Arian-yn-ôl', nodiadau credyd neu ad-daliadau gan gyflenwyr, darparwyr gwasanaethau neu gontractwyr.
- Cyfraniadau ariannol gan drydydd partïon i gyllido costau anghymwys.

## 22. Cyhoeddusrwydd a gwelededd cyllid UE

Darperir cyllid UE ar yr amod bod buddiolwyr yn cymryd y camau angenrheidiol i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd a chyfathrebu â'r cyhoedd ynglŷn â'r cymorth a ddarperir gan yr UE.

Wrth gyflawni gweithrediad a thrwy gyfrwng ei gyfleusterau gwybodaeth a chyfathrebu, mae'n rhaid i'r buddiolwr roi gwybod i'r cyhoedd, y staff a'r cyfranogwyr am y cymorth ERDF a dderbynnir.

Rhaid i fuddiolwyr hefyd gynnwys darpariaethau tebyg yn eu trefniadau contractiol gyda darparwyr / contractwyr er mwyn lledaenu'r wybodaeth am gyfraniad y cyllid UE mor eang ag y modd.

Bydd canfod tystiolaeth i ddangos bod y trefniadau canlynol wedi eu cyflawni yn rhan annatod o'r dilysiadau, ymweliadau archwilio ac adolygiadau o'r prosiectau.

Rhaid i'r buddiolwr ganiatáu cyhoeddi manylion sylfaenol (h.y. enw'r buddiolwr, enw a lleoliad y prosiect, swm y cyllid UE a delir erbyn cwblhau'r prosiect, y targedau allbwn a'r canlyniadau) gan WEFO (yn electronig neu fel arall).

### 22.1 Defnyddio'r Logo a chyfeirio at y Gronfa

- Rhaid i'r holl weithgareddau gwybodaeth a chyfathrebu (e.e. hysbysiadau i'r wasg, dogfennau, cyfryngau gwe/ cymdeithasol/ digidol, digwyddiadau, eitemau hyrwyddo ac ati) a ymgymerir gan y buddiolwr, gydnabod y cymorth a roddir i'r gweithrediad gan yr ERDF, trwy arddangos:
    - logo'r **rhaglen** Iwerddon Cymru.
    - logo'r **gronfa** ERDF sydd ar gael gan WEFO, a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio â'r nodweddion technegol (safonau graffig a diffiniad o'r lliwiau safonol) a bennir yng Nghanllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd WEFO.
    - cyfeiriad at **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**. Nid oes raid cyfeirio at y Gronfa ar wrthrychau hyrwyddo bychain.

- Rhaid arddangos logo'r Gronfa mewn lliw bob amser ar wefannau. Dylid arddangos y logo mewn lliw ym mhob cyfrwng arall hefyd, ond caniateir defnyddio fersiwn unlliw mewn achosion y gellir eu cyfiawnhau. Dylai buddiolwyr gysylltu â WEFO os na allant gyhoeddi emblem lliw.

- Dylai logo'r Gronfa fod yn eglur a gweladwy, wedi ei osod mewn lle amlwg ac o faint priodol o ystyried graddfa'r ddogfen neu'r deunydd a ddefnyddir.

- Pan fo mesur gwybodaeth neu gyfathrebu yn ymwneud â gweithrediad, neu nifer o weithrediadau, a gynorthwyir gan fwy nag un Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ERDF, ESF, EAFRD, EMFF), gellir gosod cyfeiriad at y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn lle'r cyfeiriad at Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ceir defnyddio hefyd y logo ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (sydd ar gael gan WEFO) pan fo'r buddiolwr yn derbyn cyllid gan ddwy neu ragor o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

- Os defnyddir logos eraill yn ogystal ar wefannau, dogfennau neu ddeunydd cyhoeddusrwydd arall, mae'n rhaid i logo'r Gronfa fod o'r un maint, o ran uchder neu led, â'r mwyaf o'r logos eraill.

### 22.2 Gwefannau

- Os oes gwefan gan fuddiolwr, mae'n rhaid i'r buddiolwr gyhoeddi disgrifiad cryno o'r gweithrediad, cymesur â lefel y cymorth, gan gynnwys ei nodau a'i ganlyniadau a chan dynnu sylw at y cymorth ariannol UE.

- Pan arddangosir logo'r Gronfa ar wefan buddiolwr:
    - Rhaid i logo'r Gronfa fod yn weladwy wrth lanio ar y wefan, ac o fewn y ffenestr archwilio ar ddyfais ddigidol, heb i'r defnyddiwr orfod sgrolio i lawr y dudalen.
    - Rhaid gwneud y cyfeiriad at y Gronfa yn weladwy ar yr un wefan.

### 22.3 Posteri, hysbysfyrddau a phlaciau

- Yn ystod cyfnod cyflawni gweithrediad, mae'n rhaid i'r buddiolwr osod o leiaf un **poster** mewn lleoliad amlwg a gweladwy i'r cyhoedd ac i gyfranogwyr, megis wrth fynedfa neu yn nerbynfa adeilad. Bydd WEFO yn darparu templed dylunio at ddibenion arfer gorau; ond dylai unrhyw boster fod o faint A3 o leiaf, a chynnwys enw'r gweithrediad; ei brif amcan; cydnabyddiaeth o gymorth ariannol ERDF, a'r datganiad: 'Cronfeydd UE: Buddsoddi [yn Iwerddon] / [yng Nghymru] *[dileer fel y bo'n briodol]*' ac enw a logo'r Gronfa briodol.

- Rhaid i'r buddiolwr hefyd arddangos plac coffaol parhaol (a gyflenwir gan WEFO yn ddi-dâl), a fydd yn dwyn logo'r Gronfa mewn man amlwg a gweladwy i'r cyhoedd, y staff a'r cyfranogwyr. Gweler **'diweddariad Mawrth 2023'** isod am ragor o fanylion.

- Pan fo unigolion a sefydliadau ac eithrio 'buddiolwyr', megis contractwyr a darparwyr gwasanaeth, yn cymryd rhan mewn gweithrediad ERDF, mae'n rhaid i'r buddiolwr sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan wedi cael gwybod bod y gweithrediad yn cael cymorth gan yr ERDF. Rhaid i unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â chyflawni'r gweithrediad ac a ddefnyddir ar gyfer y cyhoedd neu'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynorthwyir gan y gweithrediad, gan gynnwys unrhyw dystysgrif presenoldeb neu eitem gyffelyb, gynnwys datganiad i'r perwyl bod y rhaglen weithredol yn cael cymorth gan ERDF. Os yw'r ddogfen yn cynnwys logos eraill, mae'n rhaid defnyddio logo'r Gronfa yn ogystal.

- Yn ystod cyfnod cyflawni gweithrediad seilwaith neu adeiladu ERDF, a phan fo'r cymorth cyhoeddus yn fwy na €500,000, mae'n rhaid i'r buddiolwr godi hysbysfwrdd dros dro, o faint sylweddol mewn man sy'n weladwy yn hwylus i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i'r hysbysfwrdd gynnwys logo'r Gronfa, a fydd yn gorchuddio o leiaf 25% o arwynebedd yr hysbysfwrdd. Mae 'cymorth cyhoeddus' yn cynnwys cymorth gwladwriaethol a chymorth UE. Os yw eich gweithrediad yn defnyddio punnoedd Sterling, dim ond ar yr adeg y byddwn yn anfon eich llythyr cytuno i gyllido y caiff y gyfradd gyfnewid € ei asesu.

- Rhaid i'r buddiolwr, ddim hwyrach na thri mis ar ôl cwblhau gweithrediad seilwaith neu adeiladu ERDF, arddangos hysbysfwrdd parhaol o faint sylweddol mewn man sy'n weladwy yn hwylus i'r cyhoedd (darperir templed dylunio gan WEFO). Gweler **'diweddariad Mawrth 2023'** isod am ragor o fanylion.

**Diweddariad Mawrth 2023:**

- plac coffaol parhaol – dim ond yn berthnasol i weithrediadau a gefnogir gan gyfalaf ERDF *(h.y. seilwaith neu adeiladu) lle mae cymorth cyhoeddus yn fwy na €500,000*. Yn ogystal, bydd gan fuddiolwr yr opsiwn i arddangos plac parhaol **<u>neu</u>** hysbysfwrdd ar ôl cwblhau'r gweithrediad ac erbyn dim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad hwn. Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd ac yn gyson â phwynt 5 o Atodiad XII o Reoliad EU 1303/ 2013.

Mae’n rhaid ichi gydymffurfio hefyd ag unrhyw amodau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth a chyfathrebu a bennir yn llythyr cytundeb cyllido WEFO ac yng Nghanllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd WEFO.

Cyflenwir logos y Gronfa a phlaciau coffaol gan WEFO. Mae’n rhaid i ddyluniad posteri, placiau eraill, hysbysfyrddau a deunyddiau eraill gael ei gytuno gyda WEFO ymlaen llaw er mwyn cydymffurfio â’r nodweddion technegol a bennir yn y Rheoliadau UE a Chanllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd WEFO.

Er mwyn eglurder, mae’r costau a dynnir wrth fodloni amodau cyhoeddusrwydd a gwybodaeth yn gostau cymwys (‘arbenigedd  gwasanaethu allanol’).

**Ffynhonnell / gwybodaeth bellach:** Rheoliad EU 1303/2013, Erthygl 115(3)

## 23. Rheolau parhauster

Os yw eich gweithrediad yn fuddsoddiad mewn seilwaith neu'n fuddsoddiad cynhyrchiol, bydd yn rhaid ad-dalu'r cyfraniad grant UE i ni os digwydd unrhyw un o'r canlynol, **o fewn pum mlynedd ar ôl ein taliad terfynol i chi** (neu o fewn y cyfnod a bennir yn y rheolau Cymorth Gwladwriaethol os yw'n hwy):

- Y gweithgaredd cynhyrchiol yn dod i ben.
- Adleoli'r gweithgaredd prosiect i le y tu allan i ranbarth y rhaglen gyllido a ddarparodd y cymorth ERDF (mae adleoli i ran arall o ranbarth y rhaglen yn dderbyniol, ond byddai'n rhaid i chi ein hysbysu ni o hynny).
- Newid ym mherchnogaeth eitem o seilwaith sy'n rhoi mantais amhriodol i gwmni neu gorff cyhoeddus.
- Newid sylweddol sy'n effeithio ar natur, amcanion neu amodau cyflawni gweithrediad a fyddai'n arwain at danseilio ei amcanion gwreiddiol.

Buddsoddiadau cynhyrchiol yw buddsoddiadau a wneir i gynyddu galluoedd cynhyrchiol menter.

Os digwydd un o'r amgylchiadau uchod, mae'n rhaid ichi roi gwybod i ni, a byddwn yn adennill y cyfraniad UE yn gymesur â hyd y cyfnod pan na fodlonid y gofynion, h.y. ar raddfa symudol o 100% i 0% dros y cyfnod o bum mlynedd.

Mewn achosion sy'n ymwneud â buddsoddiadau neu greu swyddi gan BBaCh, gallwn benderfynu lleihau'r terfyn amser o bump **i dair blynedd**, oni fydd rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn gorfodi cyfnod hwy.

Pan nad yw'r buddiolwr yn BBaCh, mae'n rhaid i'r buddiolwr hefyd ad-dalu'r cyfraniad UE os adleolir y gweithgareddau cynhyrchiol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd o fewn **deng mlynedd** ar ôl y taliad terfynol (neu o fewn cyfnod a bennir yn y rheolau Cymorth Gwladwriaethol os ydynt yn gymwysadwy). Er mwyn eglurder, mae BBaChau yn esempt o'r rheol hon.

Mae'r canlynol wedi eu heithrio o'r rheolau parhauster:

- Mae prosiectau nad ydynt yn fuddsoddiadau mewn seilwaith nac yn fuddsoddiadau cynhyrchiol yn esempt o'r rheolau hyn (oni fydd y rheolau Cymorth Gwladwriaethol cymwysadwy yn gosod rhwymedigaeth i gynnal y buddsoddiad am gyfnod penodedig, a darfyddiad neu adleoliad y gweithgaredd cynhyrchiol yn digwydd o fewn y cyfnod hwnnw).

- Nid yw'r rheolau hyn yn gymwys i gyfraniadau i, neu gan, Offerynnau Ariannol.

- Mae gweithrediad sy'n terfynu gweithgaredd cynhyrchiol oherwydd methdaliad (annhwyllodrus) hefyd yn esempt.

[EU 1303/2013, Erthygl 71]

Asedau a ddelir ar ôl cwblhau eich prosiect

Os na fyddwch bellach yn defnyddio ased a brynwyd gan ddefnyddio cymorth ERDF, cewch werthu'r ased, ond sylwch y gall fod angen adrodd am yr arian gwerthiant wrthym ni, fel 'refeniw'.  Gweler Adran 20 uchod, ynglŷn ag achosion pan fo'r angen i adrodd am refeniw yn parhau y tu hwnt i gwblhau'r prosiect.

Os byddwch yn gwerthu neu'n rhoi ased i brosiect arall a gyllidir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, ni fydd modd i'r prosiect hwnnw hawlio cost y pryniant fel cost prosiect cymwys nac fel cyfraniad mewn cynnyrch.

Noder y bydd Tîm Dilysu WEFO yn ymweld â'r prosiectau i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau parhauster – ceir ymweliad o leiaf unwaith o fewn y pum mlynedd ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

## 24. Hawliau Eiddo Deallusol

Mewn rhai prosiectau mae'n bosibl y bydd angen ystyried sut i drin Hawliau Eiddo Deallusol (HEDau).

Dylech nodi, er gwaethaf perchnogaeth neu deitl cyfreithiol asedau anghyffwrddadwy fel HED, ein bod yn cadw'r hawl i archwilio canlyniadau eich prosiect, gan gynnwys hawliau eiddo deallusol dros y cyfryw ganlyniadau

Fel yn achos unrhyw ased arall a gyd-gyllidir gan y cymorth UE, disgwyliwn mai'r buddiolwr/ buddiolwyr fydd yr endid cyfreithiol a fydd yn berchennog yr ased – ac nid unigolion a gyflogir gan y buddiolwr, neu sy'n gweithio i'r buddiolwr, neu unrhyw drydydd parti arall.

Yn ddarostyngedig i unrhyw reolau Cymorth Gwladwriaethol cymwysadwy neu unrhyw resymau eraill a gytunwyd gennym ni, caniateir i ganlyniadau prosiectau, gan gynnwys HED dros y cyfryw ganlyniadau, gael eu lledaenu neu eu cyhoeddi gennym ni neu chi. Mae'n rhaid i bob cyhoeddiad o'r fath, a phob dull lledaenu arall, grybwyll bod y canlyniadau / HED wedi eu cynhyrchu gyda chymorth UE.

Os oes disgwyl i'ch prosiect gynhyrchu HED a gaiff eu lledaenu mewn cyhoeddiadau, digwyddiadau neu weithgareddau hyfforddi, dylid datblygu polisi ar ledaenu yn ystod blwyddyn gyntaf eich prosiect, er mwyn sicrhau y gellir lledaenu gwybodaeth heb oedi gyda chaniatâd yr holl gyfranogwyr, a diogelu'r cyfryw wybodaeth pan fo'n briodol.

Dylech geisio cyngor cyfreithiol eich hun ynglŷn â pherchnogaeth a/neu deitl cyfreithiol HED, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyd-berchnogaeth, trwyddedu ac ati. Atgoffir chi y gallai refeniwiau a gynhyrchir o werthu trwyddedau fod yn ddarostyngedig i'r rheolau prosiect ar gynhyrchu refeniw a restrir yn Adran 20.

Os yw allbynnau a chanlyniadau'r prosiect yn rhai y gellid elwa arnynt mewn masnach neu ddiwydiant, dylech ystyried diogelu eich canlyniadau yn effeithiol a digonol, er enghraifft gyda hawliau patent.

## 25. Cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a rheoliadau cymwysadwy (yr UE, y DU ac Iwerddon)

### 25.1 Cyfreithiau a rheoliadau UE

Mae cydymffurfiaeth â rheolau a pholisïau UE yn amod sylfaenol cymhwystra'r gwariant ar gyfer ad-daliadau o'r ERDF. Ynglŷn â hyn, y meysydd pwysicaf yn ymarferol (ond nid yr unig feysydd) yw **caffael cyhoeddus, cymorth gwladwriaethol, diogelu'r amgylchedd a chyfleoedd cyfartal**.

Mae'r raddfa a gymhwysir gan y CE ar gyfer cywiriadau ariannol am doriadau o reolau caffael cyhoeddus yr UE, yn cychwyn ar 100% am lwyr ddiystyru'r gofynion tendro mewn contractau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Aelod-wladwriaethau'r UE fabwysiadu'r un raddfa o gosbau.

Ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol, pan fo'r Cronfeydd UE yn cyd-gyllido cymorth i fusnesau, mae'n rhaid i gyfanswm y cymorth cyhoeddus (o ffynonellau cenedlaethol ac UE) gadw o fewn y nenfydau ariannol a'r terfynau dwysedd cymorth a bennwyd ar gyfer y cynllun Cymorth Gwladwriaethol perthnasol.

Atgoffir chi fod y rheolau a'r gofynion Cymorth Gwladwriaethol **yn ychwanegol at** y rheolau ac amodau yn y ddogfen hon. Yn benodol, cymhwysir rheolau gwahanol weithiau mewn cysylltiad â chyfnodau cadw dogfennau, cynhyrchu refeniw a chynnal buddsoddiadau cynhyrchiol am gyfnod o amser y tu hwnt i ddiwedd eich prosiect.

### 25.2 Cyfreithiau a rheoliadau'r DU ac Iwerddon

Rhaid i weithgaredd a gwariant prosiect gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau cenedlaethol a darpariaethau cyffelyb, gan gynnwys cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth treth a nawdd cymdeithasol.

Rhaid ichi geisio cyngor cyfreithiol pan fo'n ofynnol, er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni pob rhwymedigaeth o'r fath.

Dichon y bydd unrhyw gostau gorfodol, contractiol, cyfreithiol neu statudol nas rhagwelwyd, a dynnir gennych wrth gyflawni eich prosiect, yn gymwys os ydynt yn bodloni'r rheolau yn y ddogfen hon; ond nid oes rhwymedigaeth arnom ni i gynyddu eich gwariant cymwys cymeradwy er mwyn diwallu costau o'r fath. Eich cyfrifoldeb chi fydd yr holl gostau ychwanegol, ac nid cyfrifoldeb WEFO, y CE na chyllidwyr prosiect eraill, hyd yn oed pan fo'r costau hynny yn anocheladwy.

### 25.3 Rheolau caffael yr UE a chenedlaethol

Rhaid ichi gyflawni gweithdrefnau caffael a phrynu mewn ffordd sy'n amlygu **gwerth am arian** neu, pan fo'n briodol, am y pris isaf. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid ichi hefyd roi sylw i unrhyw **wrthdrawiad buddiannau** (real neu ganfyddiadol).

Y ffordd orau y gall buddiolwyr sicrhau ac arddangos gwerth am arian wrth osod contractau yw trwy gystadleuaeth deg, agored a thryloyw.

Rhaid i fuddiolwyr gydymffurfio â holl reolau a pholisïau cymwysadwy yr UE, UK/Iwerddon a llywodraethau cenedlaethol eraill wrth osod contractau a gyllidir yn rhannol gan arian UE, gan gynnwys gweithredu yn genedlaethol Gyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus Ewropeaidd 2014.

Y rheolau a'r canllawiau cymwysadwy yw:

- **Partneriaid prosiect a leolir yn Iwerddon:** y rhai cymwysadwy o blith y canlynol: Rheolau Cymhwystra Rhaglenni a Chanllawiau Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-20; rheolau cymhwystra ERDF Iwerddon (Rhaglenni Rhanbarthol Deheuol a Dwyreiniol ar gyfer yr amcan Buddsoddi mewn Twf a Swyddi); a Swyddfa Caffael y Llywodraeth gov.ie - Office of Government Procurement (www.gov.ie)
- **Partneriaid prosiect a leolir yng Nghymru**: y rhai cymwysadwy o blith y canlynol: Rheolau Cymhwystra Rhaglenni a Chanllawiau Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-20; rheolau cymhwystra ERDF Cymru (Rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru ar gyfer yr amcan Buddsoddi mewn Twf a Swyddi); a rheolau Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru https://www.llyw.cymru/caffael-yn-y-sector-cyhoeddus?.

### 25.4 Cymorth gwladwriaethol

Mae 'cymorth gwladwriaethol' yn derm a ddefnyddir gan y CE i olygu adnoddau cyhoeddus a ddarperir yn ddetholus i ymgymeriadau masnachol, ac sydd â photensial i effeithio ar gystadleuaeth a masnach o fewn yr UE.

Gallai'r math hwn o gymorth cyhoeddus — ystumio'r farchnad, a gallai hynny yn ei dro ostwng lefel y cystadlu am fusnes, arwain at lai o arloesi ac yn y pen draw, at brisiau uwch i ddefnyddwyr.

Mae'r diffiniad o Gymorth Gwladwriaethol yn deillio o Erthygl 87 o'r Cytuniad UE, y gellir ei drosi yn 5 prawf fel y rhestrir isod. Er mwyn i'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol fod yn gymwys, mae'n rhaid bodloni **pob un o'r pum prawf**.

- Rhoddir y cymorth gan Aelod-wladwriaeth o'r UE NEU allan o adnoddau gwladwriaethol megis arian Ewropeaidd a reolir gan weinyddiaethau cyhoeddus cenedlaethol neu trwy ddosbarthu arian loteri.
- Mae'r cymorth yn rhoi mantais i'r derbynnydd.
- Mae'n ffafrio ymgymeriadau masnachol penodol NEU gynhyrchu nwyddau penodol h.y. mae'n ddetholus o ran ei natur.
- Mae'n ystumio cystadleuaeth NEU yn meddu'r potensial i ystumio cystadleuaeth.
- Mae'r gweithgaredd yn fasnachadwy rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE ac mae potensial i'r cymorth effeithio ar y fasnach honno.

Mae goblygiadau cymorth gwladwriaethol yn eang, oherwydd gall fod yn berthnasol i unrhyw gymorth a ddarperir i ymgymeriadau. Diffinnir 'ymgymeriad' fel unrhyw endid, waeth beth fo'i statws cyfreithiol, sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd neu'n cystadlu â sefydliadau masnachol.

Nid oes rhaid i'r ymgymeriad fod yn un sy'n amcanu i wneud elw, cyn belled â bod y gweithgaredd a gyflawnir yn weithgaredd y **mae ganddo, mewn egwyddor, gystadleuwyr masnachol**. Gellir ystyried sefydliadau cyhoeddus, elusennau, prifysgolion, endidau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau dielw i gyd yn 'ymgymeriadau' pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd masnachol.

Mae'r potensial i ystumio cystadleuaeth ac effeithio ar griteria masnach yn eang iawn – gall hyd yn oed symiau bach o gymorth ystumio cystadlu, ac mae'n ddigon bod cynnyrch neu wasanaeth yn destun masnachu rhwng Aelod-wladwriaethau, hyd yn oed os nad yw derbynnydd y cymorth ei hun yn masnachu ag Aelod-wladwriaethau eraill.

Er bod y Cytuniad Ewropeaidd yn datgan bod Cymorth Gwladwriaethol yn anghydnaws â'r farchnad gyffredin mae rhai amgylchiadau pan ellir caniatáu Cymorth Gwladwriaethol.

Pennir yr amgylchiadau hynny yn y **rheolau Cymorth Gwladwriaethol** – sef cyfres o fframweithiau, canllawiau ac esemptiadau. Mae'r rheolau hyn yn galluogi Aelod-wladwriaethau i ddarparu cymorth er mwyn cyflawni canlyniadau polisi dymunol.

Os bernir bod cymorth yn Gymorth Gwladwriaethol, bydd angen i ddarparwr neu weinyddwr y cymorth sicrhau bod y cymeradwyaethau, esemptiadau a/neu'r hysbysiadau angenrheidiol wedi eu rhoi.

Ni allwn ddyfarnu cyllid cyn ein bod yn fodlon yr aseswyd yn briodol y potensial i Gymorth Gwladwriaethol fod yn bresennol; a phan fo'n ofynnol, bod y rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn caniatáu'r cymorth hwnnw. Gallai Cymorth Gwladwriaethol fod yn bresennol ar nifer o wahanol lefelau mewn gweithrediad CTE:

- Wrth i ni ddarparu cymorth ariannol i fuddiolwr arweiniol;
- Wrth i fuddiolwr arweiniol ddarparu cymorth ariannol i gyd-fuddiolwr; Pan fo sefydliad cyflenwi, a gontractiwyd gan fuddiolwr, yn darparu cymorth ariannol neu anariannol i ddefnyddwyr neu dderbynwyr terfynol sy'n bodloni'r pum prawf Cymorth Gwladwriaethol, e.e. pan ddefnyddir darparwr gwasanaeth a gontractiwyd i ddosbarthu cymorth ariannol i gwmnïau ar ran y buddiolwr.
- Ar gyfer buddiolwyr sy'n defnyddio'r cynllun De Minimis mae trothwy o 200,000 Ewro ac mae'n rhaid i fuddiolwyr sicrhau nad yw'r derbynnydd cymorth yn rhagori ar y trothwy hwn dros gyfnod ariannol o 3 blynedd. Rhaid i'r buddiolwr wybod faint o gymorth a gawsant hyd yma cyn i unrhyw gymorth gael ei ddyfarnu. Rhaid i'r buddiolwr hefyd ysgrifennu at y derbynnydd cymorth a rhoi gwybod iddynt am werth y cymorth de minimis a ddarparwyd iddynt.
- Buddiolwyr arweiniol / cyd-fuddiolwyr o Gymru: lle mae eich sefydliad yn gymwys i hawlio Lwfans Cyflogaeth rhaid ichi roi cyfrif am hyn mewn unrhyw hawliad a gyflwynwch i WEFO i dderbyn cymorth gan y gronfa strwythurol. Bydd rhaid ichi hefyd feddu ar fecanwaith cadarn ar gyfer cofnodi swm y lwfans cyflogaeth a dderbyniwyd er mwyn dangos na ragorir ar y trothwy de minimis o

€200,000 dros dair blynedd ariannol. Ni fydd WEFO yn cyfrannu tuag at unrhyw swm a dderbynnir fel Lwfans Cyflogaeth. Gweler Atodiad H am ragor o fanylion ynghylch Cymorth Gwladwriaethol, gan gynnwys Cyfundrefn Rheoli Cymhorthdal y DU.

I gael gwybodaeth fanylach am Gymorth Gwladwriaethol, ewch i’r wefan Cymorth Gwladwriaethol drwy'r dolenni canlynol:
https://llyw.cymru/cymorth-gwladwriaethol
https://enterprise.gov.ie/en/What-We-Do/EU-Internal-Market/EU-State-Aid-Rules/

## 26. Rheolau ac amodau Cymorth Technegol

Pan fyddant wedi eu disgrifio yn y cynllun busnes neu'r cais am gyllid, ac wedi eu cymeradwyo gennym ni, caiff yr ERDF gynorthwyo gweithredoedd ar gyfer:

- paratoi, rheoli, monitro a gwerthuso rhaglen;
- cyfarfodydd pwyllgor monitro rhaglen ac unrhyw is-bwyllgorau;
- mesurau gwybodaeth rhaglen a chyfathrebu, gan gynnwys costau cyfieithu ysgrifenedig ac ar y pryd;
- rhwydweithio sy'n gysylltiedig â chyflawni'r rhaglen yn effeithlon ac effeithiol
- datrys cwynion;
- gweithredu rheolaethau ac archwilio rhaglen, gan gynnwys mesurau rhag twyll a llygredd;
- gweithredoedd i leihau'r baich gweinyddu ar fuddiolwyr, gan gynnwys cyflwyno systemau cyfnewid data electronig ('e-Gydlyniant');
- yn unig pan fo'r Rhaglen Gydweithredu a fabwysiadwyd gan y Comisiwn yn rhagweld hynny, gweithredoedd i gryfhau galluoedd awdurdodau'r rhaglen a'r buddiolwyr i ddefnyddio a gweinyddu'r Cronfeydd UE; a
- gweithredoedd i gryfhau galluoedd partneriaid perthnasol a chyfnewid yr arferion gorau rhyngddynt.

Caiff y gweithredoedd hyn ymwneud â'r cyfnod rhaglen 2014-2020 yn ogystal â chyfnodau rhaglen blaenorol neu ddilynol, os cynhwysir hynny yn y cynllun busnes a gymeradwywyd.

Mae cymorth ar gyfer Cymorth Technegol wedi ei eithrio o'r rheolau mewn perthynas â refeniw a bennir yn Adran 20.

Gellir cyflawni gweithgareddau y tu allan i ardal y rhaglen gyllido, ond o fewn yr UE, ar yr amod bod y prosiect er budd ardal y Rhaglen Gydweithredu.

Gellir caniatáu tynnu gwariant ar Gymorth Technegol y tu allan i'r UE os yw hynny o fudd i ardal y rhaglen, ond bydd yn rhaid ichi gael caniatâd WEFO ymlaen llaw ar gyfer y math hwnnw o wariant, fel y gallwn gadarnhau ei fod yn angenrheidiol, a gwirio y gellir sefydlu trefniadau digonol ar gyfer rheoli, gweithredu rheolaethau ac archwilio.

Cyflawnir gweithredoedd Cymorth Technegol mewn cysylltiad â'r swyddogaethau a'r tasgau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r rhaglen gan y canlynol:

- yr awdurdod rheoli (WEFO) a chyrff eraill a ddynodwyd ar gyfer cyflawni rheolaethau
- yr awdurdod ardystio (WEFO)
- yr awdurdod archwilio (Llywodraeth Cymru, Tîm Archwilio'r Cronfeydd Ewropeaidd) a chyrff eraill a ddynodwyd ar gyfer cyflawni tasgau archwilio
- y gyd-ysgrifenyddiaeth dechnegol

Mewn rhai achosion, gall cyrff eraill gyflawni rhai o’r swyddogaethau hyn, er enghraifft cydgysylltu cyflawniad y rhaglen, ond mae’n rhaid peidio â defnyddio arian cymorth technegol i gynorthwyo swyddogaethau **nad ydynt yn angenrheidiol** ar gyfer cyflawni’r rhaglen Gydweithredu yn effeithlon ac effeithiol.

## 27. Cyfuno cymorth o fwy nag un Gronfa UE

Cyllido eich prosiect o fwy nag un Gronfa neu Raglen UE

Mae’n bosibl i’ch prosiect gael cymorth UE o fwy nag un o’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, neu o fwy nag un rhaglen ac o offerynnau UE eraill, ar yr amod nad oes yr un eitem o wariant a gynhwysir mewn cais am daliad neu ad-daliad o un o’r Cronfeydd yn cael cymorth o Gronfa arall neu gan offeryn UE, nac ychwaith gymorth o’r un Gronfa o dan raglen arall.

Yn ychwanegol at wahanu’r eitemau gwariant yn eglur, bydd yn hanfodol gallu adnabod pa ffynonellau cyllid a fydd wedi ysgogi pa allbynnau, canlyniadau neu ddeilliannau eraill yn eich prosiect

Ni chewch ddefnyddio unrhyw arian UE arall fel arian cyfatebol cenedlaethol ar gyfer eich prosiect

Mae rheolau mwy hyblyg mewn grym ar gyfer buddsoddiadau a gynorthwyir gan Horizon 2020 yn ogystal â’r Cronfeydd Strwythurol, ond mae hynny y tu hwnt i gwmpas y nodyn canllaw hwn.

# ATODIAD A – Swyddogaethau a chyfrifoldebau buddiolwyr arweiniol a chyd-fuddiolwyr

Rheolir a chyflawnir gweithrediadau gan **ddau neu ragor** o fuddiolwyr – un o leiaf wedi ei leoli yng Nghymru ac un yn Iwerddon – ac mae'n rhaid i un ohonynt fod wedi ei ddynodi gan y buddiolwyr yn **fuddiolwr arweiniol**.

Mae Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru wedi pennu mai **6 fydd y nifer mwyaf o bartneriaid** mewn unrhyw weithrediad. Mae'n rhaid i fuddiolwyr fod wedi eu lleoli yng Nghymru neu Iwerddon.

Rhaid i'r buddiolwr arweiniol:

- sefydlu trefniadau gyda chyd-fuddiolwyr mewn cytundeb a fydd yn cynnwys darpariaethau a fydd, o leiaf, yn gwarantu rheolaeth ariannol gadarn ar yr arian a ddyrennir i'r gweithrediad a threfniadau i adennill unrhyw symiau a delir yn amhriodol i fuddiolwyr;
- ymgymryd â'r cyfrifoldeb am sicrhau y cyflawnir y gweithrediad cyflawn
- sicrhau bod y gwariant a ddatgenir gan yr holl fuddiolwyr wedi ei dynnu mewn perthynas â chyflawni'r gweithrediad, yn cyfateb i'r gweithgareddau a gytunwyd rhwng yr holl fuddiolwyr, ac yn unol â'r cytundeb cyllid grant a ddarparwyd gan WEFO; a
- sicrhau bod y gwariant a ddatgenir gan fuddiolwyr eraill wedi ei **ddilysu gan weithredwr neu weithredwyr rheolaethau** pan na chyflawnir y dilysiad hwnnw gan WEFO.

Gall costau a ysgwyddir ac a delir gan gyd-fuddiolwyr gael eu cynnwys yn hawliadau taliadau'r buddiolwr arweiniol ddim ond os yw'r buddiolwr arweiniol wedi'i fodloni bod y buddiolwyr eraill yn ymwybodol, ac mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r rheolau buddiolwyr a nodir yn y ddogfen hon ac yn y cytundeb cyllid grant.

Gall costau a ysgwyddir ac a delir gan gyd-fuddiolwyr gael eu cynnwys yn hawliadau taliadau'r buddiolwr arweiniol ddim ond os yw'r cyd-fuddiolwr wedi cadarnhau ei fod yn derbyn y rheolau buddiolwyr a nodir yn y ddogfen hon a'r cytundeb cyllid grant, drwy lofnodi Atodlen 3 yn y cytundeb cyllido ar gyfer y gweithrediad.

Rhaid i'r buddiolwr arweiniol sicrhau hefyd fod y buddiolwyr eraill yn cael swm llawn y cyfraniad o'r cronfeydd cyn gynted ag y bo modd. Mae'n rhaid peidio a didynnu unrhyw swm na chadw'n ôl unrhyw gyfran o'r cyfraniad, na chodi unrhyw dâl penodol, neu dâl arall neu ardoll a fyddai'n lleihau'r swm hwnnw i'r buddiolwyr eraill.

**Refeniw'r prosiect**

Rhaid i fuddiolwyr arweiniol sicrhau y cofnodir ac adroddir am unrhyw refeniw a dderbynnir gan gyd-fuddiolwyr ac unrhyw fuddiolwr/ partner cyflenwi arall, yn yr un modd ag o dan rwymedigaethau'r buddiolwr arweiniol, fel y'u pennir yn Adran 20.

**Cyfraniadau mewn cynnyrch**

Nid 'trydydd partïon' yw'r cyd-fuddiolwyr a'r partneriaid cyflenwi, ac felly ni allant wneud cyfraniadau i'r gweithrediad mewn cynnyrch. O ganlyniad, trinnir cyfraniadau i'r prosiect gan gyd-fuddiolwyr a phartneriaid cyflenwi fel arian cyfatebol o'u 'hunan-adnoddau' o fewn ystyr Adran 8, ac nid fel arian cyfatebol mewn cynnyrch.

Gall partner ddarparu i'r prosiect y defnydd o asedau sy'n eiddo i'r partner eisoes.  Gall hyn fod er mwyn i'r partner ei hunan eu defnyddio yn y prosiect, neu ar gyfer eu defnyddio gan bartneriaid eraill neu gan y buddiolwr arweiniol. Cymhwysir yr un egwyddor â phan wneir cyfraniad tebyg gan y buddiolwr arweiniol – bydd cost pryniant eitemau o'r fath yn anghymwys, ond gellir hawlio costau dibrisiant a chostau atgyweirio a chynnal pan fo cyfiawnhad. Gweler Adran 7.5.4.

# ATODIAD B – Archwiliadau a dilysiadau

**Cyflwyniad**

Ystyr ‘dilysiadau yw’r gwiriadau y byddwn ni, fel ‘gweithredwr rheolaethau’ dynodedig, yn eu cyflawni ar weithrediadau a’u prosiectau. Gall y rhain fod yn wiriadau ‘pen bwrdd’ a gyflawnir o hirbell yn ein swyddfeydd, neu gallant gynnwys ymweliadau â’r man lle cedwir y cofnodion, neu’r man lle cyflawnir y gweithgareddau os yw hwnnw’n lle gwahanol.

Ystyr ‘archwiliadau cenedlaethol’ yw archwiliadau a ymgymerir gan Dîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru sef yr ‘awdurdod archwilio’ arweiniol dynodedig ar gyfer Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Mae’r archwiliadau hyn yn cynnwys ymweliadau â’r man lle cedwir y cofnodion, a’r man lle cyflawnir y gweithgareddau pan fo hwnnw’n lle gwahanol.

Ystyr ‘archwiliadau CE’ yw archwiliadau a ymgymerir gan staff y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw’n golygu archwiliadau a gyflawnir gan Lys Archwilwyr Ewrop.

**Hawliau mynediad a chyfnodau o rybudd**

At ddibenion ystadegol neu atal a chanfod twyll, mae’n bosibl y bydd angen i’r staff dilysu ac archwilio gael mynediad i gofnodion cyfrifyddu cyffredinol buddiolwr, hyd yn oed pan ariennir y prosiect trwy ddefnyddio cyfandaliadau, costau unedol neu gyfraddau safonol (yn hytrach na ‘chostau real’). **Ni ddefnyddir** y gwiriadau hyn, fodd bynnag, ar gyfer cwestiynu gwerthoedd y gyfradd safonol, y costau unedol neu’r cyfandaliadau, y byddwn wedi eu cytuno eisoes yn eich llythyr dyfarnu cyllid.

**Dyblygu archwiliadau**

Rhag cynnal gormod o archwiliadau, bydd y rheolau canlynol yn gymwys:

- Ni chaiff gweithrediadau ERDF cymharol isel eu gwerth (cyfanswm gwariant cymwys o ddim mwy na €400,000) eu harchwilio fwy nag unwaith gan archwilwyr CE neu archwilwyr cenedlaethol **yn ystod oes** y gweithrediad. Mae’r cyfnod hwnnw’n cychwyn gyda dyfarnu’r cyllid ac yn parhau hyd nes bo WEFO yn darparu ei chyfrifon blynyddol i’r CE am y flwyddyn gyfrifyddu (Gorffennaf i Fehefin) pan ystyrir bod y gweithrediad wedi ei ‘gwblhau yn llawn’.

- Ni chaiff gweithrediadau ERDF eraill (uwchlaw’r trothwy o €400,000) eu harchwilio fwy nag unwaith gan archwilwyr y CE neu archwilwyr cenedlaethol **yn ystod yr un flwyddyn** (1 Gorffennaf i 30 Mehefin).

- Yn ogystal, ni fydd gweithrediadau yn destun archwiliad gan y CE na chan archwilwyr cenedlaethol mewn unrhyw flwyddyn os cynhaliwyd archwiliad eisoes yn y flwyddyn honno gan Lys Archwilwyr Ewrop. Bydd y rheol hon yn gymwys dim ond os bodlonir archwilwyr y CE neu’r archwilwyr cenedlaethol y gallant dderbyn y gwaith archwilio a wnaed gan Lys Archwilwyr Ewrop at y diben o gyflawni eu priod dasgau.

Fel eithriad i'r rheolau uchod, mae archwilwyr y CE neu'r archwilwyr cenedlaethol yn cadw'r hawl i gynnal archwiliadau o weithrediadau os byddant hwy, neu Lys Archwilwyr Ewrop, wedi canfod **risg benodol o afreoleidd-dra neu dwyll**, pan fo tystiolaeth o ddiffygion difrifol yng ngallu system reoli a rheolaethau'r rhaglen i weithredu'n effeithiol.

Caiff y CE hefyd, at y diben o asesu gwaith yr awdurdod archwilio cenedlaethol, adolygu trywydd archwilio yr awdurdod, neu gymryd rhan mewn archwiliadau 'yn-y-fan-a'r-lle' a gynhelir gan yr awdurdod cenedlaethol; ac, yn unol â safonau archwilio a dderbynnir yn rhyngwladol, os bydd angen hynny at y diben o gael sicrwydd bod yr awdurdod archwilio yn gweithredu'n effeithiol, caiff y CE gynnal archwiliadau o'r gweithrediadau.

**Gwybodaeth bellach**: EU 1303/2013, Erthygl 148.

# ATODIAD C – Canllawiau pellach ar drywyddau archwilio

## Cofnodion cyfrifyddu

Rhaid i gofnodion cyfrifyddu ariannol ar lefel y buddiolwr (arweiniol neu gyd-fuddiolwr) ddarparu gwybodaeth fanwl am y gwariant a dynnwyd mewn gwirionedd ac, os yw'n gymwys, a dalwyd allan, ynghyd â gwybodaeth am yr arian a dderbyniwyd, megis arian cyfatebol gan drydydd partïon; refeniw a gynhyrchwyd gan y prosiect; ac ad-daliadau, blaendaliadau a ddychwelwyd, taliadau 'arian-yn-ôl', symiau digwyddiadol a ryddhawyd, nodiadau credyd a derbyniadau cyffelyb.

Rhaid i fuddiolwyr wahaniaethu'n eglur rhwng y trafodiadau prosiect UE a thrafodiadau busnes rheolaidd arferol, naill ai trwy ddefnyddio system gyfrifyddu ar wahân neu ddefnyddio codau cyfrifyddu sy'n cysylltu'r trafodiadau yn unigryw â'r prosiect UE penodol.

Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu ddangos **dyddiad** y trafodiad, **gwerth** pob eitem, a digon o **wybodaeth adnabod** i alluogi cysylltu'r trafodiad â'r dogfennau ategol.

Yn ychwanegol, mae'n rhaid i ddulliau cyfrifyddu costau arferol y buddiolwr a'r gweithdrefnau rheolaethau mewnol hwyluso **cysoni yn uniongyrchol** y symiau a ddatgenir, y symiau a gofnodir yn y cyfrifon a'r symiau a nodir yn y dogfennau ategol.

Rhaid i unrhyw ymyriadau a wneir â llaw yn y data cyfrifyddu – megis addasiadau a throsglwyddiadau dyddlyfr – fod yn olrheiniadwy, wedi eu dogfennu ac yn cynnwys cyfiawnhad.

Yn achos eitemau o wariant sy'n ymwneud â mwy nag un gweithrediad Cronfa UE, mae'n rhaid i'r dosraniad costau rhwng y gweithrediad a'r gweithrediadau eraill fod wedi ei nodi mewn papurau gwaith ategol.

Mae'r buddiolwr arweiniol yn cydgrynhoi costau cymwys a derbyniadau pob buddiolwr unigol mewn hawliad taliadau sengl a gyflwynir i WEFO. Mae'n rhaid i'r buddiolwr arweiniol gadw'r papurau gwaith sy'n dangos sut y cysonir yr hawliad taliadau cyfanredol â'r costau a derbyniadau gwaelodol a ddatgenir gan bob buddiolwr yn y gweithrediad.

Ym mhob achos, mae'n rhaid sicrhau bod modd **cysylltu gwariant cymwys â'r gweithgareddau cyfatebol** a ysgogodd y costau hynny. Er enghraifft, mae'n rhaid i'r **taflenni presenoldeb a phrofion cyflenwi'r** gweithgareddau a gynorthwyir fod yn olrheiniadwy i'r anfonebau cost cysylltiedig a'r costau staff (gan gynnwys, os yw'n berthnasol, cofnodion amser y staff). Bydd hon yn ystyriaeth allweddol mewn dilysiadau ac archwiliadau a fydd yn ceisio **profi realiti gweithgareddau'r prosiect,** yn hytrach na bodloni ar geisio profi'r costau yn unig.

**Dogfennau ategol**

Mae pob gweithrediad yn wahanol, ond y rheol gyffredinol yw fod yn rhaid i fuddiolwyr gadw **yr holl ddogfennau sy'n angenrheidiol i ddangos bod y rheolau ac amodau cyllido wedi eu bodloni**.

Rhaid i fuddiolwyr gadw tystiolaeth **briodol** a **digonol** i brofi bod eu prosiect wedi ei gyflawni fel y dylid, a bod y gwariant a ddatganwyd yn gymwys. Mae 'digonoldeb' yn ymwneud â maint y dystiolaeth; a 'phriodoldeb' â'i hansawdd. Ystyrir bod y dystiolaeth yn ddigonol ac yn briodol os yw'n llwyddo i argyhoeddi'r staff dilysu ac archwilio, sy'n gweithredu yn unol â'r safonau archwilio a dderbynnir yn gyffredinol.

Rhaid i'r holl ddogfennau ategol fod yn ddilysadwy, yn archwiliadwy ac ar gael.

Nid oes modd darparu rhestr hollgynhwysol o ddogfennau ategol felly, ond y canlynol yw'r mathau mwyaf cyffredin:

- Prawf bod costau wedi eu tynnu: anfonebau a dderbynebwyd, biliau neu ddatganiadau ynghyd ag archebion prynu; nodiadau nwyddau a dderbyniwyd (os yn berthnasol); cofnodion cyflogres; contractau ac ati.
- Prawf bod costau wedi eu talu: cyfriflenni banc, adroddiadau BACS/ CHAPS, bonion llyfrau siec/ copïau o sieciau a dalwyd.
- Prawf o gost (neu werth) cyfraniadau mewn cynnyrch a phrawf bod y cyfraniad wedi ei gyflenwi i'r prosiect mewn gwirionedd, neu ei ddefnyddio gan y prosiect.
- Dogfennau i brofi realiti yr allbynnau a'r canlyniadau a adroddwyd.
- Adroddiadau gwerthuso.
- Cofnodion caffael a rheoli contractau, gan gynnwys manylion cynigion aflwyddiannus.
- Rhestri stoc, cofrestri cyfarpar ac asedau.
- Tystiolaeth i brofi cydymffurfiaeth â'r holl amodau cyllido eraill a esbonnir yn y ddogfen hon a'r cytundeb cyllid grant – rheolau Cymorth Gwladwriaethol; mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd; themâu trawsffiniol; cydymffurfiaeth amgylcheddol ac ati.
- Ar gyfer gwariant a ddatganwyd ar sail costau unedol (costau symlach): cofnodion digonol a dogfennau ategol eraill i brofi'r nifer o unedau a ddatganwyd. Nid oes angen i fuddiolwyr sicrhau y gellir adnabod y costau cymwys gwirioneddol sy'n gynwysedig, na darparu dogfennu ategol (megis datganiadau cyfrifyddu) i brofi'r swm a ddatganwyd am bob uned.
- Ar gyfer gwariant a ddatganwyd ar sail cyfraddau safonol (costau symlach): cofnodion digonol a dogfennau ategol eraill i brofi cymhwystra'r costau y defnyddir y ganran safonol ar eu cyfer. Nid oes angen i fuddiolwyr sicrhau y gellir adnabod y costau cymwys gwirioneddol sy'n gynwysedig, na darparu dogfennu ategol (megis datganiadau cyfrifyddu) i brofi'r symiau o wariant cymwys a ddatganwyd ar sail cyfradd safonol.
- Ar gyfer gwariant a ddatganwyd ar sail cyfandaliadau (costau symlach): cofnodion digonol a dogfennau ategol eraill i brofi bod y cerrig milltir neu'r digwyddiadau cyfatebol, fel y'u pennir yn y cytundeb cyllid grant, wedi eu

cyflawni'n briodol. Nid oes angen i fuddiolwyr sicrhau y gellir adnabod y costau cymwys gwirioneddol sy'n gynwysedig, na darparu dogfennau ategol (megis datganiadau cyfrifyddu) i brofi'r swm a ddatganwyd fel cyfandaliad.

- Ffotograffau o hysbysfyrddau.
- Copïau o lyfrynnau hyrwyddo, deunyddiau hyfforddi, tystysgrifau/ dyfarniadau cymhwyso a chwblhau.

**Costau staff: dogfennau ategol**

Ar gyfer costau staff (boed yn 'gostau real' neu'n 'gostau unedol'), mae'n rhaid i fuddiolwyr gadw **cofnodion amser ar gyfer y nifer o oriau** a ddatganwyd ym mhob cyfnod hawlio. Mae'n rhaid i'r cofnodion amser fod wedi'u llofnodi a'u hawdurdodi gan yr aelod o'r staff a'i oruchwyliwr, o leiaf yn fisol, ond yn wythnosol os gellir.

Fel eithriad***,*** ar gyfer **personau sy'n gweithio ar y prosiect CTE yn unig** neu am **ganran sefydlog o'r oriau a gontractiwyd bob wythnos**, nid oes angen cadw cofnodion amser os yw **naill a**i:

– y contract cyflogi, penderfyniad penodi, telerau ac amodau'r secondiad, disgrifiad swydd (neu ddogfen gyffelyb) yn eglur yn neilltuo'r unigolyn i weithio ei holl oriau a gontractiwyd ar yr un gweithrediad CTE (neu am ganran sefydlog o'i oriau a contractiwyd); **neu**

– y buddiolwr yn llofnodi **datganiad** yn cadarnhau bod y personau dan sylw wedi gweithio ar yr <u>un</u> gweithrediad CTE yn unig. (Rhaid i'r datganiad hwn gael ei ddyddio a'i awdurdodi/ cydlofnodi i ddynodi ei dderbyn gan yr aelod o'r staff dan sylw).

Rhaid i fuddiolwyr allu darparu cyfiawnhad, a dogfennau ategol pan fo'n briodol, sy'n dangos cysylltiad rhwng y gwaith a ymgymerwyd a'r canlyniadau a gyflawnwyd am yr oriau staff a ddatganwyd fel costau cymwys.

Rhaid darparu manylion o'r costau staff fesul aelod staff unigol sy'n cyflawni'r gwaith (nid fel crynodeb cyfanredol). Mae'n rhaid cyfrifo'r gwerth trwy luosi cyfradd fesul awr yr unigolyn gyda nifer gwirioneddol yr oriau a weithiwyd yn ystod y cyfnod hawlio. Mae'n rhaid sicrhau y gellir cysoni'r costau staff cymwys â chofnodion cyfrifyddu arferol y buddiolwr (h.y. y trafodiadau cyfriflyfr cyffredinol, datganiadau ariannol) a'r dogfennau ategol (h.y. contractau cyflogi, penderfyniadau penodi, cytundebau undeb llafur, cofnodion amser, cyfriflenni banc sy'n dangos yr alldaliadau cyflog i unigolion ac ati).

Yn absenoldeb systemau strwythuredig ar gyfer cofnodi amser (cyfrifiadurol neu daflenni amser ar bapur), caiff dilysiadau ac archwiliadau – yn ôl eu disgresiwn – ystyried derbyn tystiolaeth amgen i ategu'n nifer o oriau a ddatganwyd, os tybiant y byddai hynny'n darparu sicrwydd cyfwerth â'r hyn a ddarperir gan daflenni amser strwythuredig. Enghreifftiau posibl o dystiolaeth amgen, y gellid ei hystyried felly yn ôl disgresiwn y staff dilysu/ archwilio, yw'r canlynol (nid yw'n rhestr hollgynhwysol): dogfennau teithio sy'n profi cymryd rhan mewn cyfarfod neu weithgaredd (tocyn teithio neu fynediad i awyren, anfoneb gwesty ac ati); cofnodion cyfarfod neu ddigwyddiad; rhestri presenoldeb; papurau gwaith; llyfrau log; dyddiaduron proffesiynol/ personol; dogfennau mewn cysylltiad â chyflwyniadau; cyhoeddiadau; gohebiaeth megis llythyrau, nodiadau, memoranda, negeseuon e-bost; ac ati.

**Rhaid i systemau cofnodi amser/ taflenni amser gynnwys:**

- enw a chyfeirnod y gweithrediad CTE.
- enw'r cyflogwr/buddiolwr.
- enw llawn (bedydd a chyfenw), dyddiad a llofnod y person sy'n gweithio ar y prosiect UE.
- y nifer o oriau y diwrnod a ddatganwyd ar gyfer y prosiect UE.
- enw llawn a llofnod y goruchwyliwr/ rheolwr prosiect
- disgrifiad cryno o'r gweithgareddau a gyflawnwyd – neu godau sy'n cysylltu â manylion pellach neu ddogfennau ategol – fel y gellir canfod a deall pa waith a gyflawnwyd a gwirio'n hwylus fod y gwaith hwnnw'n cyfateb i'r gweithgareddau a gymeradwywyd gan WEFO.

Mae templed ar gael o daflen amser (ar bapur) – gweler TEMPLED 1.

Rhaid i'r wybodaeth a gofnodir mewn taflenni amser gyfateb i'r wybodaeth mewn cofnodion eraill, megis cofnodion o wyliau blynyddol ac absenoldeb salwch, ac o deithio mewn perthynas â gwaith.

# ATODIAD D – Opsiynau Costau Symlach

| CTE Iwerddon Cymru: Costau Symlach | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau a gyfrifir gan ddefnyddio costau symlach** | **Math o gost symlach** | **Disgrifiad** | **Ar gael i** |
| COSTAU ANUNIONGYRCHOL | Cyfradd safonol:15% o'r **costau staff** uniongyrchol cymwys | Cyfrifir y costau anuniongyrchol cymwys trwy ddefnyddio'r cyfrifiad cyfradd safonol heb fod angen cyfiawnhau'r gyfradd. Nid oes angen trywydd archwilio ar gyfer y costau anuniongyrchol real. Wedyn, caiff y gwariant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r gyfradd safonol ei drin fel pe bai wedi ei dynnu a'i dalu allan mewn gwirionedd gan y buddiolwr, gan gynnwys at ddibenion arian cyfatebol. | **Pob** gweithrediad. |
| COSTAU ANUNIONGYRCHOL | Cyfradd safonol: 25% o'r **costau uniongyrchol** cymwys | Fel yr uchod. Ni thybir bod y costau uniongyrchol cymwys canlynol yn dylanwadu'n sylweddol ar gostau anuniongyrchol real buddiolwr, ac felly mae'n rhaid eu heithrio o'r cyfrifiad drwy eu didynnu o'r costau uniongyrchol cymwys cyn defnyddio'r gyfradd safonol o 25%:<br><br>- Costau is-gontractio (h.y. cyflenwi gweithrediad, prosiect neu weithgareddau cyflawn o dan is-gontract)<br>- Costau adnoddau a roddir ar gael gan drydydd partïon ond nas defnyddir ar safle'r buddiolwr<br>- Cymorth ariannol uniongyrchol a ddarperir i drydydd Partïon (e.e. grantiau, stipendia ac ati) | **Prosiectau ymchwil ac arloesi** cymwys: gweler Adran 16. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| COSTAU STAFF | Cyfradd safonol: 20% o'r **costau uniongyrchol** cymwys (ac eithrio costau staff) | Cyfrifir y costau staff uniongyrchol cymwys trwy ddefnyddio'r cyfrifiad cyfradd safonol heb fod angen cyfiawnhau'r gyfradd. Nid oes angen trywydd archwilio ar gyfer y costau staff real. Wedyn, caiff y gwariant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r gyfradd safonol ei drin fel pe bai wedi ei dynnu a'i dalu allan mewn gwirionedd gan y buddiolwr, gan gynnwys at ddibenion arian cyfatebol. | **Pob** gweithrediad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| COSTAU ANUNIONGYRCHOL, CYFRANIADAU MEWN CYNNYRCH, DIBRISIANT A CHOSTAU UNIONGYRCHOL (ac eithrio costau staff uniongyrchol) | Cyfradd safonol: 40% o **gostau staff** uniongyrchol cymwys | Yr unig gostau cymwys a ddilyswyd at ddibenion cofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol yw costau staff uniongyrchol. Ystyrir bod yr holl gostau eraill yn cael eu cynnwys yn y gyfradd safonol o 40%.<br>Fodd bynnag, yn unol ag Adran 16.5: Sylwer: o 2 Awst 2018 ymlaen gellir hawlio cyflogau a lwfansau a delir i gyfranogwyr **yn ogystal â'r** costau staff uniongyrchol cymwys a'r gyfradd safonol o 40% a gymhwysir i'r costau staff uniongyrchol cymwys. O ran Rhaglen Iwerddon-Cymru, bydd hyn yn cynnwys prosiectau lle darperir hyfforddiant i weithwyr unigol BBaChau drwy fynychu digwyddiadau/ gweithdai hyfforddi, a lle mae'r cyflogau a'r lwfansau a delir gan y BBaChau i'r gweithwyr unigol yn cael eu defnyddio fel cyfraniadau mewn cynnyrch tuag at gostau'r prosiect.<br><br>Gellir hefyd hawlio'r costau staff uniongyrchol ar sail cost uned (cyfradd fesul awr) – gweler isod – gan gynnwys y defnydd o 1,720 o oriau blynyddol, heb yr angen am gyfiawnhad.<br><br>Mae 'costau staff' yn golygu cyflogeion buddiolwr; personél ar secondiad i weithio ar brosiect yr UE; costau unigolion sy'n gweithio ar y prosiect o dan gontract uniongyrchol (staff allanol) ond nid yw hyn yn cynnwys: contractau gwasanaethau â chwmnïau (hyd yn oed os ydynt yn gwmnïau 'un person') neu weithwyr prosiect gwirfoddol. | **Pob** gweithrediad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| COSTAU STAFF | Cost unedol: cyfradd mewn € yr awr ar gyfer **staff** buddiolwr sy'n rheoli a chyfenwi prosiectau | Cytunir fesul achos unigol ar gyfradd(au) yr awr ar gyfer pob buddiolwr, ar sail y costau staff cymwys gwirioneddol diweddaraf ar gyfer yr aelodau staff unigol – neu grwpiau o staff sydd ar raddau cyffelyb, neu â phrofiad, cyffelyb – dros y 12 mis blaenorol. Gellir diweddaru'r cyfraddau fesul awr bob 2 flynedd os gofynnir. Wrth gyfrifo cyfradd yr awr, defnyddir **naill ai** oriau gwaith cynhyrchiol blynyddol y cyflogeion (mae cyfiawnhad yn ofynnol gyferbyn â dogfennau ategol) **neu** gellir defnyddio oriau tybiedig o 1,720 heb gyfiawnhad. | **Pob** gweithrediad. |
| COSTAU TEITHIO A CHYNHALIAETH | Cost Uned: €250 fesul person fesul taith | Mae cost uned sefydlog ar gael ar gyfer Teithio a Chynhaliaeth o dan Gymorth Technegol.<br>Mae cyfradd cost uned o €250 fesul person, fesul taith ar gael ar gyfer costau a ysgwyddir gan sefydliad sy'n teithio dramor i gwrdd â phartneriaid neu ddarpar bartneriaid, gyda'r nod o sefydlu gweithrediadau ar draws y Rhaglen Cymru Iwerddon.<br>Mae argaeledd y gost uned yn ddarostyngedig i reolau a meini prawf y cynllun Rhwydweithio Cymru Iwerddon 3 (WIN3) https://irelandwales.eu/sites/default/files/2018-04/Ireland%20Wales%20WIN3%20Eligibility%20Terms.pdf | **Gweithrediadau Cymorth Technegol yn unig** |

**NODIADAU**

– Pan yw'n eglur bod gweithrediad yn ysgogi costau anuniongyrchol yr unig ffordd y gellir eu cyfrifo fydd trwy ddefnyddio costau symlach cyfradd safonol. Nid oes dull cyfrifo amgen ar gael.

- Gellir cyfrifo costau staff uniongyrchol gan ddefnyddio cyfraddau cost unedol yr awr, hyd yn oed os defnyddir y ffigur canlyniadol wedyn fel sail ar gyfer cyfrifo cyfradd safonol (h.y. cyfradd safonol a seilir ar ganran o'r costau staff)
- Rhaid i'r costau o dalu i gontractwyr/ darparwyr gwasanaethau am weithgareddau neu brosiectau a gaffaelir yn gyflawn o fewn gweithrediad gael eu datgan gan ddefnyddio 'costau real' – nid yw costau symlach yn gymwysadwy ar gyfer y rhan honno o'r gweithrediad.

# ATODIAD E – Costau symlach: nodweddion allweddol a chanllawiau

**Cyflwyniad**

Yn fyr, dull amgen yw 'costau symlach', o gyfrifo ac adrodd am eich costau prosiect cymwys. Maent yn defnyddio amcangyfrifon o'r costau, a gytunwyd ac a sefydlwyd ymlaen llaw, yn hytrach na'r costau y byddwch yn eu tynnu a'u talu mewn gwirionedd.

Gall costau symlach leihau'n sylweddol yr amser a'r ymdrech a roddir i weinyddu prosiect; ysgafnhau'r beichiau archwilio ac arolygu; a lleihau costau rheoli a chadw dogfennau.

Gallwch ddewis y dulliau symlach hyn yn lle'r dull 'costau real' a esbonnir yn Adrannau 7 i 18; a thrwy wneud hynny, mae'n bosibl y byddwch yn lleihau'r risg o wneud camgymeriad mewn hawliad tâl neu o fethu â chydymffurfio.

Os gwelwch yn dda, dylech chi a'ch cyd-fuddiolwyr dreulio amser yn sicrhau bod gennych ddealltwriaeth lawn o'r telerau ac amodau a bennir isod ac yn y llythyr cytundeb cyllid grant.

**Nodweddion allweddol**

| Rheolau ac Amodau | Costau symlach | Costau real |
|---|---|---|
| Mae'n rhaid i bob eitem cost unigol naill ai gael ei chodio fel un sy'n perthyn i'r prosiect UE neu ei chadw ar wahân yn eich system gyfrifyddu | X | □ |
| Mae'n rhaid ichi ddarparu rhestr i ni, o'r costau unigol a dynnwyd ac a dalwyd | X | □ |
| Mae'n rhaid ichi allu darparu prawf, megis cyfriflen banc, i dangos bod pob taliad unigol wedi ei wneud | X | □ |
| Mae'n rhaid ichi gadw eich anfonebau a dderbynebwyd, neu ddogfennau cyfrifyddu cyfwerth, ar gyfer pob taliad unigol | X | □ |
| Mae'n rhaid ichi gadw eich dogfennau gwariant (anfonebau/ profion taliadau) hyd nes y byddwn ni yn eich hysbysu y gallwch eu dinistrio, o bosibl hyd at 10 mlynedd | X | □ |
| Byddwn ni, ac o bosibl y CE, yn archwilio ac yn dilysu'r costau y byddwch wedi eu tynnu a'u talu | X | □ |
| Bydd yn rhaid i bob cost a dynnir ac a delir gydymffurfio â'r rheolau 'costau real' (rheolau'r CE a'r rhaglen) a bennir yn y ddogfen hon | X | □ |
| Rydym ni a'r sefydliadau UE yn cadw'r hawl i edrych ar eich cofnodion cyfrifyddu cyffredinol, at ddibenion ystadegol, methodolegol neu atal a chanfod twyll. | □ | □ |

Felly ni fyddai'r rhan fwyaf o'r rheolau 'costau real' yn Adrannau 7-15 yn cael eu hystyried yn ystod dilysiadau ac archwiliadau o unrhyw gategorïau o gostau – neu weithgareddau cyfan – sy'n cael eu had-dalu gan ddefnyddio'r dull costau symlach, er enghraifft y gwiriadau bod pob eitem cost unigol:

- wedi ei thynnu gan fuddiolwr
- wedi ei thalu gan fuddiolwr
- yn rhoi gwerth am arian
- yn adnabyddadwy ar wahân a dilysadwy yn system gyfrifyddu'r buddiolwr, naill ai trwy gyfrwng cod unigryw neu system gyfrifyddu ar wahân
- yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgaredd cymwys
- yn angenrheidiol, nid yn ormodol ac nid yn ddi-hid, ac
- nid yn gost sy'n benodol anghaniatadwy o dan reolau cymhwystra'r Rhaglen

Bydd rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hystyried pan fyddwch yn gwneud cais am ddefnyddio costau symlach – ni chaiff unrhyw gyfradd safonol neu gost unedol a gytunir gennym ni fod yn seiliedig ar gostau neu weithgareddau anghymwys, er enghraifft – ond unwaith y byddant wedi eu cytuno gyda ni **ymlaen llaw**, ni chaiff y meysydd uchod eu harchwilio yn ystod cyflawniad eich prosiect.

Sylwch, os gwelwch yn dda, y gall rhai costau yn ystod gweithrediad/ prosiect gael eu had-dalu gan ddefnyddio rheolau 'cost real', tra ad-delir eraill gan ddefnyddio dulliau 'cost symlach'. Mae'r rheolau yn y tabl uchod yn berthnasol i'r opsiwn a ddewisir ar gyfer pob categori gwariant unigol – nid i'r gweithrediad/ prosiect cyfan.

Ar hyn o bryd yn y Rhaglen Iwerddon Cymru, cynigir dau o opsiynau cost symlach 'parod i'w defnyddio', sef:

- Cyllido cyfradd-safonol ('cyfraddau safonol')
- Costau unedol

Mae **cyllido cyfradd-safonol** yn rhagdybio y bydd gwariant cymwys ar gategorïau gwariant penodedig yn ganran gytunedig o'r costau cymwys a ddatganwyd ar gyfer categorïau penodol **eraill**. Rydym yn defnyddio'r dull hwn ar hyn o bryd i gyfrifo costau anuniongyrchol a chynigir hefyd yr opsiwn o ddefnyddio cyfradd safonol i gyfrifo costau staff.

Mae **costau unedol** yn golygu y bydd ad-dalu yn seiliedig ar gostau unedol sefydlog am lefel a gytunwyd o weithgarwch neu o ganlyniadau, waeth beth y bo'r costau real a dynnir ac a delir gennych i gyflawni'r gweithgareddau neu gynhyrchu'r canlyniadau hynny.

Rydym yn cynnig yr opsiynau cost unedol ar hyn o bryd – (a) costau staff fesul awr. Os defnyddir yr opsiwn hwnnw, caiff y costau staff cymwys eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd yr awr a gytunir ymlaen llaw ac a gadarnheir yn y cytundeb cyllid grant a (b) cyfradd sefydlog fesul cost uned cyfranogwyr i gyfrifo costau staff prosiect i weithrediadau a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn unig. Fodd bynnag, mae'n bosibl i weithrediadau a gefnogir gan ERDF ddefnyddio graddfeydd

safonol o gostau uned yn seiliedig ar allbynnau a/neu ganlyniadau. Os oes gennych ddiddordeb mabwysiadu dull/methodoleg costau uned ar gyfer eich gweithrediad a gefnogir gan ERDF, cysylltwch â'ch PDO/ OO.

Yn y ddau achos, nid yw'r costau gwirioneddol yn cael eu hystyried a gall y trefniant cost symlach wedyn fod yn uwch neu'n is na'ch costau gwirioneddol. Felly, rhaid i chi ystyried y risg ariannol hon yn ofalus a dichonoldeb mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg posibl. Ni fyddwch yn gallu gofyn am arian ychwanegol gan yr UE i fynd i'r afael â diffyg sy'n deillio o ddefnyddio costau symlach.

**Defnyddiadwyedd costau symlach**

Costau symlach (cyfraddau safonol) yw'r unig ddull sydd ar gael ar gyfer cyfrifo costau uniongyrchol. Nid oes modd datgan costau anuniongyrchol ar sail 'cost real'.

Mae'r costau symlach eraill yn opsiynol, ond **rydym yn argymell yn gryf** y dylai'r holl fuddiolwyr ystyried defnyddio costau symlach oherwydd eu bod yn debygol o ysgafnhau'r beichiau gweinyddu ac archwilio, lleihau nifer y camgymeriadau ariannol, a rhyddhau staff prosiectau i ganolbwyntio ar gyflenwi a sicrhau canlyniadau – yn hytrach nag ar gydymffurfio ac ar brosesau swyddfa gefn.

Mewn rhai achosion, **ni fydd costau symlach** ar gael:

- Er enghraifft ar gyfer gweithgareddau neu brosiectau/ gweithrediadau cyfan **a gyflawnir trwy gontractio yn unig**, hynny yw, a gyflenwir neu a gyflawnir yn gyfan gwbl trwy gyfrwng gwaith, nwyddau neu wasanaethau a gaffaelir. Mae hyn yn berthnasol i gaffel cyhoeddus ac i gontractau a osodir gan gyrff preifat. Ond pan fo'r contractio o fewn prosiect yn gyfyngedig i gostau achlysurol neu eilaidd neu gostau cymorth, a chi fel buddiolwyr sydd, o hyd, yn uniongyrchol yn cyflenwi neu'n cyflawni'r prosiect neu'r gweithgaredd, yn hytrach na gosod y gwaith hwnnw ar gontract i gyflenwr allanol – gellir defnyddio'r opsiynau costau symlach.

Mae'n **bosibl** na fyddai costau symlach yn ddewis da yn yr achosion canlynol:

- Pan fyddwch chi, a'ch partneriaid pan fo'n berthnasol, yn anfodlon neu'n analluog i dderbyn y risg na chaiff eich costau real eu had-dalu yn llawn.
- Pan fyddwch chi, a'ch partneriaid pan fo'n berthnasol, yn anfodlon neu'n analluog i roi cyfrif am unrhyw dderbyniadau dros ben; hynny yw, pe bai alldro'r costau symlach yn digwydd bod yn uwch na'ch costau real a dynnwyd ac a dalwyd. Ni fyddwn ni yn cynnal unrhyw wiriadau ar fodolaeth unrhyw warged nac ar y modd y'i trinnir.
- Pan nad yw eich darparwyr arian cyfatebol yn fodlon cyfrannu i'r gweithrediad/ prosiect oni fydd y costau'n seiliedig ar gostau prosiect gwirioneddol.
- Pan fo eich prosiect yn ddarostyngedig i reolau Cymorth Gwladwriaethol ac nad yw'r amodau cysylltiedig yn caniatáu cynorthwyo 'costau symlach', neu pan fo'r gofynion cadw dogfennau Cymorth Gwladwriaethol yn lleihau'r manteision a geid o'r costau symlach.

**Eithrio gweithgareddau, prosiectau neu weithrediadau sy'n 'llwyr gaffaeledig'**

Os cyflawnir prosiect yn gyfan gwbl trwy gaffael, ni chaniateir ichi ddewis costau symlach fel sail ar gyfer ad-daliadau oddi wrthym ni **ar gyfer y costau hynny** – ni allwn ad-dalu ichi, ac eithrio ar sail costau real (h.y. costau'r anfonebau contract).

Os rhan yn unig o brosiect a gyflawnir trwy gaffael, bydd yr opsiwn costau symlach ar gael. Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i'r prosiect a'i holl weithgareddau cyflenwi gael eu cyflawni gennych chi – byddwch yn cadw rheolaeth lawn ar y gwaith o reoli a chyflawni'r prosiect/ gweithgaredd, hyd yn oed os caffaelir rhai llinellau cyllideb ac eitemau gwariant yn y prosiect trwy gyfrwng gweithdrefn gontractio (e.e. rhan o gyflawniad y prosiect megis gwasanaethau glanhau, arbenigedd allanol gan hyfforddwr cymwysedig, prynu dodrefn).

Pan fo prosiect yn cynnwys 'llinynnau' o weithgareddau cyflenwi ar wahân:

- Ni fydd llinynnau gweithgarwch a gyflawnir yn gyfan gwbl trwy gaffael (h.y. a reolir/ cyflenwir gan gontractwr) yn cael defnyddio costau symlach.
- Bydd y llinynnau 'eraill' (a reolir/ cyflenwir gan y buddiolwr) yn cael defnyddio costau symlach.

Yn gysylltiedig â'r rheol hon, mae 'caffael' yn cyfeirio at bob math o gaffael, gan gynnwys contractau sydd islaw'r trothwyon a bennir yng nghyfarwyddebau caffael cyhoeddus yr UE.

**Cyfnodau prosiect a chostau symlach: prosiectau sydd â chyfnod 'ymbaratoi'**

Mae gennych y dewis o ddefnyddio'r dull 'costau real' yn ystod cyfnod ymbaratoi eich gweithrediad, os yw'n berthnasol, ac yna newid i ddefnyddio costau symlach yn ystod y cyfnod cyflenwi.

Fodd bynnag, bydd angen ichi wneud eich dewis o sail ad-dalu ymlaen llaw, cyn dechrau pob cyfnod, fel y gellir cynnwys y telerau ac amodau yn eich llythyr dyfarnu cyllid. Bydd angen i ni ddarparu cytundeb cyllido diwygiedig cyn dechrau'r cyfnod cyflenwi.

Ni chaniateir ichi newid o gostau symlach i gostau real unwaith y bydd y gweithrediad wedi cychwyn, hyd yn oed pan fo gan eich gweithrediad gyfnod ymbaratoi.

# ATODIAD F – Amodau Cymorth COVID-19 a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer ERDF, ESF a Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon Cymru

## Coronafeirws (COVID-19) a phrosiectau a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

Mae'r argyfwng COVID-19 yn creu heriau mawr i ni i gyd. Mae WEFO yn cydnabod ei fod yn effeithio ar y ffordd mae prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu darparu. Gofynnwn i chi barhau i geisio cyflawni gweithgareddau prosiect hyd eithaf eich gallu, gan sicrhau bod llwybr archwilio cadarn yn cael ei gadw bob amser. Ond rydym wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg a phragmatig gyda phob un o'n buddiolwyr i sicrhau sefydlogrwydd tymor byr ac i gefnogi'r gwelliant a fydd yn angenrheidiol ar ôl yr argyfwng.

Mae canllawiau'r llywodraeth wedi'u cynhyrchu i helpu unigolion a busnesau i baratoi i leihau risgiau ac effaith COVID-19, ac rydym yn argymell y dylai buddiolwyr eu darllen, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

**Os bydd y Coronafeirws (COVID-19) yn cael unrhyw effaith ar gyflawni eich prosiect cronfeydd strwythurol, cyfeiriwch at gyswllt WEFO perthnasol i gael rhagor o gyngor. Mae WEFO yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn esblygu'n gyflym iawn a bod y cyngor yn debygol o newid ar fyr rybudd. O ganlyniad, byddwn yn ceisio gwneud penderfyniadau cyn gynted â phosibl, ac yn edrych ar bob achos yn unigol, gan fod yn fwy ystyriol lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.**

**Yn y cyfamser, mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin hon wedi'i chynhyrchu i fuddiolwyr gyfeirio ati cyn cysylltu â WEFO.**

1. **Cymhwysedd costau prosiect – a fydd costau prosiect yn parhau i fod yn gymwys lle mae cyfyngiadau swyddogol ar waith sy'n effeithio ar weithgarwch 'busnes fel arfer'?**
   Bydd unrhyw gostau angenrheidiol sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan WEFO, sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y gweithgaredd ac sydd wedi'u cynnwys yn y Proffil Cyflenwi cytunedig yn parhau i fod yn gymwys, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae swyddfeydd wedi gorfod cau a lle mae staff yn gweithio gartref neu lle mae gweithgarwch prosiect wedi lleihau. Er enghraifft costau rhentu, costau llety eraill (gan gynnwys Cyfraddau Fflat) a chostau staff. Fel gyda'r holl gostau a gytunir gan WEFO, mae yna ddisgwyliad y bydd gwerth am arian yn cael ei sicrhau a, lle gellir gwneud arbedion neu ostyngiadau, dylai'r opsiynau hyn gael eu harchwilio lle bo hynny'n bosibl.

   **DS. Ni ddylai sefydliadau ddyblygu na defnyddio 'ariannu dwbl' os oes unrhyw rai o'r costau hyn yn cael eu talu gan grantiau eraill y Llywodraeth a dderbyniwyd i ymdrin ag effaith COVID 19.**

2. **A all costau staff barhau i gael eu hawlio?**

Gallant. Mae costau staff ar gyfer staff buddiolwyr sydd wedi'u contractio i weithio ar y gweithgaredd yn parhau i fod yn gymwys a dylent barhau i gael eu hawlio yn unol â pholisïau'r sefydliad ei hun ac yn unol â rheolau cymhwysedd WEFO, fel cynt. Lle mae polisïau'r buddiolwr yn cwmpasu amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, absenoldeb arbennig gan fod ysgolion yn cau), mae'r costau hyn yn parhau i fod yn gymwys. Yn ogystal, lle mae polisïau buddiolwyr yn caniatáu i staff barhau i weithio gartref wrth hunanynysu, bydd y costau hyn yn parhau i gael eu hystyried yn gymwys. Bydd WEFO yn derbyn negeseuon e-bost swyddogol fel tystiolaeth i gadarnhau polisi'r sefydliad ar gyfer amgylchiadau yn ymwneud â Choronafeirws. Mae tâl salwch yn parhau i fod yn gymwys os caiff ei hawlio yn unol â rheolau cymhwysedd WEFO.

Pan fo'r staff hyn yn gweithio ar draws nifer o weithgareddau bydd y dull o hawlio eu costau staff yn parhau i gael ei bennu gan bob contract unigol h.y. a yw disgrifiad swydd/contract cyflogaeth/llythyr secondiad yn pennu nifer penodol o oriau neu ganran o amser i'w ddyrannu i brosiectau/gweithgareddau penodol sy'n cael eu cefnogi gan y cronfeydd strwythurol, yna dylid parhau i'w hawlio fel hyn.

Pan gyflogir staff ar sail hyblyg/oriau amrywiol, mae'n rhaid i'r arweinydd a/neu'r cyd-fuddiolwr gadw'r cyfiawnhad dros y fethodoleg a ddefnyddir i hawlio'r costau hyn. Er enghraifft, gall buddiolwyr ddefnyddio cyfartaledd hanesyddol (o leiaf 3 mis lle bo modd) er mwyn penderfynu faint i'w hawlio. Rhaid cytuno ar unrhyw ddull arall gyda'r Swyddog Datblygu Prosiect (PDO)/Swyddog Gweithrediadau (OO). Sicrhewch fod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r dadansoddiad yn cael eu cadw at ddibenion archwilio.

**Lle bo buddiolwr yn penderfynu manteisio ar Gynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU, neu Gynllun Cymhorthdal Cyflog Dros Dro Llywodraeth Iwerddon, ni fydd unrhyw gostau staff sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gweithgaredd cymeradwy yn gymwys am gymorth trwy'r cronfeydd strwythurol gan y bydd derbyn y taliadau hyn yn cyfrif fel 'ariannu dwbl'**.

2a. **Beth am sefydliadau sydd angen defnyddio cynllun ffyrlo'r Llywodraeth?**

Er ein bod wedi cadarnhau y gellir parhau i hawlio costau staff a ariennir gan WEFO pan fo gweithgarwch y prosiect yn cael ei leihau, rydym yn cydnabod y bydd angen i rai sefydliadau wneud penderfyniad ar ddefnyddio cynllun ffyrlo Llywodraeth y DU ar gyfer eu staff, yn enwedig lle maent yn defnyddio eu harian cyfatebol eu hunain neu arian arall i dalu costau staff.

Ni ddylai sefydliadau ddyblygu na defnyddio 'ariannu dwbl' ar gyfer costau staff, h.y. hawlio cyllid gan CThEM drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) neu Gynllun Cymhorthdal Cyflogau dros dro Llywodraeth Iwerddon, yn ogystal â'r arian grant arferol a dderbynnir gan WEFO i dalu costau staff. Byddai

hyn yn ddefnydd amhriodol o arian cyhoeddus a bydd WEFO yn ceisio adennill ‘arian dwbl’ sydd wedi cael ei hawlio a’i dalu.

Felly ar ôl derbyn y taliadau ffyrlo hyn bydd angen i fuddiolwyr sicrhau bod didyniadau’n cael eu tynnu o hawliadau i WEFO ar gyfer costau staff yn ystod/ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae datganiad ffurflen gais WEFO wedi’i ddiwygio i gynnwys y datganiad canlynol:

Rwy’n cadarnhau’r canlynol, hyd eithaf fy ngwybodaeth bod:

- yr holl fanylion ar y ffurflen yn gywir;
- yr holl wariant sydd wedi’i ddatgan wedi’i wario (ei dalu) ar weithgareddau cymwys mewn perthynas â’r Gweithgaredd;
- nid oes dim o’r gwariant sydd wedi’i ddatgan wedi’i hawlio o neu ei dalu gan ffynonellau ariannu eraill (ariannu dwbl) e.e. gan gyllidwyr grantiau eraill, Arian Argyfwng Covid-19/Cynlluniau Ffyrlo ac ati;
- yr wyf wedi cydymffurfio â’r Telerau ac Amodau Defnyddwyr a holl amodau ariannu, rheolau a chanllawiau perthnasol WEFO a all fod yn berthnasol i’r ffurflen hawlio hon.

**Cyrff Preifat a Chyrff Trydydd Sector** – yn cael cymorth drwy’r cronfeydd strwythurol a allai fod yn ddibynnol hefyd ar incwm o ffynonellau eraill, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, ffioedd a/neu daliadau:

Penderfyniad i bob sefydliad ei wneud mewn trafodaeth/trwy gytundeb â’i weithwyr yw’r penderfyniad i roi staff ar ffyrlo ac i wneud cais i gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws Llywodraeth y DU (CJRS). Wrth wneud cais i’r CJRS, rhaid i chi hawlio mewn modd cymesur e.e. lle mai dim ond 50% o’r incwm sydd wedi’i golli, dim ond 50% o’r costau staff cysylltiedig ddylid eu hawlio drwy’r CJRS. Os oes gennych bolisi sefydledig ar draws y sefydliad sy’n golygu y gellir talu’r swm ychwanegol at y ffyrlo, h.y. y bwlch o 20%, bydd cronfeydd strwythurol yn gallu eich cynorthwyo i dalu’r gost hon ar gyfer y gweithwyr cyflogedig sy’n ymgymryd â gweithgarwch ar weithgaredd/prosiect a gynorthwyir. Fodd bynnag, nodwch mai dim ond ar gyfradd y gyfradd ymyrraeth gytunedig ar gyfer y gweithgaredd/prosiect y bydd y cymorth hwn, nid y swm llawn o 20%.

**DS:** Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gyhoeddi diweddariadau i’r canllawiau hyn, rhaid i fuddiolwyr sy’n defnyddio’r CJRS sicrhau eu bod yn gyfarwydd â’r newidiadau hyn cyn cyflwyno hawliadau i WEFO.

2b. **Os yw sefydliad yn penderfynu talu’r swm ychwanegol o 20% at y taliad ffyrlo, a yw’r costau hyn yn gymwys?**

Os yw buddiolwr wedi gwneud penderfyniad ar draws y sefydliad i dalu’r swm ychwanegol at y taliad ffyrlo a dderbyniwyd drwy Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU, gellir ystyried hyn yn gost gymwys ar

gyfer staff dan gontract i weithio ar weithgareddau a ariennir gan gronfeydd strwythurol, ond dim ond ar y sail bod y polisi hwn yn gymwys hefyd i'r **holl staff eraill** yn y sefydliad hwnnw. Bydd hyn yn berthnasol i/yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn hefyd, lle nad yw CJRS y DU yn talu cyfanswm taliadau o'r fath i gyd. Mae hyn ar yr amod na fydd unrhyw oblygiadau cost ychwanegol i'r gweithgaredd gan atgoffa mai dim ond y gyfradd ymyrraeth a gymeradwywyd o 20% o'r cyflog y bydd WEFO yn ei dalu.

**2c. Pa dystiolaeth fydd angen ei darparu i ddangos bod staff prosiect/gweithgaredd wedi'u rhoi ar ffyrlo?**

Pan fydd staff prosiect/gweithgaredd wedi'u rhoi ar ffyrlo ac yn derbyn taliadau ffyrlo, bydd y gofynion tystiolaeth canlynol yn berthnasol:

- Pan fo taliad ffyrlo yn gyfwerth â 80% o gyflog y staff ac **nad** yw sefydliad y buddiolwr yn talu'r 20% sy'n weddill o'r cyflog – gweld polisi'r sefydliad ar y broses ffyrlo, gyda rhestr o staff y prosiect/gweithgaredd sydd wedi'u rhoi ar ffyrlo ac (a) llwybr archwilio cyflogres yn dangos taliadau ffyrlo i staff prosiect/gweithgaredd (b) llythyr gan y buddiolwr at staff y prosiect/gweithgaredd yn cadarnhau eu bod wedi'u rhoi ar ffyrlo.

- Pan fo taliad ffyrlo yn gyfwerth â 80% o gyflog y staff ac y **bydd** y sefydliad yn talu'r 20% sy'n weddill o'r cyflog – gweld polisi'r sefydliad ar y broses ffyrlo, yn cynnwys cadarnhad o'r 20% o gyflog ychwanegol sy'n cael ei dalu i bob gweithiwr yn y sefydliad, ynghyd â rhestr o staff y prosiect/gweithgaredd sydd wedi'u rhoi ar ffyrlo ac (a) llwybr archwilio cyflogres yn dangos taliadau ffyrlo a thalu costau Yswiriant Gwladol/pensiwn i staff y prosiect/gweithgaredd, (b) llythyr gan y buddiolwr at staff y prosiect/gweithgaredd yn cadarnhau eu bod wedi'u rhoi ar ffyrlo a bod sefydliad y buddiolwr yn talu'r 20% sy'n weddill o'r cyflog.

3. **Cyfyngu ar deithiau tramor.**

Mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau/prosiectau sy'n cynnwys costau ar gyfer teithiau tramor o fewn cynlluniau busnes cymeradwy a/neu'r gweithgareddau/prosiectau hynny lle mae teithiau tramor unigol wedi'u hawdurdodi gan WEFO. Lle mae taith wedi'i harchebu i wlad/ardal y mae Swyddfa Dramor a Chymanwlad y DU (FCO) wedi cynghori yn erbyn teithio iddi – bydd angen i fuddiolwr gysylltu â'i ddarparwr yswiriant teithio ei hun (lle bo hynny'n berthnasol) a hawlio yn erbyn yr yswiriant. Os na fydd y polisi yswiriant teithio yn ad-dalu'r costau teithio am unrhyw reswm, bydd angen i'r rhesymau hyn gael eu darparu i WEFO. Wrth ddisgwyl y rhesymau pam nad yw'r polisi yswiriant yn talu allan a lle mae WEFO yn derbyn bod y rhesymau yn rhesymol a bod modd eu cyfiawnhau i hawlio o gronfeydd strwythurol, ystyrir bod y costau teithio yn anghymwys. Ystyrir bod ffioedd tâl-dros-ben yswiriant yn gost gymwys.

4. **Beth yw effaith gorfod ymestyn prosiectau a chynyddu costau heb lawer o gynnydd, os o gwbl, mewn targedau ac allbynnau?**

   Os na all buddiolwyr gyflawni eu prosiectau oherwydd y feirws, byddwn yn ystyried y sefyllfa fesul achos, fel y byddem yn ei wneud ar gyfer unrhyw sefyllfa arall sy'n atal buddiolwr rhag cyflawni ei rwymedigaethau cytundebol. Wrth gwrs, byddwn yn ystyriol o hyn ac yn ystyried estyniadau ac ati fel sy'n briodol, ond cofiwch na all y dyddiadau hyn fynd y tu hwnt i ddyddiad cymhwysedd y rhaglen, sef 31 Rhagfyr 2023, ac yn ddelfrydol, ni fyddai'r dyddiadau yn mynd y tu hwnt i fis Mehefin 2023 er mwyn galluogi'r holl weithgarwch cau i fynd rhagddo. Eich Swyddog Datblygu Prosiect (PDO)/ Swyddog Gweithrediadau (OO) WEFO fydd y pwynt cyswllt i drafod hyn yn fanwl.

5. **A fyddai ffioedd canslo yn gymwys?**

   Lle mae buddiolwr wedi mynd i gostau nad ydynt wedi dwyn ffrwyth oherwydd digwyddiadau neu benderfyniadau y tu hwnt i'w reolaeth e.e. cyfarfodydd yn cael eu canslo gan drydydd partïon neu yn dilyn cyngor y Llywodraeth, ni fydd y gwariant hwnnw yn cael ei wneud yn anghymwys am gyllid yr UE, cyn belled â bod camau rhesymol wedi'u cymryd i leihau'r gost honno e.e. ei fod wedi gwneud unrhyw hawliadau yswiriant posibl. Gan edrych i'r dyfodol, dylai buddiolwyr fod yn ofalus wrth drefnu digwyddiadau presenoldeb ac osgoi gwneud hynny tra bo cyfyngiadau symud/teithio ar waith, oni bai bod opsiwn i gael ad-daliad llawn yn rhan o'r senario.

6. **A ellir defnyddio dulliau eraill i ddarparu tystiolaeth – er enghraifft, llofnodion electronig/wedi'u sganio, cadarnhad e-bost a chopïau wedi'u sganio lle nad oes modd darparu copïau gwreiddiol?**

   Gellir. Gall copïau wedi'u sganio o ddogfennau adnabod neu ffurflenni ymrestru wedi'u hanfon mewn e-bost gael eu derbyn fel tystiolaeth ar gyfer dilysu rheolwyr, ac mae'r un peth yn berthnasol i ganlyniadau y gellir eu hunan-ddatgan o dan reolau presennol. Er enghraifft, byddwn yn barod i dderbyn cadarnhad e-bost gan gyfranogwr (e.e. gweler y ffurflen gais sydd ynghlwm), gallai hon, ynghyd â'r e-bost, gael eu cyflwyno yn lle'r llofnodion am y tro. Cytunwyd hefyd y byddwn yn caniatáu i basbortau ac ati gael eu darparu heb gael eu hardystio. Mae'r hyblygrwydd hwn wedi'i gyflwyno ar yr amod y bydd angen i brosiectau ailedrych ar y dystiolaeth hon yn y dyfodol yn unol â gofynion arferol ac ar y cyfle cyntaf posibl. **Rhaid** i fuddiolwyr **barhau** i gadw at reolau GDPR wrth weithredu'r mesurau diwygiedig hyn.

6a **Diweddariad Medi 2020 ar y defnydd o gadarnhad e-bost i gadarnhau/datgan cymhwysedd i gymryd rhan mewn gweithrediadau a gefnogir gan ESF/ERDF**

Yn dilyn ymchwil pellach ar y defnydd o e-bost i ddarparu cadarnhad electronig/datgan cymhwysedd, mae WEFO wedi ymgorffori'r canlynol yn ei reolau Cymhwysedd:

Gellir derbyn cadarnhad/datganiad e-bost gan gyfranogwr/cyflogai unigol o fewn BBaCh/sefydliad busnes yn lle llofnod 'gwlyb' neu gwbl electronig (eIDAS) o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle mae mor glir â phosibl mai'r e-bost a ddefnyddir yw e-bost y cyfranogwr – er enghraifft, atodir gohebiaeth arall i'r cyfeiriad hwnnw e.e. ffurflen gofrestru, gohebiaeth arall.
- Lle caiff ei gefnogi gan becyn o dystiolaeth sy'n cadarnhau cymhwysedd yr unigolyn hwnnw – er enghraifft; ESF – tystiolaeth o'r hawl i fyw a gweithio yn y DU ynghyd â chymhwysedd blaenoriaeth/lefel prosiect, ERDF – tystiolaeth o gymhwysedd BBaCh/sefydliad busnes drwy ddatganiad BBaCh wedi'i gwblhau a thystiolaeth o weithwyr unigol yn mynychu gweithdai.
- Ar gyfer ESF, tystiolaeth bod y broses pedwar cam wedi'i dilyn ar gyfer asesu a dangos tystiolaeth o gymhwysedd cyfranogwr.

**DS:** Gall y dull hwn fod yn berthnasol hefyd i ddatganiad neges destun gan gyfranogwyr ESF, fodd bynnag dim ond pan ddefnyddir hynny pan nad oes dewis arall a bod tystiolaeth ar waith i ddangos (a) bod rhif ffôn y cyfranogwr yn gyson â thystiolaeth arall sy'n nodi'r rhif ar gyfer y cyfranogwr penodol a (b) na ellir cael y datganiad drwy unrhyw ddull arall.

<u>**Lle na ellir bodloni'r amodau uchod, yna bydd yn ofynnol i fuddiolwyr fynd yn ôl ac ailedrych ar y dystiolaeth hon yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio llawn yn cael ei sicrhau.**</u>

Wedyn gellid ystyried y byddai'r uchod yn bodloni'r gofyniad sylfaenol a nodir ar gyfer gweithredu dogfennau'n electronig – 'bwriad i ddilysu wedi'i fynegi'n glir a chyda llwybr archwilio cyfatebol i gefnogi'r bwriad'. Felly, os gellir dangos tystiolaeth bod y trefniadau hyn ar waith, byddai hyn yn negyddu'r gofyniad i ailedrych yn ôl-weithredol ar dystiolaeth yn y dyfodol ac unwaith y bydd cyfyngiadau COVID 19 wedi'u codi.

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol hefyd:

1. Lle na ellir dangos tystiolaeth o'r amodau a nodir uchod, yna bydd yn ofynnol o hyd i fuddiolwyr ailedrych ar dystiolaeth, yn unol â'r gofynion arferol, yn y dyfodol ac unwaith y bydd modd gwneud hynny.
2. Buddiolwyr i egluro i gyfranogwyr am yr angen posibl am lofnodion gwreiddiol/gwlyb yn y dyfodol, os bydd archwilwyr y CE yn gofyn amdanynt.
3. Cynghorir y dull hwn ar gyfer tystiolaeth cymhwysedd cyfranogwyr ESF a rhai gweithrediadau ERDF yn unig lle mae angen cymhwysedd BBaCh a

phresenoldeb gweithwyr unigol mewn digwyddiadau/gweithdai hyfforddi. Ar gyfer dogfennau eraill, megis llofnodi Cytundebau Ariannu, a dogfennau cyfreithiol eraill o'r fath, byddem yn dal i ddisgwyl i'r gweithdrefnau arferol gael eu dilyn lle bynnag y bo modd a'u dilyn yn y dyfodol os nad yn bosibl.

7. **A ellir defnyddio llofnodion electronig a bwrw bod polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ei hun yn caniatáu hynny?**

Does dim gofyniad gan WEFO na'r Comisiwn Ewropeaidd bod rhaid defnyddio dogfennau copi caled na 'llofnodion gwlyb' na'u bod yn rhagori ar gofnodion digidol. Yn wir, caiff y defnydd o systemau electronig eu hannog, ble bynnag y bo modd. Os defnyddir rhywbeth yn lle 'llofnodion gwlyb', rhaid i'r buddiolwr gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn adran 5.1.4.2 o 'Reolau' WEFO i sicrhau bod modd dibynnu ar ddilysrwydd ac uniondeb y cofnodion at ddibenion cyfreithiol/dibenion archwilio, bod y prosesau a'r rheolaethau ardystio gofynnol yn eu lle a bod y systemau TGCh a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r safonau BSI gofynnol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r ddolen isod at ddogfen ar wefan UK Gov, sy'n cynnwys dolen at un o reoliadau'r DU a rheoliad eIDAS.

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/545098/beis-16-15-electronic-signatures-guidance.pdf

8. **Adleoli staff – lle mae staff gweithredu/prosiect yn cael eu hadleoli i wasanaethau craidd eraill er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau COVID-19, a fydd costau staff gweithredu/prosiect yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth drwy'r cronfeydd strwythurol?**

Pan fo angen adleoli staff gweithgaredd/prosiect i wneud gwaith brys i leihau effaith COVID-19, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Prosiect (PDO/ Swyddog Gweithrediadau (OO) WEFO a darparu'r wybodaeth ganlynol:

(a) copi o bolisi'r sefydliad neu dystiolaeth debyg sy'n galluogi i staff gael eu hadleoli – ee e-bost/bwletin sefydliadol neu delerau contract cyflogaeth;

(b) manylion staff y gweithgaredd/prosiect sydd i'w hadleoli;

(c) hyd yr adleoli, hy dyddiadau dechrau a gorffen (os ydych yn gwybod y dyddiad gorffen);

(d) y gweithgaredd adleoli a manteision ehangach y gweithgaredd, yn enwedig os yw'r gweithgaredd yn cyd-fynd rywfaint â nodau/amcanion/gweithgaredd gwreiddiol y gweithgaredd a gymeradwywyd gan WEFO.

Bydd yr uchod yn galluogi'r Swyddog Datblygu Prosiect/Swyddog Gweithrediadau i roi cyngor ar sail yr wybodaeth ac yn sicrhau trywydd archwilio digonol ar gyfer y dyfodol.

Cofiwch y paragraff olaf yng nghwestiwn 2 os bydd buddiolwr yn arfer ei hawl trwy Gynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod Coronafeirws Llywodraeth y DU, neu Gynllun Cymhorthdal Cyflog Dros Dro Llywodraeth Iwerddon.

**DS:** Pan fo staff prosiect/gweithgaredd yn cael eu hadleoli a mwy o oriau'n cael eu gweithio h.y. maent yn gweithio mwy na'r oriau y cytunwyd arnynt yn eu contract. Bydd rhaid talu unrhyw daliadau goramser y maent yn gymwys amdanynt yn sgil gweithio dros eu horiau contract y cytunwyd arnynt drwy adnoddau/cyllideb y buddiolwr ei hun. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â'r adleoli hefyd. Bydd taliadau goramser ond yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cymorth gan Gronfeydd Strwythurol pan fyddant yn ymwneud yn uniongyrchol <u>â darparu gweithgaredd UE</u>. Ni ddylai costau staff a hawlir ar weithgaredd yr UE achosi cynnydd i'r cyllidebau arferol/y cytunwyd arnynt.

9. **A fydd dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno hawliadau, gwiriadau dilysu a chanfyddiadau adolygiadau yn cael eu hymestyn o dan yr amgylchiadau presennol?**

Bydd hawliadau yn dal i gael eu gwahodd yn unol â phroffil cyflawni'r Gweithgaredd unigol, gyda dyddiad disgwyliedig tua diwedd y drydedd wythnos ar ôl diwedd y cyfnod hawlio. Mae hwn wastad wedi bod yn ddyddiad targed, a gall Gweithgareddau gyflwyno cyn neu ar ôl y dyddiad hwn os oes angen.

Hoffai WEFO i weithrediadau gyflwyno hawliadau yn unol â'u proffiliau cyflawni. Os yw buddiolwyr yn ei chael hi'n anodd cyflwyno eu hawliadau, dylech chi gysylltu â'r Prif Swyddog Taliadau neu'r Swyddog Datblygu Prosiect (PDO)/Swyddog Gweithrediadau (OO) fel y gallwn ni helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn ni. Nid yw colli "dyddiad cau" hawliad yn golygu eich bod wedi colli'r cyfle i hawlio.

Byddwch yn ymwybodol bod y Tîm Rheoli Gwiriadau wedi cynnig opsiwn ers mis Mawrth 2020 i fuddiolwyr ohirio eu gwiriadau. Roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i'r pandemig COVID-19, pan welwyd fod llawer o fuddiolwyr o dan anfantais gan fod yn rhaid iddynt adael eu hadeilad ar fyr rybudd ac nad oedd gan lawer ohonynt y galluoedd TG a oedd yn caniatáu iddynt ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol o bell. Fodd bynnag, ers hynny mae buddiolwyr wedi gallu addasu ac wedi dod o hyd i ffyrdd o allu cyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol. O ganlyniad, mae'r mwyafrif llethol o fuddiolwyr sydd bellach yn cael cynnig yr opsiwn i ohirio yn gwrthod y cynnig hwnnw ac yn dewis parhau â'u gwiriadau. Felly, mae Bwrdd Perfformiad Rhaglenni WEFO wedi penderfynu rhoi terfyn ar yr opsiwn i ohirio, ar gyfer unrhyw samplau a gyhoeddwyd o 14 Medi 2020 ymlaen.

Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y gallai buddiolwyr barhau i gael anawsterau o ran darparu llwybrau archwilio llawn a chyflawn ar gyfer rhai eitemau tystiolaeth. Os felly, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Gwiriadau i drafod eich sefyllfa gyda hwy, a byddant yn ystyried pa hyblygrwydd y mae modd iddynt ei weithredu fesul achos.
Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cyflwyno eich hawliadau, cysylltwch â'ch Prif Swyddog Taliadau neu eich Swyddog Datblygu Prosiect (PDO)/ Swyddog Gweithrediadau (OO).

10. **Mae cymorth wyneb-yn-wyneb i gyfranogwyr a busnesau wedi dod i ben am y tro, ac mae cymorth yn cael ei ddarparu o bell h.y. ffôn/e-bost/Skype. A ellir defnyddio dulliau amgen o ddarparu tystiolaeth o'r cymorth hwn, megis:**
    - **nodiadau o'r drafodaeth**
    - **dilysiadau e-bost ar gyfer cofrestru/cofnodion presenoldeb/canlyniadau nad ydynt wedi'u llofnodi gan y cyfranogwr/busnes**
    - **ffurflenni Microsoft sy'n casglu gwybodaeth gofrestru a chydsyniad llwybr archwilio gan gyfranogwyr/busnesau**

    O dan yr amgylchiadau presennol, bydd WEFO yn derbyn y dull hwn. Dylid cadw'r holl nodiadau o drafodaethau ochr yn ochr â'r dyddiad/amser. Pan fydd yr argyfwng COVID-19 wedi dod i ben, dylai buddiolwyr sicrhau bod y cyfranogwr/busnes yn llofnodi a dyddio'r gwaith papur perthnasol sy'n ofynnol i gadarnhau bod y cymorth wedi'i ddarparu.

11. **Ydy'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried newidiadau i reoliadau i ymateb i COVID-19 e.e. cymorth gwladwriaethol?**

    Ydyn. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno cyfres o fesurau hyblyg o dan y Fenter Buddsoddi yn yr Ymateb i'r Coronafeirws (CRII), y Fenter Buddsoddi yn yr Ymateb i'r Coronafeirws Plws (CRII+) a'r Fframwaith Dros Dro ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol. Un mesur hyblyg o'r fath a gyflwynwyd yw'r diweddariad i Reoliad yr UE 1301/ 2013 (y Rheoliad ERDF), a ddaeth i effaith o 24 Ebrill 2020, ar gyfer galluogi cymorth i fusnesau sydd wedi (a) bod mewn bodolaeth am fwy na 3 blynedd, a (b) profi anawsterau ariannol ers 31 Rhagfyr 2019 **am resymau sy'n ymwneud â'r pandemig COVID-19**. Cyn y dyddiad hwn, nid oedd y Rheoliad ERDF yn caniatáu i gymorth gael ei ddarparu i 'gwmnïau mewn trafferthion' fel y'u diffiniwyd o dan Reolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE ac fel y'u hamlinellwyd/ yr ydynt wedi'u cynnwys yn rheolau cymhwystra WEFO ar gyfer y Rhaglenni ERDF/ ESF a'r Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru. Mae WEFO wedi penderfynu tynnu sylw at yr hyblygrwydd penodol hwn er mwyn rhoi eglurder i fuddiolwyr.

Bydd WEFO yn parhau i elwa i'r eithaf ar y mesurau hyblyg sydd wedi eu cyflwyno a bydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda buddiolwyr, yn ôl yr angen. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am hyn, cysylltwch â'ch PDO/OO.

Nodwch nad yw'r Pecyn Rheoleiddio REACT EU newydd o gynigion a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 28 Mai 2020 yn berthnasol i'r DU.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi na fydd Cymorth Gwladwriaethol Fframwaith Dros Dro COVID yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 30 Mehefin 2022. Gweler yr eitem newyddion amgaeedig gan y Comisiwn Ewropeaidd:

https://ec.europa.eu/commission/presscorner/detail/en/statement_22_2980

12. **A oes unrhyw newidiadau i reolau caffael o ganlyniad i COVID 19? A alla i ryddhau rhagdaliadau i'm cyflenwyr i sicrhau parhad ar ôl i'r argyfwng ddod i ben?:**

Mae'r rheoliadau caffael eisoes yn cynnwys darpariaethau i alluogi ymateb mewn achosion brys. Lle mae buddiolwyr yn bwriadu defnyddio'r rhain, dylent gael y cyngor caffael priodol.

Yn ogystal, mae'r nodyn canlynol yn berthnasol yng Nghymru – Nodyn Polisi Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU – Supplier relief PPN02 /20.

https://www.gov.uk/government/publications/procurement-policy-note-0220-supplier-relief-due-to-covid-19

Oherwydd yr argyfwng COVID-19, efallai y bydd rhagdaliadau i gyflenwyr yn anochel er mwyn cefnogi'r cyflenwyr hynny sy'n wynebu risg i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ymdopi ac ailgychwyn gwasanaethau normal a chyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol ar ôl i'r argyfwng ddod i ben. Felly, ni fydd rhagdaliadau am wasanaethau fel rhan o gontract cymeradwy ac a gymhwysir yn unol â Nodyn Polisi Swyddfa'r Cabinet yn gymwys i gael cymorth.

Yn ogystal, mae rheolau cymhwysedd WEFO eisoes yn darparu ar gyfer talu am nwyddau a gwasanaethau ymlaen llaw:

- os mai dyma delerau busnes safonol y cyflenwr neu'r contractwr ac os yw hynny ar gais y cyflenwr neu'r contractwr neu'n anochel; ac
- i sicrhau'r pris gorau neu ostyngiadau sylweddol (er enghraifft, tocynnau teithio a llety); neu
- i sicrhau'r ansawdd gorau (e.e. archebu'n gynnar i gael y lleoliad gorau ar gyfer digwyddiad allweddol sy'n allweddol i lwyddiant y prosiect).

Mae canllawiau pellach o dan y teitl Canllawiau COVID-19 WEFO ar gyfer Buddiolwyr Awdurdodau Contractio ar gael yn Atodiad G. Dim ond ar gyfer prynu nwyddau neu wasanaethau sydd eu hangen o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19 y dylai buddiolwyr ystyried dilyn y canllawiau.

Bydd angen i Awdurdodau nad ydynt yn contractio ddilyn eu polisïau caffael sefydledig ar gyfer unrhyw weithgarwch caffael a wneir yn ystod y cyfnod hwn. Gall y polisïau presennol fanylu ar brosesau i'w mabwysiadu pan geir mesurau eithriadol e.e. COVID-19. Bydd angen cynnal trywydd archwilio cadarn o unrhyw weithgaredd caffael a gyflawnir yn ystod y cyfnod a/neu o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19. Mae dolen i'r Canllawiau gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnyddio'r fframwaith caffael cyhoeddus yn y sefyllfa frys sy'n gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 i'w gweld isod hefyd.

https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:52020XC0401(05)&from=EN

12a. **O ganlyniad i weithio o bell, sut mae sefydliadau yn sicrhau bod 2 unigolyn yn bresennol wrth agor dogfennau tendr?**

Mae'n bwysig sicrhau tryloywder o ran caffael hyd yn oed yn ystod y cyfnod hwn. Os oes modd sicrhau bod y dechnoleg ar gael, gellid agor y tendr drwy Skype neu unrhyw fath o alwad fideo gydag ail berson a chofnodi'r broses at ddibenion archwilio.

13. **A fydd y Comisiwn Ewropeaidd yn hepgor y rhwymedigaeth i gydymffurfio â gofynion rheoli a rheolaeth perthnasol?**

Er gwaethaf yr hyblygrwydd eithriadol a nodwyd yn y Fenter Buddsoddi yn yr Ymateb i'r Coronafeirws (CRII) a'r Fenter Buddsoddi yn yr Ymateb i'r Coronafeirws Plws (CRII+), mae'r Comisiwn wedi'i gwneud yn glir iawn yn ei gyfathrebiadau fod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gweithredu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn dal i fod yn gwbl gymwys hyd yn oed o dan yr amgylchiadau eithriadol presennol.

Felly, mae'n rhaid i fuddiolwyr barhau i gynnal eu systemau cyfrifyddu/ rheoli a rheolaeth ar gyfer gweithgareddau/prosiectau sydd eisoes wedi'u cytuno/ eu sefydlu, er mwyn hawlio cymorth o'r cronfeydd strwythurol a bodloni gofynion archwilio.

Fodd bynnag, cydnabuwyd nad yw rhai gwiriadau ac archwiliadau yn bosibl ar hyn o bryd ac mae'r rheoliadau eisoes yn caniatáu i'r rhain gael eu cyflawni'n ddiweddarach. Bydd gwiriadau/archwiliadau desg yn cael eu cynnal, lle bo modd, tan y bydd yn ddiogel i staff wneud ymweliadau eto. Gweler cwestiwn 9 am ragor o fanylion yn ymwneud â gwiriadau.

13a. **A fu unrhyw newid i'r rheolau talu o ganlyniad i COVID-19?**

Naddo. Fel yr amlinellwyd yn y cwestiwn uchod, ni fu unrhyw newid i'r rheolau ar systemau rheoli a rheolaeth. Rhaid i'r holl wariant gael ei ysgwyddo a'i dalu'n llawn cyn y gellir ei gynnwys ar ffurflen gais i WEFO. Er enghraifft, lle mae buddiolwyr wedi dewis manteisio ar opsiwn CThEM i ohirio taliadau Yswiriant Gwladol, yna ni fyddem yn disgwyl i'r taliadau hynny gael eu cynnwys mewn hawliad nes iddynt gael eu talu i CThEM.

14. **Allwn ni newid ein gweithgarwch prosiect o dan y rheolau presennol i helpu i ymateb i'r sefyllfa?**

Rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i brosiectau presennol ddiwygio eu dull o weithredu neu ailffocysu eu cymorth i ymateb i'r sefyllfa bresennol. Byddant yn cael eu hystyried gan WEFO fesul achos unigol. Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'ch Swyddog Datblygu Prosiect (PDO)/Swyddog Gweithrediadau (OO) yn egluro'r holl newidiadau yr ydych yn eu rhagweld a byddant yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad WEFO.

15. **Adrodd ar ganlyniadau gan fuddiolwyr prosiectau/gweithgareddau cyflogadwyedd ESF lle mae cyflawni'r dangosydd canlyniadau uniongyrchol, 'cyfranogwyr mewn cyflogaeth wrth adael', yn debygol o gael ei effeithio gan effaith COVID-19**

Pan mae cyfranogwr yn barod i adael ymyrraeth ESF yn sgil cael cynnig swydd ond na all, fodd bynnag, ddechrau'r swydd honno nes bod mesurau cyfyngu COVID-19 yn cael eu llacio/dileu. Gall sefydliad y buddiolwr ystyried yr opsiynau canlynol:

- cadw'r unigolyn fel cyfranogwr 'gweithredol' h.y. peidio â'i ollwng o'r ymyrraeth ESF nes ei fod o leiaf 4 wythnos i ffwrdd o ddyddiad cychwyn dilys ei swydd newydd, ar ôl cyfyngiadau symud COVID-19 y cyflogwr. Pan fo'r opsiwn hwn yn cael ei gymryd bydd angen i sefydliad y buddiolwr sicrhau bod y cyfranogwr 'gweithredol' yn cael ei gefnogi/gynghori yn ystod y cyfnod estynedig, er mwyn cyfiawnhau ei drin fel cyfranogwr 'gweithredol'. Gallai cefnogaeth/cyngor gynnwys: ymgysylltiad parhaus gan fentor/cynghorwr y prosiect i gynnal cymhelliant y cyfranogwr 'gweithredol' a'i baratoi ar gyfer gwaith/statws parod i waith, hogi sgiliau cyflogadwyedd yn barod ar gyfer y misoedd cynaf yn y gwaith.

- pan fo angen gollwng cyfranogwr o'r ymyrraeth ESF ac nad yw'r swydd yn cychwyn o fewn y cyfnod gofynnol o 4 wythnos, ni ellir cipio'r dangosydd canlyniadau uniongyrchol, 'cyfranogwyr mewn cyflogaeth wrth adael'. Fodd

bynnag, bydd yn cael ei gydnabod fel metrig gwerthfawr a gellir ei gipio drwy werthusiadau, arolygon ac ati.

16. **Wrth baratoi ar gyfer gweithgarwch prosiect ar ôl llacio mesurau cyfyngiadau symud COVID-19, a fydd buddiolwyr yn gallu gofyn am gymorth gan y gronfa strwythurol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag addasu safle'r prosiect/gweithgaredd a darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)?**

Mae unrhyw gostau sydd eu hangen ar gyfer cyflawni prosiect/gweithgaredd a ariennir gan yr UE yn gymwys pan fyddant yn cyd-fynd â pholisi sefydliad y buddiolwr ac unrhyw ganllawiau gan y DU/Cymru/Rhyngwladol perthnasol a/neu ofynion cyfreithiol ar addasiadau i safleoedd prosiectau ar gyfer dychwelyd staff prosiectau a gweithgarwch prosiectau ar ôl COVID-19.

Pan fo polisi safonol/sefydledig buddiolwr yn rhagori ar ganllawiau'r DU/Cymru/Rhyngwladol a/neu ofynion cyfreithiol, bydd angen cyflwyno ceisiadau i Swyddog Datblygu Prosiectau/Swyddog Gweithrediadau dynodedig WEFO ar gyfer y prosiect/gweithgaredd gyda chyfiawnhad cadarn pam yr ystyrir bod yr addasiadau'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r prosiect/gweithgaredd. Bydd WEFO yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.

**Fodd bynnag, bydd angen i fuddiolwyr gofio y bydd angen ariannu unrhyw addasiadau angenrheidiol i safleoedd/nwyddau traul ychwanegol ac ati sy'n cael eu hystyried yn gymwys gan WEFO drwy eu cyllidebau prosiect cyfredol.**

**16a. A yw darparu dodrefn swyddfa (h.y. desgiau, cadeiriau) ar gyfer gweithio gartref yn gost gymwys?**

Bydd rhwymedigaethau statudol gan sefydliadau buddiolwyr o ran sicrhau Iechyd a Diogelwch eu gweithwyr, felly disgwylir bod costau prynu eitemau sy'n caniatáu i staff weithio gartref yn ddiogel yn cael eu talu gan wariant craidd y sefydliad. Pan ofynnir amdano o gronfeydd yr UE, byddai WEFO yn disgwyl bod polisi sefydliadol ar waith i gefnogi darparu desgiau i'r **<u>holl</u>** staff, nid dim ond y rhai a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Felly dim ond ar sail eithriadol y gellir ystyried darparu dodrefn swyddfa yn gymwys a lle y darperir achos busnes i gefnogi hyn

Os bernir bod prynu desg(iau) yn gymwys i'r gweithgaredd, yna rhaid ystyried y canlynol:

(a) bod y ddesg yn cael ei defnyddio i gyflawni gweithgaredd yr UE, os yw'r aelod o staff yn gwneud gwaith ar unrhyw beth arall heblaw gweithgaredd yr UE, yna rhaid dyrannu cost pro-rata'r ddesg i'r gweithgaredd yn unol â hynny;

(b) na fydd cynnydd yn y gost/costau i'r gweithgaredd, caiff y cost(au) hyn eu hariannu drwy gyllidebau sy'n bodoli eisoes;

(c) telir y gost/costau ar y gyfradd ymyrraeth y cytunwyd arni ar gyfer y gweithgaredd a

(d) bod pob pryniant yn cael ei gofnodi'n briodol ar gofrestr asedau'r gweithgaredd.

## Atodiad G – Canllawiau i fuddiolwyr Awdurdodau Contractio i'w hystyried wrth brynu cyflenwadau, gwasanaethau, a gwaith sydd ei angen ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng Covid-19

(Noder: yn berthnasol i fuddiolwyr yng Nghymru yn unig)

Wedi'i addasu o Ganllawiau gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnyddio'r fframwaith caffael cyhoeddus yn y sefyllfa frys sy'n gysylltiedig ag argyfwng COVID-19 (2020/C 108 I/01). I gael y canllawiau llawn, defnyddiwch y ddolen hon: https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:52020XC0401(05)&from=EN

Dylech hefyd gyfeirio at Amodau Cymorth COVID-19 WEFO a Chwestiynau Cyffredin sydd ar gael yn Atodiad F.

Nodyn i'r buddiolwyr: Cyhoeddodd WEFO yn wreiddiol y canllawiau sydd yn yr Atodiad G hwn, 16 Ebrill 2020. **Er eglurder, ni ddylai buddiolwyr ond ystyried dilyn y canllawiau hyn ar gyfer prynu nwyddau neu wasanaethau sydd eu hangen o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19.**

1. Mae COVID-19 yn argyfwng iechyd sy'n gofyn am atebion cyflym a chlyfar ac ystwythder wrth ddelio â chynnydd aruthrol yn y galw am nwyddau a gwasanaethau tebyg tra bod rhai cadwynau cyflenwi wedi eu tarfu.

2. Yn y lle cyntaf, dylai buddiolwyr fynd at eu Swyddog Datblygu Prosiectau yn WEFO i drafod unrhyw newidiadau arfaethedig i'w gweithgarwch caffael o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Adolygir pob achos ar sail unigol, ond mae'r ddogfen hon yn dwyn ynghyd beth o'r wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael i fuddiolwyr eu defnyddio yng nghyswllt caffael yn ystod y pandemig Covid-19.

3. Opsiynau a hyblygrwydd o dan y fframwaith caffael cyhoeddus

4. Mae gan brynwyr cyhoeddus sawl dewis y gallant eu hystyried:

   a. Yn gyntaf, mewn achosion brys, gallant fanteisio ar bosibiliadau i **leihau'r terfynau amser yn sylweddol** i gyflymu gweithdrefnau agored neu gyfyngedig.

   b. Os nad yw'r hyblygrwydd hwnnw'n ddigonol, gellir rhagweld **gweithdrefn wedi'i negodi heb ei chyhoeddi.** Yn y pen draw, gellid caniatáu hyd yn oed ddyfarniad uniongyrchol i weithredwr economaidd a ddewisir ymlaen llaw, ar yr amod mai'r gweithredwr hwnnw yw'r unig un a all ddarparu'r cyflenwadau angenrheidiol o fewn y cyfyngiadau technegol ac amser a osodir gan y brys eithafol.

   c. Yn ogystal, dylai prynwyr cyhoeddus ystyried chwilio am **atebion amgen ac ymgysylltu â'r farchnad.**

5. Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar gaffaeliadau mewn achosion brys eithriadol, sy'n galluogi prynwyr cyhoeddus i brynu o fewn ychydig ddyddiau, hyd yn oed oriau, os oes angen.

6. Mae'r **weithdrefn wedi'i negodi heb ei chyhoeddi** yn caniatáu i brynwyr cyhoeddus gaffael cyflenwadau a gwasanaethau o fewn yr amser byrraf posibl. Dan y weithdrefn hon, fel y'i nodir yn Erthygl 32 o Gyfarwyddeb 2014/24/EU (y ' Gyfarwyddeb ') (2), gall prynwyr cyhoeddus negodi'n uniongyrchol â darpar gontractwr(wyr) ac nid oes unrhyw ofynion cyhoeddi, dim terfynau amser, dim isafswm o ymgeiswyr i ymgynghori â hwy, na gofynion gweithdrefnol eraill. Nid oes unrhyw gamau gweithdrefnol wedi'u rheoleiddio ar lefel yr UE. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall awdurdodau weithredu mor gyflym ag sy'n ymarferol yn dechnegol/mewn gwirionedd – a gall y weithdrefn fod yn ddyfarniad uniongyrchol de facto sydd ond yn amodol ar gyfyngiadau corfforol/technegol sy'n gysylltiedig ag argaeledd gwirioneddol a chyflymder cyflenwi.

7. Yn ogystal, mae Erthygl 72(1)(c) y Gyfarwyddeb hefyd yn caniatáu **addasiadau i'r contract heb weithdrefn gaffael newydd** rhag ofn y bydd angen addasiad sy'n codi yn sgil amgylchiadau na allai awdurdod contractio diwyd eu rhagweld, pan nad yw'r addasiad yn newid natur gyffredinol y contract a'i fod o fewn terfyn cynnydd mewn pris o 50% o werth y contract neu'r cytundeb fframwaith gwreiddiol. Mewn gwirionedd, mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu ar gyfer addasu contractau pan fydd y cyfryw addasiad yn deillio o amgylchiadau na allai'r awdurdod contractio eu rhagweld.

8. Mae Erthygl 72(1)(e) Cyfarwyddeb 2014/24/EU yn caniatáu ar gyfer addasiadau nad ydynt yn sylweddol, fel y'u diffinnir yn Erthygl 72(4) y Gyfarwyddeb honno, o gontractau yn ystod cyfnodau'r contractau hynny.

9. Er mwyn cyflymu eu caffaeliadau, gall prynwyr cyhoeddus hefyd ystyried:

   - cysylltu â chontractwyr posibl yn yr UE a'r tu allan iddo dros y ffôn, e-bost neu'n bersonol,
   - cyflogi asiantau sydd â chysylltiadau gwell yn y marchnadoedd,
   - anfon cynrychiolwyr yn uniongyrchol i'r gwledydd sydd â'r stociau angenrheidiol ac sy'n gallu sicrhau eu bod yn cael eu darparu ar unwaith,
   - cysylltu â chyflenwyr posibl i gytuno ar gynnydd mewn cynhyrchiant neu ddechrau neu ailddechrau cynhyrchu.

10. Fodd bynnag, yn wyneb sefyllfaoedd o gynnydd eithriadol yn y galw am nwyddau, cynhyrchion a gwasanaethau tebyg ynghyd â tharfu sylweddol ar y gadwyn gyflenwi, efallai y bydd yn gorfforol/dechnegol amhosibl caffael hyd yn oed o ddefnyddio'r gweithdrefnau cyflymaf sydd ar gael. Os felly, gall prynwyr cyhoeddus ystyried ymgysylltu â'r farchnad a chwilio am atebion arloesol eraill.

11. Mae gan brynwyr cyhoeddus y grym llawn o dan fframwaith yr UE i ymgysylltu â'r farchnad ac mewn gweithgareddau paru. Mae sawl ffordd o ryngweithio â'r farchnad i ysgogi'r cyflenwad ac ar gyfer anghenion tymor canolig, gallai defnyddio

gweithdrefnau brys fod yn ffordd fwy dibynadwy o gael gwell gwerth am arian a mynediad ehangach i'r cyflenwadau sydd ar gael.

12. <u>Dewis o weithdrefnau a therfynau amser o dan fframwaith caffael cyhoeddus yr UE - yn enwedig mewn achosion brys a brys eithafol.</u>

13. Ar gyfer contractau sy'n dod o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb, gall yr awdurdod contractio ddewis dyfarnu'r contract yn dilyn gweithdrefn agored neu gyfyngedig (Erthygl 26(2) y Gyfarwyddeb).

a. Ar gyfer **gweithdrefnau agored** sy'n ddarostyngedig i'r Gyfarwyddeb, mae yna derfyn amser o 35 diwrnod ar gyfer cyflwyno tendrau (8).
b. Yn achos **gweithdrefnau cyfyngedig**, mae'r Gyfarwyddeb yn rhagweld y bydd terfyn amser o 30 diwrnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau i gymryd rhan ac yna terfyn amser ychwanegol o 30 diwrnod ar gyfer cyflwyno tendrau (9). Lle bo'r ddeddfwriaeth genedlaethol wedi gweithredu'r opsiwn hwn, gellir cytuno ar y dyddiad cau diwethaf rhwng awdurdodau contractio is-ganolog, megis awdurdodau rhanbarthol neu leol, a'r rhai sy'n cymryd rhan; Os na ellir dod i gytundeb, yna gellir rhoi terfyn amser gofynnol o 10 diwrnod ar waith (10).

14. **Yn ogystal, mewn gweithdrefnau agored a chyfyngedig, gellir byrhau'r terfynau amser hyn:**

(1) naill ai mewn achos o hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw na chafodd ei ddefnyddio fel modd o alw am gystadleuaeth, ond a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr hysbysiad contract yn adran I o ran B o Atodiad V ac a anfonwyd i'w gyhoeddi rhwng 35 diwrnod a 12 mis cyn y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad contract;
(2) neu mewn achos brys a brofwyd yn briodol gan yr awdurdod contractio, a bod hynny'n gwneud y terfyn amser perthnasol (gweler pwynt 2) yn anymarferol).

**Mewn achosion brys – terfynau amser byrrach:**

15. Os oes angen brys, mae'r Gyfarwyddeb yn rhagweld gostyngiad sylweddol yn y terfynau amser cyffredinol: o dan y weithdrefn agored, gellir lleihau'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau i 15 diwrnod mewn achosion lle y mae yna gyfiawnhad dilys dros weithredu ar frys (11); o dan y weithdrefn gyfyngedig, gall y dyddiad cau i gyflwyno cais i gyfranogi gael ei leihau i 15 diwrnod (12) a chyflwyno cynnig i 10 diwrnod (13). Mae hyn yn caniatáu i'r contract gael ei ddyfarnu'n gyflym.

16. Mae defnyddio gweithdrefn agored neu gyfyngedig 'garlam' yn cydymffurfio ag egwyddorion triniaeth gyfartal a thryloywder ac yn sicrhau cystadleuaeth hyd yn oed mewn achosion brys. Mewn achosion brys sy'n golygu bod y terfynau amser perthnasol o dan amgylchiadau arferol yn anymarferol, gall awdurdodau contractio leihau'r terfynau amser, sy'n gymwys i weithdrefn gaffael gyhoeddus agored neu gyfyngedig yn unol â'r Gyfarwyddeb.

| Gweithdrefn | Terfynau amser isaf arferol | Terfynau amser isaf byrrach |
|---|---|---|
| Gweithdrefn agored | 35 diwrnod | 15 diwrnod |
| Y weithdrefn gyfyngedig (cam 1: Cais i gyfranogi) | 30 diwrnod | 10 diwrnod |
| Y weithdrefn gyfyngedig (cam 2: Cyflwyno'r tendr) | 30 diwrnod | 10 diwrnod |

**Mewn achosion o frys eithafol – gweithdrefn wedi'i negodi heb ei chyhoeddi**

17. Gyda'r 'weithdrefn wedi'i negodi heb ei chyhoeddi', mae cyfraith yr Undeb yn darparu offeryn ychwanegol, a fydd yn caniatáu ar gyfer dyfarnu contractau'n gynt er mwyn darparu ar gyfer anghenion sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19.

18. Gall awdurdodau contractio ddyfarnu contractau cyhoeddus drwy weithdrefn wedi'i negodi heb ei chyhoeddi 'cyhyd a'i fod yn gwbl angenrheidiol, lle na ellir cydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer y gweithdrefnau agored neu gyfyngedig neu'r gweithdrefnau cystadleuol, oherwydd brys eithriadol yn sgil digwyddiadau na allai'r awdurdod contraction fod wedi eu rhagweld. Ni fydd yr amgylchiadau a gaiff eu rhoi ar waith i gyfiawnhau brys eithriadol yn cael eu priodoli i'r awdurdod contractio beth bynnag.' (Erthygl 32(2)(c) y Gyfarwyddeb).

19. Wrth i awdurdodau contractio randdirymu yn yr achos hwn o egwyddor sylfaenol y Cytuniad ynghylch tryloywder, mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn mynnu bod y defnydd o'r weithdrefn hon yn parhau i fod yn eithriadol. Mae'n rhaid bodloni'r holl amodau gyda'i gilydd a dylid eu dehongli mewn modd cyfyngol.

20. Bydd yn rhaid i bob awdurdod contractio werthuso a yw'r amodau ar gyfer defnyddio'r cyfryw 'weithdrefn wedi'i negodi heb ei chyhoeddi ymlaen llaw' yn cael eu bodloni. Bydd yn rhaid iddo gyfiawnhau ei ddewis o'r weithdrefn honno mewn adroddiad unigol (19). Yn yr asesiad unigol o bob achos bydd rhaid bodloni'r meini prawf cronnus canlynol:

    a. *Digwyddiadau na ellid eu rhagweld gan yr awdurdod contractio dan sylw* - Yn sicr, ni ellid rhagweld a rhag-gynllunio'r anghenion penodol sydd gan ysbytai, a sefydliadau iechyd eraill i ddarparu triniaeth, cyfarpar amddiffyn personol, awyryddion, gwelyau ychwanegol, a seilwaith ychwanegol ar gyfer gofal dwys ac ysbytai, gan gynnwys yr holl offer technegol, ac felly mae'n ddigwyddiad na ellid ei ragweld i'r awdurdodau contractio.

    b. *Brys eithriadol yn gwneud cydymffurfio â therfynau amser cyffredinol yn amhosibl* - Ni ellir amau'r angen i fodloni anghenion uniongyrchol yr ysbytai a'r sefydliadau iechyd (cyflenwadau, gwasanaethau a gwaith cyhoeddus)

mor gyflym ag sy'n bosibl. (Bydd yn rhaid asesu p'un a yw hyn yn ei gwneud yn amhosibl i barchu hyd yn oed y terfynau amser byr iawn ar y weithdrefn agored neu gyfyngedig garlam (15 a 10 diwrnod yn y drefn honno i gyflwyno'r cynigion) ar sail pob achos unigol. [I gael rhagor o fanylion am hyn, gweler y canllawiau llawn]

c. *Cysylltiad achosol rhwng y digwyddiad annisgwyl a'r brys eithafol* - Er mwyn bodloni anghenion uniongyrchol ysbytai a sefydliadau iechyd o fewn cyfnod byr iawn, ni ellir yn rhesymol amau'r cysylltiad achosol â phandemig COVID-19.

d. *Ei ddefnyddio'n unig er mwyn llenwi'r bwlch hyd nes y gellir dod o hyd i atebion mwy sefydlog* - Gall gweithdrefnau wedi'i negodi heb eu cyhoeddi ymlaen llaw gynnig y posibilrwydd o ddiwallu anghenion uniongyrchol. Maent yn cwmpasu'r bwlch hyd nes y gellir dod o hyd i atebion mwy sefydlog, megis contractau fframwaith ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau, a ddyfernir drwy weithdrefnau rheolaidd (gan gynnwys gweithdrefnau carlam).

**PPN 01/20 ac PPN 02/20 – Nodiadau Polisi Caffael oddi wrth Lywodraeth y DU**

21. PPN 01/20 a PPN 02/20 yw nodiadau polisi Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU y mae Gweinidog Cyllid Cymru wedi cadarnhau y byddant ill dau'n gymwys i Gymru, ac felly bydd WEFO yn eu hystyried pan fydd hynny'n berthnasol ac os ydynt yn gymwys.

22. Dolen i PPN 01/20: https://www.gov.uk/government/publications/procurement-policy-note-0120-responding-to-covid-19

21. Nodyn Polisi Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU - rhyddhad cyflenwyr PPN02/20. A oes unrhyw newidiadau i reolau caffael o ganlyniad i COVID-19? A allaf i ryddhau blaendaliadau i'm cyflenwyr er mwyn sicrhau dilyniant unwaith y bydd yr argyfwng drosodd? Dolen i PPN 02/20: https://www.gov.uk/government/publications/procurement-policy-note-0220-supplier-relief-due-to-covid-19

23. Oherwydd argyfwng presennol COVID-19 efallai y bydd taliadau ymlaen llaw i gyflenwyr yn anochel, er mwyn cefnogi'r cyflenwyr hynny sydd mewn perygl er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n well ac ailddechrau darparu gwasanaeth arferol a chyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol pan fydd yr argyfwng ar ben. Felly bydd taliadau ymlaen llaw am wasanaethau fel rhan o gontract cymeradwy ac a ddefnyddir yn unol â Nodyn Polisi Swyddfa'r Cabinet yn gymwys i gael cymorth.

24. O safbwynt cymhwysedd, fel y nodwyd yn y cwestiynau cyffredin, mae rheolau cymhwysedd WEFO eisoes yn darparu opsiynau ar gyfer talu am nwyddau ymlaen llaw. Mae adran 7.3.4 yn nodi *: Os oes gofyn i chi dalu am nwyddau neu*

*wasanaethau ymlaen llaw, gan gynnwys blaendaliadau, gallwch gynnwys y costau hyn yn eich hawliad i ni fel cost sydd 'wedi'i dalu' ond dim ond lle:*

- *y rhain yw telerau busnes safonol y cyflenwr neu'r contractwr ac maent ar eu cais neu'n anochel; ac*
- *er mwyn sicrhau'r pris gorau neu sicrhau gostyngiadau sylweddol (er enghraifft, tocynnau teithio a llety); neu*
- *i sicrhau'r ansawdd gorau (e.e. archebwch yn gynnar i sicrhau'r lleoliad gorau ar gyfer digwyddiad allweddol sy'n hanfodol i lwyddiant y prosiect).*

25. Wrth ddilyn y dull hwn, bydd angen i bob buddiolwr sicrhau hefyd fod ganddynt gyfiawnhad llawn dros wneud unrhyw daliadau ymlaen llaw a'u bod yn cofnodi/dogfennu'r holl benderfyniadau a wnaed a'r rhesymau dros wneud hynny, **gan sicrhau trywydd archwilio cadarn ar gyfer yr holl benderfyniadau a wnaed ar gyfer gwneud y cyfryw flaendaliadau ac a fydd o bosibl yn sail i archwiliadau gan WEFO/LlC/SAC a/neu'r UE**.

**Nodyn i'r buddiolwyr:**

Rhaid i fuddiolwyr barhau i gydymffurfio â phob un o gyfreithiau/polisïau llywodraeth berthnasol y Gymuned Ewropeaidd, y DU a Chymru wrth osod contractau a ariennir yn rhannol gan gronfeydd yr UE.

Wrth ddilyn unrhyw un o'r gweithdrefnau uchod, dylech barhau i fod yn ymwybodol o'r pwysigrwydd a'r angen i gofnodi a dogfennu'r holl benderfyniadau a wnaed a'r rhesymau dros wneud hynny, a chadw'r cofnodion at ddibenion archwilio yn y dyfodol.

Os byddwch yn profi unrhyw effaith ar eich contract caffael/proses gaffael o ganlyniad i Coronafeirws (COVID-19), dylech gyfeirio at eich cyswllt WEFO perthnasol i gael rhagor o gyngor.

## ATODIAD H – Y Cyfnod Pontio a’r Cyfnod Ar ôl Pontio Ymadael â'r UE a Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20: cwestiynau cyffredin

Nod y ddogfen hon yw rhoi rhagor o fanylion i fuddiolwyr gweithrediadau'r Cronfeydd Strwythurol ar sut y gallai’r cyfnod pontio a’r cyfnod ar ôl pontio Ymadael â'r UE effeithio'n uniongyrchol ar redeg gweithrediadau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, ar gyfer y rhan fwyaf o weithrediadau a ariennir gan yr UE, mai ychydig iawn o newid a fydd ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

O dan delerau'r Cytundeb Ymadael, y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ddiwedd 2019, bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE a ariennir drwy Fframwaith Ariannol Amlflwydd presennol 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys yr holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIFs):

- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
- Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC)
- Rhaglen Iwerddon Cymru
- Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)
- Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).

Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw newid yn y trefniadau presennol ar gyfer buddiolwyr prosiectau cyfredol a ariennir gan yr UE. Mae hyn yn berthnasol i bob agwedd ar reoli prosiectau gan gynnwys cyflwyno a thalu hawliadau, gwiriadau dilysu ac, yn bwysig, cadw cofnodion perthnasol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **Brexit a phrosiectau a ariennir gan yr EU.**

### 1. Beth yw'r cyfnod pontio a phryd y daw i ben?

Fel rhan o'r Cytundeb Ymadael y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ddiwedd 2019, gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020 ac ymrwymodd i'r hyn a elwir yn 'Gyfnod Pontio' (a elwir weithiau'n gyfnod gweithredu) tra bod y DU a'r UE yn trafod y berthynas yn y dyfodol. O dan delerau'r cyfnod pontio, parhaodd y rhan fwyaf o gyfraith yr UE i fod yn gymwys i'r DU a olygai nad oedd llawer wedi newid o ran perthynas y DU â'r UE. Ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020, mae'n debygol y bydd rhai newidiadau a allai effeithio ar rai gweithrediadau presennol a ariennir gan yr UE.

### 2. A fydd unrhyw beth yn newid o ran cyflawni Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl y cyfnod pontio?

Na, ni fydd unrhyw newid i'r trefniadau presennol ar gyfer y gweithrediadau presennol a ariennir gan yr UE. Fel y cyfeirir ato yn Erthygl 138 o'r **Cytundeb Ymadael** (dolen allanol), bydd pob gweithrediad yn parhau i dderbyn cyllid yr UE o dan y rheolau arferol a dylech barhau i gyflawni eich gweithrediad fel yr ydych chi ar hyn o bryd. O dan delerau'r Cytundeb Ymadael, a lofnodwyd ym mis Ionawr 2020, bydd y DU yn aros yn rhaglenni ESIF 2014-2020 gyda chyllid yr UE tan fis Rhagfyr 2023, pan fyddant yn cau.

Nid oes angen unrhyw newidiadau i'ch Cytundeb Ariannu a bydd yr holl rwymedigaethau sy'n deillio o'r Cytundebau Ariannu hynny yn parhau i fod mewn grym.

**3. A fydd gweithrediadau'n parhau i gael eu hariannu ar ôl y cyfnod pontio?**

Bydd, bydd buddiolwyr yn parhau i dderbyn cyllid gan yr UE dros oes y gweithrediadau ac o fewn y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn eich proffil cyflawni. Bydd angen trafod unrhyw newidiadau i'r dyddiadau hyn a chytuno arnynt gyda'r Swyddog Datblygu Prosiect (PDO) WEFO a neilltuwyd ar eich cyfer. Er mwyn galluogi/cynorthwyo gyda chau rhaglenni 2014-20 yn drefnus, bydd y rhan fwyaf o'r gweithrediadau a gefnogir gan WEFO yn gorffen erbyn mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau, ond bach iawn yw'r rhain. Dylech barhau i ddefnyddio WEFO Ar-lein i gyflwyno hawliadau a diweddaru gwybodaeth.

**4. A fydd y rheolau a'r amodau presennol yn parhau ar ôl y cyfnod pontio?**

Bydd, bydd yr holl reolau ac amodau presennol yn parhau i fod yn gymwys ar ôl y cyfnod pontio ac mae hynny'n un o ofynion y Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU. Mae hyn yn cynnwys y rheoliadau ESI eu hunain, caffael, cymorth gwladwriaethol a GDPR. Dylech barhau i gyfeirio at yr un rheolau cymhwysedd a dogfennau canllaw WEFO a dilyn holl gyfraith berthnasol yr UE.

**5. Gweithrediadau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd**

Os ydych yn gweithio ar weithrediadau posibl, dylech barhau i ddatblygu eich cynlluniau gyda ni.

**6. A fydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn dal i fod yn gymwys ar ôl y cyfnod pontio?**

Yn ystod y cyfnod pontio roedd y GDPR yn parhau i fod yn berthnasol i'r DU ac roedd yn ofynnol i barhau i ddilyn y gyfraith a'r canllawiau a fodolai eisoes. O 1 Ionawr 2021 ymlaen, mae’r GDPR wedi dod yn rhan o gyfraith y DU (gyda mân ddiwygiadau i wneud iddo weithredu'n iawn mewn cyd-destun y DU yn unig) ac mae’n cael ei alw yn awr yn ‘GDPR y DU’. Bydd Deddf Diogelu Data 2018 yn parhau i fod yn gymwys. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud na fydd cyfyngiadau ar drosglwyddo data o'r DU i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Mae hyn yn golygu y bydd cyfraith a safonau diogelu data yn parhau, i raddau helaeth fel ag o'r blaen, ac ni fydd hyn yn effeithio ar lif y data yn y DU ac o'r DU i'r UE. Felly, ni fydd y rhan fwyaf o weithrediadau'n cael eu heffeithio ar ôl y cyfnod pontio**.** Gweler yr ymateb isod am ddata a drosglwyddir o'r tu allan i'r DU.

**7. Beth am gyfyngiadau ar drosglwyddo data o'r UE/AEE i'r DU?**

Ym mis Mehefin 2021 gwnaeth yr UE fabwysiadu penderfyniadau digonolrwydd a oedd yn ei gwneud hi’n bosibl i ddata personol barhau i lifo rhwng Ewrop a’r DU am gyfnod o hyd at bedair blynedd. Gwnaed hyn yn dilyn cyfnod interim dros 6 mis a wnaeth hi’n bosibl i ddata lifo’n rhydd.

Rhaid i fuddiolwyr barhau felly i ddilyn (a) cyfraith diogelu data yr UE (fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020) a’r (b) gweithdrefnau/ prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer adrodd ar ddata o’r fath/ eu darparu i WEFO.

Er gwybodaeth, mae dolenni i’w cael isod i (a) datganiad y Comisiynydd Gwybodaeth mewn ymateb i’r penderfyniad digonolrwydd, (b) cyhoeddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar fabwysiadu’r penderfyniadau digonolrwydd.

[Datganiad Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth mewn ymateb i gyhoeddiad Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd ar gymeradwyo digonolrwydd y DU | Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth]

[Comisiwn yn mabwysiadu penderfyniadau digonolrwydd ar gyfer y DU (europa.eu)]

Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar weithrediadau yn rhaglen Iwerddon Cymru. Mae WEFO wedi rhoi gwybod i fuddiolwyr y gweithrediadau hyn ac, os bydd angen, bydd yn sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn cael eu sefydlu i sicrhau y gall data barhau i lifo.

**8. Beth fydd yn digwydd i'r rheolau caffael cyhoeddus ar ôl y cyfnod pontio?**

Rhaid i reolau caffael cyhoeddus barhau i fod yn gymwys i bob gweithrediad a ariennir gan yr UE ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Felly, er mwyn gallu bodloni’r gofynion cysylltiedig, rhaid i fuddiolwyr barhau i hysbysebu contractau sydd y tu hwnt i drothwyon penodedig yr UE a chyhoeddi hysbysiadau yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) a Tenders Electronic Daily (TED). Mae’r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau y bydd y DU yn parhau i gael mynediad at OJEU a TED hyd nes y daw’r Rhaglenni i ben. Rhaid i fuddiolwyr felly barhau i hysbysebu’r contractau hyn/ cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract drwy GwerthwchiGymru ac, er mwyn sicrhau bod yr hyn a gaiff ei gaffael yn cael ei hysbysebu yn OJEU a TED, bydd angen i fuddiolwyr roi tic yn y blwch ‘ariennir gan yr UE’ wrth lenwi’r ffurflen creu hysbysiad contract ar system GwerthwchiGymru.

Diweddariad Ionawr 2022: O 1 Ionawr 2022 bydd rhaid i unrhyw caffael a ariennir gan yr UE gydymffurfio â throthwyon newydd y DU fel ei gosodir yn **[Procurement Policy Note]** ar GOV.UK.

Mae hyn yn golygu, yn ogystal  â chydymffurfio a’r trothwyon diwygiedig, bydd rhaid i awdurdodau contractio bellach yn gynnwys TAW yn eu hamcangyfrifon  gwerth cytundeb wrth sefydlu os yw cytundeb yn cyrraedd y trothwyon. Mae hyn oherwydd fod y DU nawr yn aelod annibynnol o’r Cytundeb Caffael Llywodraethol (Government Procurement Agreement – GPA) ac yn gosod eu trothwyon eu hunain yn unol â fethodoleg safonol y GPA a fabwysiedir gan aelodau’r GPA sydd ddim yn rhan o’r UE. Mae gadael TAW allan o’r gwerthoedd trothwy yn fesur mewnol i’r UE na ddylid ei ddefnyddio yn y DU ar ôl gadael yr UE. Gan nad yw’r DU bellach yn Aelod Wladwriaeth, nid yw’n ofynnol  i’r UE gyhoeddi gwerth sterling unrhyw drothwyon newydd.  Felly nid yw’n ymarferol bosibl i fuddiolwyr y DU o gronfeydd yr UE gydymffurfio â’r trothwyon a osodir yng nghyfarwyddebau’r UE ac fe ddylid dilyn y trothwyon a amlinellir yn y PPN uchod.  Bydd angen i fuddiolwyr, wedi'u lleoli yn Ne Iwerddon ac yn derbyn cymorth gan Raglen Iwerddon Cymru, barhau i gadw at drothwyon/ cyfarwyddebau'r UE wrth ymgymryd â/ cymhwyso polisïau/ prosesau caffael priodol.

Diweddariad Gorffennaf 2021: Mae GwerthwchiGymru wedi cyhoeddi **[eitem newyddion]** (dolen allanol) sy’n cadarnhau y bydd unrhyw gontractau newydd sy’n cael eu caffael ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE yn cael eu cyhoeddi yn OJEU, TED a GwerthwchiGymru yn unig o fis Gorffennaf 2021 ymlaen (ni fydd y contractau hyn yn ymddangos yng Ngwasanaeth Canfod Tendr (FTS) y DU). Mae cyngor cyfreithiol wedi cadarnhau bod angen cymryd y cam hwn er mwyn osgoi mynd yn groes i Erthygl 52 o

Gyfarwyddeb Caffael Cyhoeddus yr UE 2014/24EU, h.y. rhaid cyhoeddi hysbysiadau contract yn OJEU a TED cyn eu cyhoeddi ar lefel genedlaethol (FTS), oni bai bod 48 awr wedi mynd heibio ers i'r hysbysiad gael ei roi i OJEU a TED. Bydd cyhoeddi yn FTS cyn neu'r un pryd ag yn OJEU a TED yn mynd yn groes i Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael.

Ar gyfer contractau gweithrediadau a ariennir gan yr UE sy'n cael eu caffael sydd o dan drothwy yr UE ac a gaiff eu hysbysebu/ eu dyfarnu gan awdurdodau contractio ac awdurdodau nad ydynt yn contractio o 1 Ionawr 2021 ymlaen. Bydd dal angen i fuddiolwyr lynu at egwyddorion Cytuniad yr UE o dryloywder, peidio â gwahaniaethu a thriniaeth gyfartal yn ogystal â glynu at eu polisïau caffael sefydledig eu hunain a safonau gofynnol WEFO (fel y nodwyd yn Adran 36 o 'Reolau Cymhwystra ac Amodau ar gyfer cael Cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020' ac Adran 25 o reolau a chanllawiau cymhwyster Rhaglen Cydweithredu Cymru Iwerddon 2014-2020'). Os caiff unrhyw rai o'r rhain eu torri gallai WEFO gymhwyso cywiriad ariannol fel yr amlinellir ym Mhenderfyniad y Comisiwn ar 19.12.2013, o dan y teitl 'Guidelines for determining financial corrections to be made by the Commission to expenditure financed by the Union under shared management, for non-compliance with the rules on public procurement'.

Er gwybodaeth – mae manylion y polisi caffael cyhoeddus i'w gweld ar **wefan GwerthwchiGymru** (i fuddiolwyr yng Nghymru) neu gov.ie – Office of Government Procurement (www.gov.ie) ar gyfer buddiolwyr yn Iwerddon.

**9. A fydd rheolau Cymorth Gwladwriaethol yn parhau i fod yn berthnasol i'm gweithrediad ar ôl y cyfnod pontio?**

Fel y nodir yn y Cytundeb Ymadael, mae ein cyfranogiad parhaus yn Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yn ddibynnol ar barhau i lynu wrth Gyfraith berthnasol yr UE, mae hyn yn cynnwys rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Felly, bydd rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE yn parhau i fod yn berthnasol i'n Rhaglenni ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Fel y cyfryw, dylech barhau i gydymffurfio â'r Rheolau Cymorth Gwladwriaethol presennol drwy gydol eich gweithrediadau a hyd nes iddynt gau.

Ni fydd Cyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU a ddaeth yn weithredol ar 1 Ionawr 2021 yn cael unrhyw effaith ar raglenni a ariennir gan yr UE/ rheolau'r UE ac yn unol â Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022, nid yw'r cymorth a ddarperir drwy gronfeydd yr UE yn ddarostyngedig i ofynion ychwanegol Cyfundrefn Rheoli Cymhorthdal y DU. Felly, rhaid parhau i gymhwyso rheolau Cymorth gwladwriaethol yr UE, gan gynnwys cymorth de minimis, i Raglenni'r UE.

Ar gyfer gweithrediadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ac sy'n derbyn cymorth gwladwriaethol (gan gynnwys cynlluniau cymorth gwladwriaethol a oedd i fod i ddod i ben yn wreiddiol ar ddiwedd 2020), mae'r rheolau a'r ddarpariaeth cymorth gwladwriaethol perthnasol yn parhau i fod yn gymwys wrth gyflawni'r gweithrediad yn ei gyfanrwydd. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn yn awr wedi cael eu hymestyn tan 31 Rhagfyr 2023.

Bydd pob gweithrediad a gymeradwywyd o 1 Ionawr 2021 y mae angen cymorth gwladwriaethol arnynt, gan gynnwys cymorth de minimis, yn cael cytundeb ariannu a fydd yn cyfeirio at y cymorth gwladwriaethol perthnasol, ee cynllun Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (GBER) Llywodraeth Cymru, cynlluniau GBER a arweinir gan Addysg

Uwch (AU), Addysg Bellach (AB) ac awdurdodau lleol (pan fo cynlluniau o'r fath yn bodoli a/ neu wedi cael eu codi gan Lywodraeth y DU), darpariaeth drwy'r Fenter Fuddsoddi Ymateb i'r Coronafeirws (CRII)/ CRII+ Fframwaith Dros Dro Cymorth Gwladwriaethol, etc. Pan fydd buddiolwyr yn cyflwyno gweithgarwch newydd i weithrediadau sy'n cael cymorth gan gronfa strwythurol a gymeradwywyd yn barod, ac y mae'n ofynnol iddynt gael rhagor o gymorth gwladwriaethol, bydd WEFO unwaith eto yn cyhoeddi cytundeb ariannu newydd sy'n cyfeirio at y cymorth gwladwriaethol perthnasol. O ran amrywiol elfennau'r ddarpariaeth Cymorth Gwladwriaethol, cyfeiriwch at yr wybodaeth ychwanegol sydd i'w gweld isod:

**Cynlluniau Cofrestredig GBER Llywodraeth Cymru/ CLlLC/ AB ac AU o 1 Ionawr 2021:**

Mae Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru yn y broses o ail-gofrestru pob un o gynlluniau GBER Llywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo i ymestyn pob cynllun GBER a arweinir gan CLlLC/ AB ac AU, gan eu hymestyn tan 31 Rhagfyr 2023. Bydd buddiolwyr yn gallu parhau i ddefnyddio'r cynlluniau GBER hyn felly ar gyfer eu gweithrediadau a gymeradwywyd gan WEFO o 1 Ionawr 2021 a bydd angen iddynt sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion pob cynllun GBER – fel yw'r arfer ar hyn o bryd.

## Cynllun Fframwaith Dros Dro Cymorth Gwladwriaethol COVID-19:

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Fframwaith Dros Dro ar gyfer mesurau Cymorth Gwladwriaethol ar 19 Mawrth 2020 (gyda diweddariadau wedi hynny ar 3 Ebrill, 8 Mai) i gynnwys yr hyblygrwydd a roddwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd drwy Fenter Buddsoddi Ymateb i'r Coronafeirws (CRII) a CRII+ wedi hynny. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ymestyn hyd at Mehefin 2021, gydag estyniad dilynol tan Mehefin 2022. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cadarnhau na fydd yn cynllun yn cael ei ymestyn wedi 30 Mehefin 2022. Gweler yr erthygl newyddion wedi'i atodi gan y Comisiwn Ewropeaidd:

https://ec.europa.eu/commission/presscorner/detail/en/statement_22_2980

**Y Cynllun De Minimis:**

Bydd rhaid i fuddiolwyr Rhaglenni'r UE barhau i gydymffurfio â'r gofynion blaenorol sy'n gysylltiedig â chymorth *de minimis*, hy (a) sicrhau nad yw derbynnydd y cymorth yn derbyn cymorth, (gan gynnwys unrhyw 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA) neu 'Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA) a dderbyniwyd o dan Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau y DU) a fydd yn rhagori ar y trothwy *de minimis* dros gyfnod o dair blynedd ariannol a (b) darparu i dderbynnydd y cymorth fanylion gwerth y cymorth *de minimis* a ddyfernir.

**10. A fydd dinasyddion yr UE yn dal i fod yn gymwys ar gyfer gweithrediadau a ddarperir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop?**

Byddai unrhyw un a all ddangos tystiolaeth o'u hawl gyfreithiol i fyw/gweithio yn y DU yn bodloni'r rheol cymhwysedd sylfaenol ar gyfer cyllid ESF p'un a ydynt yn dod o'r UE neu weddill y byd a bydd hynny'n parhau i fod yn gymwys.

Bydd angen i ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir, sy'n byw yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020, wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i barhau i fyw yn y DU. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn berthnasol os ydych yn gymwys fel aelod o deulu person cymwys o Ogledd Iwerddon – ceir rhagor o fanylion am feini prawf y cymhwyster yn y **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** (dolen allanol). Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw 30 Mehefin 2021.

Noder nad yw'r gofyniad hwn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn berthnasol i ddinasyddion Iwerddon gan nad yw'n ofynnol iddynt ofyn am ganiatâd i ddod i mewn/aros yn y DU. Ceir rhai gwaharddiadau a gellir dod o hyd i fanylion am y rhain yn **Neddf Cydgysylltu Mewnfudo a Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) 2020, Rhan 1, Adran 2** (dolen allanol).

Ar ôl 1 Ionawr 2021, gall cyfranogwyr yr UE hefyd gadarnhau eu cynllun/statws preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE i gadarnhau eu bod yn gymwys i gael cymorth ESF a bydd hyn yn cael ei ychwanegu at y rhestr 'tystiolaeth a ffefrir'. Bydd hyn ond yn berthnasol i gyfranogwyr yr UE a fydd yn cael eu recriwtio i weithrediadau ESF o 1 Ionawr 2021 ac nid oes angen ymarfer ôl-weithredol ar gyfranogwyr presennol ESF.

Mae'r cyflwyniad isod yn egluro rhai manylion ymarferol ynglŷn â sut y bydd **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** (dolen allanol) yn gweithio ac mae'n cyfeirio at y dystiolaeth y gall fod yn ofynnol i fuddiolwyr ei chasglu i ddangos eu bod yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun.

Mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael tystiolaeth ddigidol o'u statws drwy wasanaeth ar-lein: gov.uk/view-prove-immigration-status. Ni ddarperir dogfen argraffedig oni bai eich bod o'r tu allan i'r AEE ac nad oes gennych eisoes gerdyn preswylio biometreg. Gellir olrhain cynnydd ceisiadau ar-lein.

- Bydd statws preswylydd cyn-sefydlog a statws preswylydd sefydlog yn galluogi ymgeisydd llwyddiannus i barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

**11. A fydd cyfnodau cadw dogfennau'r UE yn dal i fod yn berthnasol ar ôl y cyfnod pontio?**

Byddant. Bydd yr un gofynion cadw dogfennau yn parhau i fod yn berthnasol ac ni ddylech ddinistrio unrhyw ddogfennau hyd nes y cewch hysbysiad ysgrifenedig gan WEFO i wneud hynny, yn unol â'r cyfeiriadau atynt yn y Cytundeb Ariannu a rheolau cymhwysedd WEFO – Adran 5.1.4.1 Cyfnodau Cadw Dogfennau a Chadw Cofnodion.

**12. A fydd gwiriadau ac archwiliadau'n parhau fel arfer ar ôl y cyfnod pontio?**

Byddant. Bydd yr holl wiriadau ac archwiliadau cyfredol yn parhau fel arfer ar ôl y cyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys Tîm Dilysu Rheoli WEFO, Tîm Archwilio'r Cronfeydd Ewropeaidd, archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Archwilwyr Ewrop.

Bydd gofyn i chi gynnal yr holl ddogfennau perthnasol o hyd a chydymffurfio â'r holl ofynion archwilio.

**13. (Cwestiwn penodol Iwerddon Cymru) A all Buddiolwr Arweiniol yn y DU barhau i ymgymryd â'r holl swyddogaethau a chyfrifoldebau presennol neu a ddylem yn awr geisio dod o hyd i bartner arweiniol o Aelod-wladwriaeth?**

Mae'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE yn golygu y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cyfredol tan y diwedd. Felly dylai sefydliadau'r DU sy'n gweithredu fel buddiolwyr arweiniol mewn gweithrediadau barhau i ymgymryd â'r holl swyddogaethau a chyfrifoldebau fel ar hyn o bryd.

Mae'n bosibl y bydd rhai buddiolwyr, yn enwedig y rheini yn y sector cyhoeddus, wedi derbyn llythyr yn ddiweddar oddi wrth Drysorlys ei Mawrhydi (Annwyl Swyddog Cyfrifyddu) yn ymwneud â 'Rheoli Arian Cyhoeddus', DAO 02/ 21, dyddiedig 15 Ionawr 2021. Mae'r llythyr yn rhoi gwybod, gan fod y DU wedi cwblhau ei chyfnod pontio o'r Undeb Ewropeaidd (UE), o 1 Ionawr 2021 ymlaen felly nid oes angen i gyrff cyhoeddus lynu at bolisïau, fframweithiau a phrosesau yr UE mwyach wrth reoli arian cyhoeddus. Nid yw hyn yn berthnasol i Raglenni Cronfa Strwythurol yr UE yn unol â thelerau'r Cytundeb Ymadael (Erthygl 138). Felly, rhaid i bob buddiolwr sy'n derbyn cymorth gan Gronfeydd Strwythurol yr UE barhau i gydymffurfio â chyfreithiau a gofynion yr UE fel y nodir yn eu cytundebau ariannu ar gyfer eu gweithrediadau ar eu hyd/ yn eu cyfanrwydd a chan gynnwys y cyfnodau gofynnol ar gyfer cadw dogfennau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, trafodwch nhw gyda'ch Swyddog Datblygu Prosiect yn y lle cyntaf.

## ATODIAD I – Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020: Addasiadau i Gontractau Caffael – canllawiau ychwanegol i fuddiolwyr/partneriaid prosiectau WEFO

Pwrpas y nodyn hwn yw rhoi canllawiau pellach i fuddiolwyr/partneriaid prosiectau WEFO ar addasiadau i gontractau y gall fod angen eu gwneud tra mae gweithrediadau a ariennir drwy ESF ac ERDF yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n eistedd ochr yn ochr â'r rheolau cenedlaethol canlynol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, ac yn ffurfio rhan ohonynt:

- 'Rheolau Cymhwystra ac Amodau ar gyfer cael Cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020'
- Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020: Rheolau a chanllawiau cymhwystra rhaglenni

Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni yn y DU (ac yn ehangach) wedi arwain at farchnad anwadal, yn enwedig yn y sector adeiladu, ac mae'n cael llawer o effaith ar gontractau, megis cynnydd mewn prisiau nad oedd modd ei rag-weld ac amharu sylweddol ar gadwyni cyflenwi.

Yn y lle cyntaf, i liniaru'r effeithiau posibl, mae buddiolwyr/partneriaid prosiectau yn cael eu cynghori i ystyried y canlynol:

- Cynnwys cynlluniau wrth gefn yn eich Gwahoddiad i Dendro a'ch Manylebau i ganiatáu ar gyfer cynnydd yng nghanran prisiau neu gynhyrchion amgen os amharir ar y gadwyn gyflenwi ar ôl i'r contract ddechrau.
- Ystyried defnyddio egwyddorion Ymwneud Cynnar gan Gontractwr pan fyddwch yn contractio, e.e. dull dau gam a dull Dylunio ac Adeiladu.
- Defnyddio meincnodi i ddangos y costau diweddaraf, er mwyn dangos y sicrhawyd gwerth am arian.
- Nodi risgiau posibl ymlaen llaw, ble bynnag y bo modd, a sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli drwy gydol y contract.

**Awdurdodau Contractio – Dros drothwyon OJEU (buddiolwr o Iwerddon) a/neu drothwyon caffael cyhoeddus y DU (buddiolwr o Gymru). (Sylwch fod trothwyon OJEU wedi newid o 1 Ionawr 2022. Yn ogystal, ac yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae trothwyon caffael yn y DU bellach yn cael eu galw'n drothwyon Gwasanaeth Canfod Tendr (FTS). Cafodd y rhain eu gosod ar gyfer y DU ar 1 Ionawr 2022 ac maent yn cynnwys TAW wrth gyfrifo gwerth amcangyfrifedig contract i benderfynu a yw'r rheoliadau'n gymwys. Bydd angen i fuddiolwyr/partneriaid prosiectau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r trothwyon newydd ar gyfer unrhyw brosesau caffael a fydd yn dechrau o'r dyddiad hwn). Bydd angen i'r buddiolwyr sydd wedi'u lleoli yn Ne Iwerddon, ac sy'n derbyn cymorth gan Raglen Iwerddon Cymru, barhau i gadw at drothwyon/cyfarwyddebau'r UE wrth fynd i'r afael â/cymhwyso polisïau/cyfarwyddebau caffael perthnasol).**

Rhaid i bob buddiolwr/partner prosiect sy'n awdurdod contractio (h.y. wedi'i reoleiddio gan ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus) gydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 (Cymru) a Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau Awdurdodau Cyhoeddus) 2016, Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau

gan Ymgymerwyr Cyfleustodau) 2016, a Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau Consesiwn) 2017 (Iwerddon). Ar gyfer unrhyw addasiadau i gontract:

- Bydd Rheoliad 72 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 a Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau Awdurdodau Cyhoeddus) 2016 yn berthnasol
- Rheoliad 97 yw'r rheoliad cyfatebol ar gyfer Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau gan Ymgymerwyr Cyfleustodau) 2016, a
- Rheoliad 43 yw'r rheoliad cyfatebol ar gyfer Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau Consesiwn) 2017

Ar ddechrau pandemig Covid-19, gwnaeth Comisiwn yr UE hi'n glir bod fframwaith caffael cyhoeddus yr UE (y mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 a Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau Awdurdodau Cyhoeddus) 2016 yn cyd-fynd ag ef) yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i brynwyr cyhoeddus brynu cynhyrchion a gwasanaethau yn unol â'r rheolau a nodir yn y cyfarwyddebau. Yn yr un modd, bydd angen gwneud addasiadau i gontract yn unol â'r sefyllfaoedd a nodir yn Rheoliad 72 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Dyfarnu Contractau Awdurdodau Cyhoeddus) 2016. Mae buddiolwyr/partneriaid prosiectau yn cael eu cynghori i ystyried yn ofalus ba opsiwn sy'n berthnasol i'r addasiad y maent am ei wneud i gontract, nodi sut y gwnaethant y penderfyniad, a chadw cofnod o bob penderfyniad a gwybodaeth a ystyriwyd wrth wneud y penderfyniad. Cynghorir buddiolwyr/partneriaid prosiect hefyd i ystyried a ddylid cynnwys TAW wrth ymestyn gwerth contract ac yn enwedig lle bydd dibyniaeth yn cael ei roi ar ddefnyddio Rheoliad 72(5)(a). Dylid hefyd gadw cofnod llawn o awdurdodiadau priodol (yn unol â pholisi caffael y buddiolwr/partner prosiect ei hun) ar gyfer unrhyw addasiadau.

Mae'n bwysig bod buddiolwyr/partneriaid prosiectau yn cadw tystiolaeth lawn i gadarnhau pa ran o Reoliad 72 y maent wedi dibynnu arni i wneud yr addasiad i gontract, gan gynnwys ble y bu unrhyw gynnydd mewn prisiau o ganlyniad i sefyllfa bresennol y farchnad. Mae canllawiau pellach ar Reoliad 72 ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/560262/Guidance_on_Amendments_to_Contracts_-_Oct_16.pdf,

a

https://www.gov.ie/en/publication/c23f5-public-procurement-guidelines-for-goods-and-services/

**Contractau y tu hwnt i gwmpas deddfwriaeth caffael cyhoeddus (y sector preifat ac o dan drothwyon OJEU) (buddiolwr o Iwerddon) a/neu drothwyon caffael cyhoeddus y DU (buddiolwr o Gymru).**

Er nad yw'n ofynnol i'r contractau hyn ddilyn y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, dylai buddiolwyr/partneriaid prosiectau gofio ei bod yn ofynnol cydymffurfio ag egwyddorion Cytuniad yr UE, sef peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a thryloywder, pan fyddant yn dyfarnu ac yn rheoli unrhyw gontractau drwy gaffael. Golyga hyn fod rhaid i unrhyw addasiadau i gontractau y tu hwnt i'r tendr gwreiddiol fod yn ddilys a rhaid cadw cofnod digonol o'r rhesymau. Hefyd, ni fyddem yn disgwyl i werth y costau hyn fod yn sylweddol. Yn gyffredinol, ni fyddem yn disgwyl i gostau o'r fath fod yn fwy na 50% o

gyfanswm gwerth y contract. Serch hynny, byddai pob addasiad yn cael ei ystyried yn unigol a rhaid iddo gael ei ategu gan dystiolaeth gadarn.

Er nad yw'r rhestr ganlynol yn hollgynhwysfawr, byddem yn disgwyl i addasiadau berthyn i o leiaf un o'r categorïau hyn:

1. Sefyllfa na ellid bod wedi'i rhag-weld o gwbl – costau nad oedd yn bosibl eu hystyried yn yr ymarfer tendro gwreiddiol am resymau dilys.
2. Costau angenrheidiol ychwanegol lle y gellir dangos nad yw cwmpas gwreiddiol y contract wedi'i addasu ac na fyddai'r gwaith wedi'i ddyfarnu i gontractwr arall pe bai'r gwaith ychwanegol wedi'i gynnwys yn y broses gaffael wreiddiol.
3. Newid y darparwyd ar ei gyfer yn y dogfennau tendro gwreiddiol, h.y. nid yw'n cynnwys gwaith/costau ychwanegol y gallai ymgeiswyr eraill o bosibl fod wedi tendro ar eu cyfer pe baent wedi'u cynnwys yn yr ymarfer tendro gwreiddiol.
4. Yn methu â newid contractwr oherwydd gwaith sydd wedi'i wneud fel rhan o'r hyn a gaffaelwyd – mae cyflawni'r contract gwreiddiol yn golygu nad yw'n wirioneddol bosibl i gontractwr arall wneud y gwaith ychwanegol gan nad yw'n gallu gweithio gyda'r cyfarpar sydd wedi'i osod, neu'r gwasanaeth sydd wedi'i ddarparu drwy'r contract gwreiddiol, heb gostau neu anghyfleustra sylweddol.

Os oes unrhyw ansicrwydd o ran gallu darparu tystiolaeth ar gyfer yr uchod, dylai buddiolwyr/partneriaid prosiectau ystyried gosod ar dendr unrhyw waith/gwariant ychwanegol sy'n codi tra maent yn cyflawni eu gweithrediad. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Prosiectau yn WEFO neu'ch Swyddog Gweithrediadau Iwerddon Cymru i gael cyngor pellach.

Mae'n hanfodol cadw'r holl gofnodion i gefnogi unrhyw addasiadau i gontractau a sicrhau bod y rhain ar gael i swyddogion WEFO/SRA/Llywodraeth Cymru a/neu archwilwyr Llywodraeth Cymru/yr UE.

Ym mhob achos, byddem fel arfer yn disgwyl gweld adroddiad amrywiad, neu ddogfen debyg, sy'n cofnodi bod addasiad wedi'i ystyried yn llawn, ynghyd â'r effeithiau posibl. Byddem hefyd yn disgwyl i'r addasiad fod wedi'i awdurdodi'n briodol (yn unol â pholisi caffael y buddiolwr/partner prosiect ei hun) pan wnaed yr addasiad.

Nid yw'r wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon yn gyngor cyfreithiol nac yn ganllawiau statudol ac ni fwriedir iddi fod yn hollgynhwysfawr. Ni fwriedir iddi ychwaith ddiystyru rhwymedigaethau cyfreithiol presennol sy'n berthnasol i awdurdodau contractio Sector Cyhoeddus Cymru a/neu Sector Cyhoeddus Iwerddon – dylai partïon contractio ofyn am eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain fel y bo'n briodol. Nodwch hefyd fod y gyfraith yn destun newid cyson a dylid gofyn am gyngor mewn achosion unigol.